# Cynnwys


Rhaglen ..... 2
Eitem 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf ..... 6
Eitem 5 - Cyllideb 2014-15 a Strategaeth Ariannol 2014-15 - 2017-18 ..... 13
Adroddiad i Gabinet y Cyngor ..... 14
Atodiad - Strategaeth Ariannol ..... 22
Eitem 6 - Rheolaeth Trysorlys 2014-15 ..... 56
Atodiad A ..... 59
Atodiad B ..... 76
Atodiad C ..... 77
Atodiad D ..... 81
Eitem 7 - Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau ..... 82
Eitem 8 - Cyllideb Refeniw 2013-14 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2013) ..... 96
Adroddiad i Gabinet y Cyngor ..... 97
Atodiad 1 ..... 100
Atodiad 2 ..... 101
Eitem 9 - Rhaglen Gyfalaf 2013-14 – Adolygiad diwedd y Trydydd Chwarter (31 Rhagfyr 2013) ..... 140
Adroddiad i Gabinet y Cyngor ..... 141
Eitem 10 - Cynnyrch yr Adain Archwilio Mewnol ..... 149
Eitem 11 - Cynllun Archwilio Mewnol 2013-14 ..... 170
Eitem 12 - Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2014-15 ..... 178
Eitem 13 - Hunan Asesiad o Drefniadau Llywodraethu ..... 185
Eitem 14 - Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor ..... 189

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD IAU, 20 CHWEFROR 2014**

**10.30am THURSDAY, 20 FEBRUARY 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

bethanadams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 12-2-14

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dafydd Meurig |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (5)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards
Tom Ellis
John Brynmor Hughes
Angela Russell
John Pughe Roberts

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies
R.J. Wright
Sedd Wag / Vacant Seat

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Is-Gadeirydd y Cygnor / Vice-Chairman of the Council

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013, fel rhai cywir.

(copi yma- papur **melyn**)

**5. CYLLIDEB 2014/15 A STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18**

Cyflwyno adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol (copi yma – papur **glas**)

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **eog**)

**7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 22 Ionawr 2014 (copi yma – papur **gwyrdd**)

**8. CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2013)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **pinc**)

**9. RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2013)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

**10. CYNNYRCH YR ADRAN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Ionawr 2014 (copi yma – papur **llwyd**)

**11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2013/14 (copi yma – papur **lelog**)

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2014/15**

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015 (copi yma – papur **melyn**)

**13. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg (copi yma – papur **glas**)

**14. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol (copi yma – papur **eog**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO 3/12/13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, John B. Hughes, Charles W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, Gethin Williams, R. J. Wright a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd – ar gyfer Eitem 5), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitemau 1-8) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Aled Ll. Evans

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Medi 2013, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd. Nodwyd mai un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Ymhelaethwyd bod cyfrifoldeb i sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu.

Nodwyd bod rhestr o'r adroddiadau archwilio allanol a dderbyniwyd gan y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio bob 6 mis, ond bwriedir o hyn ymlaen canolbwyntio ar y prif adroddiadau sef:

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Nodwyd y byddai'r gofrestr gyflawn o adroddiadau archwilio allanol ar gael i'r aelodau drwy gysylltu gyda'r Pennaeth Strategol a Gwella.

Adroddwyd bod y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar yr 13eg o Ragfyr yn rhoi ystyriaeth i'r mater a cheisir eglurdeb o ran rôl y Pwyllgor Archwilio, y Fforwm Craffu a'r gyfundrefn craffu er sicrhau nad oes dyblygu.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed pwy fyddai'n craffu'r adroddiadau eraill, nodwyd bod yr adrannau a'r Aelodau Cabinet yn sicrhau gweithrediad a bod yr adroddiadau ar gael i'r Craffwyr pe dymunent eu craffu.

**PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo’r drefn newydd o adrodd a chanolbwyntio ar y prif adroddiadau sef:**
- **Adroddiadau ESTYN**
- **Adroddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**
- **Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)**

**ii) Cymeradwyo’r cynnig i drafod y dull gorau o graffu a dal i gyfrif y prif adroddiadau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion Craffu 13 Rhagfyr.**

## 4. CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2013)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i’r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle’n briodol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb ail chwarter i’r Cabinet ar 26 Tachwedd 2013. Cyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw’r pwyllgor i’w craffu -

“a) Penderfynwyd nodi’r rhagolygon diweddaraf o sefyllfa cyllideb 2013/14 ac ymrwymo fel Aelodau Cabinet unigol, gyda’r penaethiaid adrannau perthnasol, i gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth, gan fod amheuaeth cryf os byddwn yn digolledu’r cwbl o orwariant unrhyw adrannau, a lle’n briodol disgwylir gweld tystiolaeth o gamau rheolaethol sy’n lleihau’r gorwariant yn ystod gweddill 2013/14.

b) Rhyddhau (£568k) o gyllideb ychwanegol o’r Gyllideb Wrth Gefn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cwrdd â chost newidiadau demograffeg.

c) Rhyddhau elfen o'r gyllideb 'Arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw' er mwyn pontio rhai targedau arbedion (yr Uned Gaffael Gogledd Cymru ac elfen o e-Gaffael) sy’n annhebygol o gael eu gwireddu’n llawn yn 2013/14.”

Nodwyd bod y cyllidebau a ddatganwyd pryder amdanynt yn derbyn sylw gan yr adrannau a’r Aelodau Cabinet sef (£ isod gorwariant net 2013/14):

- Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwastraff £536k (a phwysau ar gyllideb 2014/15)
- Darparu a Hamdden – Staff Cartrefi £290k a Gwerthiannau Hamdden £76k
- Addysg – Diswyddo ac Ymddeol Cynnar mewn Ysgolion £259k

Pwysleisiwyd y gwnaed yn glir i’r adrannau a’r Aelodau Cabinet nad oedd bwriad i ddigolledu adrannau am eu holl orwariant ar ddiwedd y flwyddyn, fel blynyddoedd blaenorol, oherwydd y setliad ariannol heriol ar gyfer 2014/15, a disgwylir gweld camau rheolaethol i leihau’r gorwariant yn ystod gweddill 2013/14.

Adroddwyd y rhagdybiwyd yn wreiddiol yn y gyllideb y byddai llai o bres Treth Cyngor wedi eu casglu oherwydd y cynllun gostyngiadau, ond gan fod Llywodraeth Cymru wedi addasu’r cynllun bod £520k ychwanegol i’r hyn a ddisgwyliwyd wedi ei dderbyn; ynghyd â derbyn £221k ychwanegol yn ôl o’r buddsoddiad a wnaed ym Manc Heritable.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod mwy o waith wedi ei wneud i ddarganfod y rhesymau tu ôl i’r gorwariant yn y tri maes lle’r oedd pryder, ers cyhoeddi’r adroddiad.

Yng nghyswllt gorwariant yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn y maes Gwastraff, adroddwyd bod adroddiad yn mynd gerbron Cabinet y Cyngor yn fuan yn edrych ar drawsnewid y dull o gasglu a gwaredu gwastraff gyda mwy o bwyslais ar ailgylchu, a bod camau wedi eu cymryd yn barod i gau safle Ffridd Rasus yn Harlech fel safle gwaredu. Nododd y Cadeirydd y gellir gwahodd swyddogion o’r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a’r

Aelod Cabinet Amgylchedd i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau yng nghylch y mater.

Yng nghyswllt y gorwariant yn Darparu a Hamdden, nodwyd mai materion cyflogaeth oedd yn gyrru'r gorwariant yng nghyllideb gweithwyr Cartrefi a bod gwerthiannau hamdden i lawr oherwydd bod y canolfannau hamdden yn ceisio hybu bwyd iach yn eu bwytai a bwriedir cynyddu incwm gan farchnata yn well.

Nodwyd bod y Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi gwneud ymholiadau i'r gorwariant yn yr Adran Addysg o dan y gyllideb Diswyddo ac Ymddeol Cynnar mewn Ysgolion. Esboniwyd bod y gwariant perthnasol yn briodol gan ysgolion, lle mae gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion, er mwyn mantoli'r gyllideb.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gofynnodd aelod faint o blant oedd ar y rhestr maethu. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n gwneud ymholiadau a gadael i'r aelod wybod.

Yng nghyswllt ymddeoliadau cynnar yn yr Adran Addysg, nododd aelod bod athrawon yn ymddeol yn gynnar ac yna yn derbyn swyddi mewn ysgolion eraill a bod hyn yn atal pobl ifanc rhag cael cyfle. Ymhellach nodwyd bod cymorthyddion yn cael eu defnyddio fwyfwy yn hytrach na chyflogi mwy o athrawon. Nododd aelod arall y dylai aelodau drafod y mater gyda Llywodraethwyr eu hysgolion.

Mewn ymateb i ymholiad parthed cynnydd mewn gwariant ar wasanaethau pobl hŷn oherwydd newidiadau mewn demograffeg, nododd y Pennaeth Cyllid bod darpariaeth gyllidol yn cael ei wneud ar ragolygon newidiadau mewn demograffeg ond bod gwybodaeth benodol o niferoedd wedi eu derbyn yn ddiweddar. Ymhelaethwyd bod y wybodaeth benodol ar ddemograffeg yn helpu'r adran i dystiolaethu'r angen iddynt gael eu digolledu am y gost ychwanegol. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod darpariaeth yn ei le yn flynyddol i helpu'r adran i gadw i fyny efo'r newidiadau mewn demograffeg.

Gofynnodd aelod a oedd yna ddigon o gapasiti oddi fewn y Cyngor i drawsnewid gwasanaethau er mwyn lleihau'r gorwariant ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n allweddol i reolwyr a staff brynu i mewn i'r syniadau i drawsffurfio gwasanaethau.

Adroddwyd y byddai'r adrannau yn derbyn targedau arbedion ym mis Chwefror, a disgwylir i'r adrannau feddwl am syniadau/cynlluniau i arbed arian erbyn dechrau Haf 2014 ac i benderfynu os oes adnodd digonol oddi mewn i'r Cyngor i'w wireddu, neu oes angen adnodd o'r tu allan. Ychwanegwyd bod adnodd unwaith ac am byth y gronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gael i'r adrannau er mwyn gwireddu trawsffurfiad o wasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed beth a olygwyd gan 'Eraill' ar dudalen 14 o Atodiad 2, nododd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y gwahaniaethau mwyaf sylweddol wedi eu rhestru o dan benawdau penodol, a bod llawer o amrywiol gyllidebau'r Adran Addysg wedi eu cynnwys efo'i gilydd o dan 'Eraill' oherwydd bod y gwahaniaethau rhwng lefel gwariant a lefel y cyllidebau perthnasol yma mor fychan.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd i drawsffurfio'r ffyrdd o ddarparu gwasanaethau oherwydd nad oedd y drefn bresennol yn gynaliadwy yn wyneb yr her ariannol. Nododd y byddai cyfle i holl aelodau'r Cyngor gymryd rhan yn y broses yn ystod y misoedd nesaf.

Mewn ymateb i sylw yng nghyswllt gorwariant yn y Gwasanaeth Morwrol oherwydd Hafan Pwllheli, nododd y Pennaeth Cyllid bod adroddiad yn mynd gerbron Cabinet y Cyngor yn fuan yn edrych ar yr opsiynau o ran rheolaeth yr Hafan.

Nododd aelod y dylid cymryd i ystyriaeth sefydlu Ymddiriedolaeth ar gyfer Harbwr a Hafan Pwllheli, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid byddai hynny ymysg yr opsiynau.

Tynnodd aelod sylw at y ffaith nad oedd yr Hafan yn colli pres ond yn hytrach ddim yn cyrraedd y targed incwm. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod rhaid gosod targed incwm a ddisgwylir gan ased ym mherchnogaeth y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad parthed gorwariant o £76,000 ar y Gwasanaeth Teleffon oherwydd methiant i gyflawni cynllun arbediad yn llawn o dan yr Adran Gofal Cwsmer, esboniodd y Pennaeth Cyllid mai llithriad yn amserlen cynllun VoIP (*Voice Over Internet Protocol*) oedd wedi achosi'r gorwariant. Nododd y byddai cais ar gyfer arian o'r gronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer ariannu'r cynllun yn mynd gerbron Cabinet y Cyngor.

Diolchodd aelod i'r Pennaeth Cyllid a staff yr Adran Gyllid am eu gwaith yn cael 94% o'r buddsoddiad a wnaed ym Manc Heritable yn ôl hyd yn hyn.

**PENDERFYNWYD**

a) **Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**
b) **Gwahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r swyddogion perthnasol o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau parthed gorwariant yn y maes gwastraff.**

**5. RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2013)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 26 Tachwedd 2013 a chyflwynodd eu penderfyniad i sylw'r pwyllgor –

"PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 - 2015/16 fel y'i cyflwynwyd yn rhan 1 o'r adroddiad a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol, fel y'u hamlinellwyd yn rhan 2 yr adroddiad."

Nodwyd ei fod yn galonogol bod gwerth y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd gyfredol dros £121 miliwn, sy'n gyflawniad sylweddol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Bu cynnydd o 3% yn y lefel gwariant ar ddiwedd Medi eleni o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd bod pwysau yn cael ei roi ar yr adrannau i wario yn gynt yn y flwyddyn.

Cyfeiriodd aelod at y Cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned - Edern i Forfa Nefyn, nododd bod y gwaith wedi cychwyn a diolchodd am y gwaith rhagorol a thaclus.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed benthyca heb gefnogaeth, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn y gorffennol yn derbyn lefel blynyddol gan y Llywodraeth ar gyfer faint o arian a ellid ei fenthyca, a thalu benthyciadau yn ôl efo trothwy wedi ei bennu. Erbyn hyn, er bod trothwy wedi ei bennu, mae'r broses yn fwy damcaniaethol a gall y Cyngor fynd dros y trothwy yn unol â'r Cod Darbodus, lle mae cynllun yn fforddiadwy, neu yn gynaliadwy drwy dalu'r arian yn ôl trwy incwm neu arbedion yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a derbyn penderfyniad y Cabinet.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Adroddodd bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn arddel arfer gorau.

Nodwyd bod seminar yn cael ei gynnal i'r aelodau ym mis Ionawr efo'r ymgynghorwyr o Gwmni Arlingclose, lle bydd cyfle i holi am y strategaeth ar gyfer 2014/15 a derbyn arweiniad ar sut gall y Cyngor dderbyn mwy o log am eu buddsoddiadau.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod llogau yn isel a bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud am gyfnodau hirach lle'n briodol er mwyn derbyn mwy o log ond fel amlinellir yn Atodiad A, mae'r cyfnod buddsoddi wedi lleihau mewn sawl achos. Ychwanegodd y Rheolwr Buddsoddi bod cyfartaledd derbyniadau llog am y cyfnod 6 mis diwethaf yn 0.78% sydd yn tanlinellu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa.

Nodwyd bod y Cyngor yn ceisio gwneud y gorau o'u buddsoddiadau gan gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Nodwyd yr amlygwyd yng nghyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Gorffennaf i'r Pwyllgor Archwilio eu pryder nad oedd perchnogaeth gorfforaethol o hunanasesiad blynyddol y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ac nad oedd trefniadau cadarn ar waith ar gyfer ei graffu.

Adroddwyd bod camau wedi eu cymryd yn barod i wella'r trefniadau llywodraethu gyda Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod. Nodwyd mai aelodau'r grŵp yw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dilwyn Owen Williams), Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

Nodwyd bod SAC yn annog y Cyngor i sefydlu rhaglen gylchol o werthusiadau o'r elfennau oddi mewn i'r fframwaith llywodraethu.

Adroddwyd bod y Grŵp Llywodraethu wedi penderfynu mai'r cam cyntaf byddai adolygu'r fframwaith llywodraethu ac y dylai'r Pwyllgor Archwilio gymryd rhan allweddol yn y broses.

Hysbyswyd bod bwriad i gynnal gweithdy gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr i fynd trwy'r egwyddorion craidd o lywodraethu da, gyda hwyluswyr yn bresennol i gynorthwyo a rhoi arweiniad.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod camgymeriad yn y fersiwn Saesneg o'r adroddiad o dan baragraff 2.2 ac y dylai'r dyddiad 8 Ebrill fod yn darllen 2014 yn hytrach na 2041.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad fel diweddariad ar ddatblygu rhaglen waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu;**

**(ii) trefnu gweithdy yn ystod Ionawr 2014 er mwyn cynnal hunanasesiad o egwyddorion llywodraethu da, i'w gynnal yn y Ganolfan Gyswllt, Penrhyndeudraeth os yn bosib.**

## 8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013 i ystyried tri archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst 2013 sef –
a) Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch
b) Polisi Buddiannau Swyddogion
c) Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y gweithgor bod y materion a amlygwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Yng nghyswllt yr archwiliad Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion), nododd aelod bod y gweithgor yn datgan siom mai ond 21% o ysgolion oedd wedi ymateb i'r cais am wybodaeth ac y dylid nodi yn y dyfodol bod rhaid ymateb.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed archwiliad Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch (Ysgolion), nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg byddai'r adroddiad yn debygol o ddod gerbron y pwyllgor ym mis Mai.

Nododd aelod bod y gweithgor yn hwyluso cydweithio ac yn galluogi trosglwyddo negeseuon yn fwy effeithiol i'r swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Hydref 2013**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi 2013 a 31 Hydref 2013. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 11 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 Adroddiad arall (memoranda a.y.)
- 4 o adolygiadau grant
- 2 o archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol a oedd yn cynnwys 23 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y mater canlynol –

**Porthladdoedd**

Holodd aelod, yn dilyn yr archwiliadau diweddar o gerbydau am ddefnydd o ddisel coch gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA), a oedd y Cyngor wedi

derbyn dirwy, a beth oedd y sefyllfa efo peiriannau torri gwellt ran defnyddio disel gwyn neu goch. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n gwneud ymholiadau a gadael i'r aelod wybod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi i 31 Hydref 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' ynghyd â'r gorwariant yn y maes gwastraff yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol –**
**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Michael Sol Owen, Gethin Glyn Williams, Bob Wright a Tom Ellis (os oedd ar gael).**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 15 Tachwedd 2013 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 19 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Disgwyl Adolygiad | 6 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 40 |
| Cyfanswm | **105** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 6 |

Adroddwyd er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o 60% (h.y. 63 allan o 105), bod angen cau neu ryddhau adroddiad terfynol 23 archwiliad arall erbyn 31 Rhagfyr 2013. Nodwyd y disgwylir y bydd y 12 adroddiad sydd â statws "Cwblhawyd Gwaith Maes", "Disgwyl Adolygiad" ac "Adroddiad Drafft" wedi eu cwblhau, ac anelir i ryddhau 11 archwiliad pellach cyn diwedd y chwarter i gwrdd â'r targed.

Tynnwyd sylw at addasiadau i'r Cynllun Archwilio Mewnol a oedd yn bennaf oherwydd newidiadau yn nhrefniadau'r Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad parthed cynnydd yn y dyddiau i gwblhau'r archwiliad Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch (Ysgolion), nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod 15 diwrnod wedi ei ychwanegu i raglen waith cwblhau'r archwiliad oherwydd derbyniwyd cais i edrych ar fwy o sampl o ysgolion na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.55am

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2014/15 A STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO'R GYLLIDEB Y BWRIEDIR EI ARGYMELL GAN Y CABINET I'R CYNGOR I'W GRAFFU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO O RAN EI BRIODOLDEB ARIANNOL** |
| GWEITHREDIAD: | **CRAFFU'R WYBODAETH CYN I'R CYNGOR YSTYRIED ARGYMHELLIAD Y CABINET** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL A DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID.** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglyn a'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell ar gyfer 2014/15.

Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglyn a'r strategaeth ariannol i'w ddilyn ar gyfer y cyfnod i ddod (2014/15 – 2017/18).

Mae hyn yn parhau gyda'r arferiad a fu gennym bellach ers rhai blynyddoedd - arferiad sy'n cael ei ganmol gan yr Archwiliwr Dosbarth ac yn talu ar ei ganfed o ystyried y sefyllfa yr ydym yn ei wynebu a chynllunio ar ei gyfer..

Bydd y Cabinet wedi rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad erbyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor o gasgliadau'r Cabinet.

Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion fel y gellir adrodd ar hynny i'r Cyngor pan yn adrodd ar gynigion y Cabinet..

**ADRODDIAD I'R CABINET**
**18 Chwefror 2014**

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Cyllideb 2014/15 a Strategaeth Ariannol 2014/15 – 2017/18

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

1.1 Y dylid argymell i'r Cyngor y dylid sefydlu cyllideb o £231,648,200 ar gyfer 2014/15 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £174,970,570 a chynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5% fyddai'n golygu incwm Treth Gyngor o £54,973,640 gyda'r bwlch sy'n weddill i'w gyllido drwy ddefnyddio £1,703,990 o falansau'r Cyngor.

1.2 Y dylid hefyd sefydlu rhaglen gyfalaf o £16.193m yn 2014/15 a £17.974m yn 2015/16 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 10.7 yr atodiad.

1.3 Y dylid hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor am y cynigion i ddygymod gyda'r broblem ariannol sy'n ein hwynebu am y 4 blynedd nesaf sef yr hyn sy'n cael ei nodi yng nghymalau 19-26 yr adroddiad hwn a rhan 11 yr atodiad.

**Barn yr aelod lleol**

*Nid yw'n fater lleol.*

---

**Cyflwyniad**

1. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn i ddod (2014/15) gan sicrhau fod y gwariant yn cydfynd a'i incwm.

2. Yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau, mae'r Cyngor wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

3. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed i ni gan ein bod yn medru cynllunio unrhyw arbedion angenrheidiol yn rhesymegol heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog sydd yn aml yn arwain at y penderfyniadau anghywir o ran y buddion i'r dinesydd.

4. Mater i'r Cabinet yw ystyried yr holl faterion yma gan argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2014/15. Mae yna rôl hefyd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y cynigion y bwriedir eu cyflwyno er mwyn ystyried a ydynt yn ariannol briodol.

5. Yn ychwanegol at hyn, yn wyneb yr hinsawdd anodd sydd o'n blaenau a chan fod angen cynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyllidebau blynyddoedd i ddod a hadu cynlluniau digon buan er mwyn dygymod a'r sefyllfa fydd yn ein hwynebu, dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ymgynghori gyda'r Cyngor ar yr hyn y mae'n ystyried y dylid ei wneud er mwyn dygymod a'r sefyllfa.

6. Mae'r atodiad sydd ynghlwm i'r adroddiad yma yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2014/15 ynghyd a'r materion hynny sydd yn dylanwadu ar sefydlu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

**A) CYLLIDEB 2014/15**

7. Gellir crynhoi'r hyn a argymhellir ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn –

| | **£m** |
|---|---|
| Anghenion Gwario 2014/15 | 240.30 |
| LLai Incwm Grant y Llywodraeth | (174.97) |
| Llai Treth Gyngor (ar sail cynnydd o 3.5%) | (54.97) |
| Diffyg - | 10.36 |
| Lleihau cyllidebau penodol | (3.06) |
| Arbedion yn cael eu cyflawni ac a fydd ar gael yn 14/15 | (5.52) |
| **I'w gwrdd o falansau ac arbedion a gyflawnwyd o flaen llaw** | 1.78 |

8. Yn 2014/15 mae asesiad o'n anghenion gwario yn awgrymu fod angen cynyddu ein gwariant i £240.30m.

9. Mae hyn yn cynnwys £1.4m i gwrdd â chostau trosglwyddiadau i mewn i'r setliad ynghyd a £1.5m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau. Rhoddir manylion llawn yn rhan 3 yr atodiad amgaeedig.

10. Bydd hefyd angen cyfarch anghenion unwaith ac am byth cyfwerth a £558,000 a ariennir drwy ychwanegu £128,750 o adnodd arbedion a gyflawnwyd yn gynt na'r angen tuag at y ddarpariaeth o £297,250 sydd eisoes yn y gyllideb sylfaenol at ddibenion unwaith ac am byth a defnyddio £132,000 o falansau i ariannu'r gweddill.

11. O fewn y gyllideb a gynigir, rhagwelir y byddwn yn cydymffurfio ag addewid cyllido'r Llywodraeth ar gyfer ysgolion ond mae'r sector uwchradd dan bwysau oherwydd effaith demograffi a'r ffaith fod nifer o grantiau a roddir iddynt gan LLywodraeth Cymru yn cael eu lleihau.

12. Er mwyn cynorthwyo'r sector i gael amser i ddygymod mae'r Adran Addysg yn bwriadu cynorthwyo drwy roddi cyllid unwaith ac am byth o £160,000 i'r sector yn 2014/15 ac argymhellir fod yna gyfraniad ychwanegol o £250,000 yn cael ei wneud o falansau. Byddwn hefyd yn gosod cynllun gwarchodaeth dros dro i unrhyw ysgol sy'n disgyn i 260 o blant er mwyn rhoi amser i sefydlu ateb parhaol. Fodd bynnag mae hyn yn tanlinellu'r angen i ddod i ateb hir dymor a chynaliadwy ar gyfer y maes. Rhoddir manylion yn rhan 4 yr atodiad.

13. Bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn lleihau 4.4% i £174.97m sef gostyngiad llawer uwch nag unrhyw beth a welwyd ers ad-drefnu Llywodraeth leol yn 1996.

14. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol y mae hyn yn ei greu yn 2014/15 felly bydd modd lleihau rhai cyllidebau heb amharu ar gyllidebau presennol gwasanaethau rheng flaen a bydd modd galw ar arbedion o £5.52m sydd eisoes ar y gweill.

15. Yn wreiddiol 'roeddem yn rhagweld y byddai yna £6.2m o arbedion ar gael yn 2014/15 ond mae yna un cynllun na fydd bellach yn cyflawni'r arbedion a ragwelwyd wrth greu'r achos busnes ac mae yna werth £450,000 o arbedion lle mae eu proffil yn llithro i 2015/16. Gellir pontio'r diffyg y bydd y llithriad yma yn ei greu drwy gwrdd ag ef o arbedion eraill a gyflawnwyd o flaen llaw. Rhoddir manylion hyn oll yn rhan 6 yr atodiad.

16. Argymhellir y dylid cyfarch gweddill y bwlch drwy gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% fydd yn cynhyrchu £1.86m a defnyddio gwerth £1.33m o falansau i gyfarch y gweddill.

17. Mae yna gwestiwn pellach yn rhan 8 yr atodiad ynglyn a gwneud rhywbeth am gyflogau isel o fewn y Cyngor. Nid yw'r argymhelliad uchod ynglyn a'r Dreth Gyngor yn cymryd hynny i ystyriaeth.

18. O fewn y gyllideb a gynigir y brif risg yw'r ffaith na fydd gennym bellach gyllideb wrth gefn a bydd yn rhaid disgyn yn ôl ar falansau'r Cyngor os ceir galwadau cyllidol annisgwyl.

19. Yn wyneb yr angen i adolygu pob un strategaeth (gan gynnwys y strategaeth asedau) mae'r strategaeth hefyd yn awgrymu peidio ag ychwanegu at y rhaglen gyfalaf a fabwysiadwyd gan y cyngor y llynedd ond i addasu'r rhaglen yn sgil rhai newidiadau anorfod yn unol â'r hyn a nodir yn atodiad 3 yr adroddiad fydd yn golygu rhaglen o £16.193m yn 2014/15 a £17.974m yn 2015/16. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel llawer uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf.

## B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG

20. Ar gyfer y cyfnod 4 blynedd 2014/15 – 2017/18 dengys ein dadansoddiad o'r sefyllfa dros y cyfnod y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £51m dros y cyfnod gyda thafluniadau gostyngiadau grant yn gyfrifol am £20m o'r swm yma.

21. Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 4 blynedd nesaf, gyda'r camau y bwriedir eu cymryd yn 2014/15 ynghyd a'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu byddai hyn yn golygu ein bod angen edrych am arbedion ychwanegol cyfwerth a bron i £34m yn y tair blynedd o 2015/16 ymlaen.

22. Crynhoir y sefyllfa arfaethedig yn y tabl isod .

| **£M** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.4 | 7.7 | 10.2 | 6.7 | 31.0 |
| Colled (cynnydd) grant | 6.7 | 4.4 | 3.5 | 6.1 | 20.7 |
| Treth Gyngor (*) | (2.7) | (1.8) | (1.9) | (2.0) | (8.4) |
| **Diffyg Cynlluniedig** | 10.4 | 10.3 | 11.8 | 10.8 | 43.3 |
| Addasiadau cyllidebol | (3.1) | | | | (3.1) |
| Cynlluniau Rhaglen bresennol | (5.5) | (0.7) | (0.2) | | (6.4) |
| Defnydd balansau a blaen arbedion | (1.8) | 1.8 | | | - |
| **I'w ddarganfod -** | (-) | 11.4 | 11.6 | 10.8 | 33.8 |

23. Mae'r goblygiadau ar holl wasanaethau eraill y Cyngor o orfod darganfod arbedion o £34m tra'n gwarchod ysgolion mor bell gyrhaeddol fel bod angen cadw'r opsiynau mor agored â phosibl er mwyn rhoddi lle i symud pan welwn effaith yr arbedion y bydd yn rhaid eu gwneud, yn enwedig pan fydd angen gwneud toriadau.

24. Yn hyn o beth felly argymhellir y dylid gweithredu ar sail amrediad o bosibiliadau fel a ganlyn –

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor o fewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar asesiad o beth sy'n ymarferol bosibl. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasnaethau Cyhoeddus | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymeryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr fydd ar ôl |

25. Bwriedir cyfarch yr angen am fwy o arbedion effeithlonrwydd drwy sefydlu targedau gwahaniaethol ar gyfer pob un gwasanaeth yn seiliedig ar asesiad o'r cyfleoedd sy'n bodoli i ddarganfod arbedion o'r fath. Bydd disgwyl i aelodau cabinet a phenaethiaid wedyn lunio cynlluniau ar gyfer gwireddu arbedion effeithlonrwydd o'r fath.

26. Ar yr un pryd bwriedir llunio rhaglen gynhwysol ar gyfer sefydlu blaenoriaethau er mwyn ceisio sicrhau fod unrhyw doriadau yn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion Gwynedd.

27. Bwriedir cyfarch yr anghenion yma nawr, ond fe fydd cyfundrefnau o'r fath yn cymryd amser i'w gwireddu. Bydd gennym rhywfaint o amser oherwydd y cynllunio ariannol a wnaed yn y gorffennol, ond rhaid bod yn wyliadwrus nad ydym yn colli unrhyw gyfleoedd sy'n codi yn y cayfamser a bydd y Cabinet yn manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi yn y cyfamser i wireddu arbedion.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

28. Mae'r holl strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw.

29. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod unrhyw arbedion y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni yn cael eu gweithredu yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr adrawiad lleiaf ar ein bobl.

30. Argymhellir cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% yn 2014/15 er mwyn taenu effaith blynyddol amrywiol y wasgfa ariannol yn gyson dros y blynyddoedd fel na fyddwn yn gweld y Dreth Gyngor yn gostwng mewn un flwyddyn dim ond i'w weld yn gorfod codi'n wyllt mewn blynyddoedd eraill.

31. 'Rydym yn rhagweld y bydd yna gynghorau eraill yng Nghymru yn cynyddu'r Dreth Gyngor ar lefel uwch na hyn ac yn sicr ystyriaf fod hyn yn isafswm os ydym am gael unrhyw obaith o gyfarch y bwlch enfawr yr ydym yn ei wynebu.

**Ystyriaethau perthnasol**

32. Fel y nodir uchod, mae modd codi llai neu fwy o dreth Gyngor fydd yn effeithio ar lefel y toriadau y bydd eu hangen dros y cyfnod.

33. Nid oes modd effeithio ar y grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru (er bod swyddogion ac aelodau yn barhaus yn gwneud gwaith i geisio sicrhau fod y fformiwla dyrannu yn deg) ond o ran gweddill yr hafaliad mae modd newid y ffigyrau gwariant ond mae yna oblygiadau i hynny wrth gwrs.

34. Mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb i'w osod yn 2014/15 ar sail y materion a nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen ond o'm rhan i fel Aelod Cabinet dwi'n credu mai dyma yw'r balans gorau y gellir ei daro.

35. Fel rhan o broses o geisio bod yn gynhwysol 'rwyf yn ymgynghori gyda thrwch aelodau'r Cyngor drwy gyfres o seminarau dros y dyddiau yn arwain at gyfarfod y cabinet a byddaf yn adrodd ar lafar ar unrhyw sylwadau a geir yn ystod y broses honno er mwyn i'r Cabinet ystyried y mater yn derfynol cyn gwneud argymhellion o ran y gyllideb i'r Cyngor a mater i'r Cyngor fydd mabwysiadu'r gyllideb honno neu beidio.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Yn yr Hydref, fe waethygodd rhagolygon ariannol y Cyngor o £8m wrth i Lywodraeth Cymru gydnabod newid i'w cynlluniau gwreiddiol ar gyfer grantiau Cynghorau yn 2014/15. 'Roedd gan y Cyngor strategaeth briodol mewn lle i ymdrin a'r ffigyrau grant gwreiddiol ac fe benderfynodd peidio a rhuthro i greu arbedion newydd er mwyn ymdrin a'r diffyg. Fe wnaed hyn er mwyn prynu amser i'r Cyngor ddarganfod mesurau effeithlonrwydd newydd ac i ddeall yn well unrhyw doriadau potensial i wasanaethau.

Ochr anffodus y strategaeth yma yw mai'r gyllideb arfaethedig a gynigir ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2014/15 yw'r un tynaf ers i ni gael ein sefydlu yn 1996. Ni fydd yna unrhyw gyllideb wrth gefn, ar gyfer unrhyw gynnydd mewn gwariant parhaol annisgwyl yn ystod y flwyddyn; mae yna ddefnydd helaeth o falansau sy'n golygu oedi gorfod gwneud penderfyniadau cyllidol anodd ac mae yna bwysau cyllidol eraill yn dechrau ymddangos sy'n anodd i'w maintoli ar hyn o bryd.

Mae'r trywydd yma yn rhoi pwysau aruthrol ac atebolrwydd ar y Cabinet i wneud arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn 2014/15 ymhell o flaen Ebrill 2015 fel ein bod unwaith eto ar y droed flaen. Er mwyn llwyddo, bydd y Cabinet yn manteisio o gael mewnbwn wedi ei ffocysu gan Aelodau Craffu. Mae'r Cyngor yn wynebu sialens ariannol dychrynllyd, ond os bydd pawb yn cyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol ac o gofio ein record dda yn y maes, gallwn fod yn hyderus o reoli'r niwed i wasanaethau'r Cyngor yng Ngwynedd

**Y Swyddog Monitro:**

Er mai mater i'r Cyngor Llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn a'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno, gan gynnwys cyflawni unrhyw arbedion angenrheidiol. Mae'r strategaeth ariannol ar y llaw arall yn fater i'r Cabinet ei benderfynu ond wrth wneud hynny byddai'n ddymunol iddo fod yn gynhwysol ac ymgynghori gyda'r Cyngor. 'Rwyf yn cefnogi'r bwriad i wneud hynny.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r sylwadau hyn yn ffurfio adroddiad y Prif Swyddog Cyllid ar "gadernid yr amcangyfrifon" a "digonolrwydd y reserfau ariannol" yn unol â rhan 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae rhaid i'r Cyngor ystyried hyn, a'r risgiau cysylltiedig wedi'u hadnabod gan y Prif Swyddog Cyllid, wrth bennu'r gyllideb flynyddol a lefel y Dreth Cyngor.

Wrth i aelodau gyrraedd penderfyniad ar ddefnydd o falansau yn y cylch gosod cyllideb, mae'n hanfodol i ystyried ac asesu'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Rwy'n darparu'r farn yma wedi ystyried ein sefyllfa ariannol, ymrwymiadau, a rhagdybiaethau creiddiol i'r gyllideb fel cyfraddau chwyddiant a llog, newid tebygol mewn galw am wasanaethau, amcangyfrifon o werth cynlluniau arbedion, ayb.

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau perthnasol wrth i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol lunio'r strategaeth ariannol, a gallaf gadarnhau rhesymoldeb y rhagolygon gerbron parthed anghenion gwariant y Cyngor erbyn 2014/15 a thu hwnt, er fod peth ansicrwydd a straen pellach yn anochel gyda phwysau ar ein cyllideb o sawl cyfeiriad. Er hynny, credaf fod tybiaethau teg yn yr adroddiad a bod y tybiaethau rheiny yn cynhyrchu ffigyrau ariannol gyda lefel risg cymedrol a derbyniol.

Er mwyn lleddfu'r risg cysylltiedig â'r strategaeth ariannol yn 2013/14, mae'r Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran, rheolwyr gwasanaeth a chyfrifwyr sy'n gyfrifol am gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol wedi gweithredu mewn modd disgybledig a gweithgar i reoli gwariant a sicrhau incwm. Bydd angen atgyfnerthu'r rheolaeth ariannol gydwybodol hynny yn 2014/15, gan fod ein hyblygrwydd cyllidebol wedi crebachu.

Yn dilyn setliad grant digynsail o heriol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 ac mewn hinsawdd ariannol cyffredinol anodd, does dim amheuaeth bydd y Cyngor angen lefel darbodus o falansau erbyn 2015/16 a thu hwnt, ar gyfer costau diswyddo anochel a chostau pontio pellach mewn blynyddoedd dilynol cyn gwireddu rhai cynlluniau arbedion mawr.

Fodd bynnag, gan fod lefel cyfredol ein balansau (tua £8m) yn ddarbodus, a gan fod gan Wynedd strategaeth arbedion ar gyfer y blynyddoedd dilynol, gyda'r addewid gan aelodau'r Cabinet y bydd ymlyniad at gynlluniau i flaenoriaethu yn 2014, rwy'n cefnogi'r camau a argymhellir, gan gynnwys defnyddio cyfran resymol o'r balansau (tua £1.8m) er mwyn pontio yn 2014/15 a chaniatau'r amser i'r Cyngor weithredu rhaglen arbedion priodol.

Rwy'n argyhoeddedig fod yr hyn argymhellir yma yn ddarbodus os yw'r Cyngor yn gweithredu'n briodol yn ystod 2014 ar gyfer 2015/16 a thu hwnt. Fodd bynnag, bydd hynny'n golygu rôl heriol ac allweddol i'r Cabinet, yn cymryd nifer o benderfyniadau anodd wrth flaenoriaethu i gyflawni arbedion, fel cytunwyd mewn egwyddor gyda'r aelodau wrth ddatblygu'r Strategaeth Ariannol yma.

**Atodiadau**
Adroddiad Cyllideb 2014/15 a Strategaeth Ariannol 2014/15 – 2017/18

**CYLLIDEB 2014/15 a**
**STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18**

## 1 Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad yma yn nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw sydd ei angen ar gyfer 2014/15.

1.2 Yn ychwanegol at hyn, er gwaethaf y faith ein bod wedi sefydlu strategaeth ariannol 4 blynedd y llynedd, yn wyneb y newid sylfaenol a welwyd yn yr hinsawdd ariannol, mae'r adroddiad hefyd yn argymell strategaeth ariannol newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 2017/18 ac yn nodi'r camau y bydd angen eu cymryd i gwrdd a'r sialens o'n blaenau.

## A) Cyllideb 2013/14

## 2 Grant Llywodraeth Cymru

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad terfynol ar gyfer 2014/15 ynghyd â ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir y manylion isod yn nhabl 1.

**Tabl 1**
**Grant Cynnal Refeniw 2014/15 – 2015/16**

| £m | Cymru | Gwynedd |
|---|---|---|
| **2013/14** | 4,439,012 | 183,042 (*) |
| **2014/15** | 4,264,466 | 174,971 |
| **Lleihad** | 3.9% | 4.4% |
| **2015/16 (rhagrybudd)** | 4,198,518 | 172,346 |
| **Lleihad** | 1.5% | 1.5% |

* £181.633m oedd y gwir ffigwr grant ar gyfer 2013/14 ond fe addaswyd y ffigwr i gymryd y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad i ystyriaeth er mwyn cymharu tebyg at ei debyg.

2.2 Fe welir o'r tabl uchod fod Cyngor Gwynedd yn wynebu colled grant o dros £8.071m yn y flwyddyn nesaf sy'n ostyngiad o 4.4% gyda'r cyfartaledd ar draws Cymru yn ostyngiad o 3.9%.

2.3 Un o'r rhesymau am y gostyngiad uwch na'r cyfartaledd yw fod y ffactorau sy'n bwydo'r fformiwla dyrannu adnoddau yn parhau i fynd yn ein herbyn.

2.4 Yn benodol yn 2014/15 fe welwyd mai gan Gwynedd oedd y cynnydd isaf ond un mewn niferoedd plant oed ysgol gynradd drwy Gymru ac fe welwyd mai yng Ngwynedd y gwelwyd y gostyngiad uchaf ond un yn y nifer hawlwyr cymorth incwm dan 65 oed.

2.5 Hefyd, oherwydd y ffordd y mae'r fformiwla yn gweithio, gan fod awdurdodau ar draws Cymru yn gyffredinol yn gwario'n gymharol llai ym maes trafnidiaeth (o'i gymharu ag Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol) a chan mai ym maes trafnidiaeth yr ydym yn elwa fwyaf, 'rydym yn dioddef yn gymharol fwy wrth i'r ffigyrau gwariant fwydo drwodd i'r fformiwla.

2.6 Yn y datganiadau swyddogol a gyhoeddwyd, mae'r Llywodraeth yn nodi mai 3.4% oedd y gostyngiad ar gyfartaledd ar draws Cymru ond mae hyn yn diystyru'r ffaith fod yna £26m o arian Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor bellach yn y setliad oedd yn cael ei dalu fel grant penodol yn 2013/14. I gymharu tebyg at ei debyg felly fe ddylid cynnwys y ffigwr yma sy'n golygu fod y gostyngiad yn agosach at 3.9%.

2.7 Rhaid bod yn wyliadwrus rhag darllen gormod hefyd i mewn i'r ffigyrau mynegol ar gyfer 2015/16.

2.8 Gwyddom o brofiad eleni mai ofer fyddai rhoi gormod o bwysau ar y ffigwr yma. Fe allasai'r gostyngiad fod yn fwy, yn arbennig felly yn sgil cyhoeddiadau'r Canghellor yn ei ddatganiad Hydrefol, ac unrhyw newidiadau polisi pellach o fewn Llywodraeth Cymru erbyn yr adeg yma y flwyddyn nesaf.

2.9 Un nodwedd o'r ffigwr grant yn y setliad yw'r gwahaniaeth rhwng gwir ffigwr grant eleni [£181.633m ar gyfer Gwynedd] a'r ffigwr a ddefnyddir ar gyfer cymhariaeth [£183.042m].

2.10 Daw'r gwahaniaeth o £1.409m oherwydd trosglwyddiad nifer o grantiau i mewn i'r setliad. Dylid nodi fod y setliad hefyd yn cynnwys trydydd rhan yr adnodd sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer benthyca i wario ar ein lonydd. Rhoddir mwy o fanylion yn rhan 3.12 yr adroddiad

3 **Gwariant Refeniw'r Cyngor - 2014/15**

3.1 Nodir isod yn nhabl 2 y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen ar gyfer 2014/15.

**Tabl 2**
**Cyllideb 2014/15**

| | £'000 |
|---|---:|
| **Cyllideb Sylfaenol 13/14** | **233,912** |
| Chwyddiant cyflogau | 1,551 |
| Chwyddiant arall | 1,191 |
| Praeseptau | (21) |
| Incrementau | (94) |
| Pensiynau | 264 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 203 |
| Llog ar falensau | 236 |
| Costau Benthyca | (404) |
| Demograffi | 452 |
| Amrywiol | 2 |
| Addasiadau cyllidebau incwm | 92 |
| Trosglwyddiadau i'r setliad | 1,414 |
| Pwysau ar wasanaethau | 1,498 |
| **Cyfanswm gofynion** | **240,296** |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 13/14** – Er mai £233.912m yw gwariant net 2013/14 mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £367m ond fe ddaw'r ffigwr yma i lawr i £234m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau gwerth £79m ac yn codi bron i £54m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu. Gan fod yna dueddiad tuag at leihau nifer o'r grantiau yma hefyd mae yna bwysau ar wasanaethau i sicrhau fod y gwariant yn gostwng i gydymffurfio a'r gostyngiad grant, ond nid yw hynny'n bosibl ym mhob achos heb gael effaith o sylwedd ar wasanaethau i bobl Gwynedd.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau** – Hwn yw'r brif ragdybiaeth lle nad yw'r ffigwr y bydd ei angen ar gyfer 2014/15 yn hysbys i ni eto. Yn amlwg fe fydd yna bwysau o dy'r undebau i gynyddu cyflogau o gofio'r cyfyngu ar godiadau cyflogau a welwyd dros y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag , mae'r Canghellor wedi nodi ei fod am weld setliadau cyflogau'r sector gyhoeddus yn cael eu cyfyngu i 1% yn y blynyddoedd i ddod.

Darparwyd ar gyfer cynnydd o 1% felly yn y gyllideb sylfaenol. Pe byddai cyflogau yn cynyddu mwy na hynny byddai'n cynyddu ein anghenion am arbedion yn y blynyddoedd i ddod.

3.4 **Chwyddiant arall** - Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli darpariaeth ar gyfer chwyddiant cyffredinol o 2.1% ond gan wneud darpariaeth benodol lle tybir fod y gyfradd chwyddiant am fod yn uwch (e.e. Trydan a Nwy).

Mae'r ffigwr yma yn is na'r hyn y bu'n rhaid ei ychwanegu mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd na welwyd y cynnydd mewn rhai ffigyrau chwyddiant eleni a ragdybiwyd wrth baratoi'r gyllideb sy'n golygu nad oes angen darparu cymaint ar gyfer 2014/15.

Er mwyn sicrhau fod y taliadau a delir am wasanaethau hefyd yn cyfrannu tuag at gwrdd a'r bwlch ariannol, cynyddwyd pob cyllideb incwm o'r fath 2.5% sy'n cynrychioli ffigwr chwyddiant ar adeg paratoi'r gyllideb.

3.5 **Incrementau a Phensiynau** – Y ffigwr incrementau yw'r cynnydd sy'n deillio o roddi incrementau cyflog i staff, ond eleni, oherwydd trosiant staff mae'r ffigwr yn arbediad i ni. Dros y tair blynedd diwethaf bu cyfraniad y cyflogwr ar gyfer talu am bensiynau staff yn cynyddu 0.5% y flwyddyn. Fodd bynnag yn dilyn prisiad o'r Gronfa Bensiwn mae Actiwari'r Gronfa wedi nodi nad oes angen cynyddu cyfraniadau am y tair blynedd nesaf, ac felly ni fydd yna gynnydd yn 2014/15.

Serch hynny, yn Ebrill 2014 bydd natur y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn newid sy'n golygu y bydd taliadau goramser yn dod yn bensiynadwy. Bu'n rhaid darparu ar gyfer y cyfraniad cyflogwr uwch sy'n deillio o hynny felly.

3.6 **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** - Yn y gorffennol, os oedd cost budd-dal Treth Gyngor yn cynyddu (neu leihau) 'roedd y gost (neu'r arbediad) yn cael ei adlewyrchu yn y grant y byddem yn ei dderbyn oddi wrth yr Adran Waith a Phensiynau. Yn sgil trosglwyddo'r grant i Lywodraeth Cymru ( a hwy yn eu tro yn trosglwyddo'r grant hwnnw i'r setliad), o hyn allan, bydd yn rhaid i'r Cyngor wynebu unrhyw gost ychwanegol o fewn y ffigwr y byddwn yn ei dderbyn yn y setliad.

Yn ddamcaniaethol, mae yna £8.9m yn y setliad i dalu am y cymorth a roddir i drethdalwyr, ond fe dybir na fydd hyn yn ddigonol i gwrdd a'r gwir gost eleni. Ar sail y tybiaethau diweddaraf bydd angen ychwanegu tua £203,000 at y gyllideb yma yn 2014/15. [Mae'r effaith chwyddiant wedyn eisoes yn y ffigwr chwyddiant a nodir uchod]

3.7 **Llog ar Falansau -** erbyn hyn 'roeddem wedi disgwyl y byddai cyfraddau llog wedi dechrau atgyfodi ond maent yn parhau i fod yn hynod o siomedig ac yn hytrach na benthyca yn allanol, 'rydym yn defnyddio mwy o "fenthyca mewnol" sy'n lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi. Felly, ni fyddwn yn derbyn gymaint o log yn 2014/15 a rhaid adlewyrchu hynny yn y gyllideb.

3.8 **Costau benthyca** – 'rydym yn elwa o gostau benthyca is yn y flwyddyn nesaf yn sgil ad-dalu benthyciadau a'r ffaith nad ydym yn benthyca arian newydd am ei fod yn well i ni ddefnyddio'r arian sydd wedi ei

glymu yn ein reserfau (sy'n denu llog isel beth bynnag) yn hytrach na benthyca ar gost net uwch i'r Cyngor.

3.9 **Demograffi** - Fel arfer, 'rydym yn cydnabod nifer uwch yr henoed y byddem yn disgwyl darparu gwasanaeth ar eu cyfer oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, ond fel yr adroddwyd y llynedd ni fu'n rhaid i ni wneud hynny ers rhai blynyddoedd gan nad yw'r gwir niferoedd wedi cynyddu. Fodd bynnag yn 2013/14 ymddengys fod y nifer cleientau ym maes henoed wedi dal i fyny gyda'r tafluniadau demograffi a bydd yn rhaid ychwanegu £858,000 at y gyllideb i gydnabod y niferoedd uwch yma.

Yn erbyn hyn fodd bynnag fe welir gostyngiad yn y niferoedd plant sydd yn ein hysgolion uwchradd sy'n arwain at ostyngiad cyllideb yn y sector honno [£840,810]. Gyda'r cynnydd yn niferoedd plant y sector gynradd (sy'n golygu'r angen i gynyddu'r gyllideb £434,860), mae yna bron i £406,000 o arbediad yn sgil niferoedd plant.

Mae hyn yn gostwng cyfanswm y ffigwr net demograffi i £452,000.

Mae'r gostyngiad sylweddol yma yn y sector Uwchradd yn achosi rhywfaint o bryder i mi ac fe nodaf fwy am hyn yn rhan 4 isod.

3.10 **Amrywiol –** Y ffigwr a ddangosir yma yw'r casgliad o fan faterion sydd angen eu haddasu yn y gwahanol gyllidebau yn amrywio o addasiadau yn sgil tunelli sy'n mynd i dirlenwi; addasiadau i drothwyon yswiriant cenedlaethol; addasiadau angenrheidiol yn sgil newidiadau i delerau contractau allanol a wireddir gennym; cynnydd yn y niferoedd o aelodau sy'n dewis bod yn rhan o gronfa bensiwn a llu o fanion eraill.

3.11 **Addasiadau Cyllidebau Incwm –** Fe adolygir cyllidebau incwm yn flynyddol i asesu tueddiadau a bellach fe welwyd fod angen addasu cyllideb incwm yr Hafan Pwllheli i adlewyrchu'r ffaith fod yr incwm a ddenir yn lleihau oherwydd lleihad yn y defnydd (sydd ei hun efallai yn sgil effaith y sefyllfa economaidd bresennol). Fe welir effaith bositif ar rai cyllidebau incwm eraill fodd bynnag i'w osod yn erbyn hyn. Nodir yr effaith ar gyllidebau penodol isod [ ffigyrau mewn cromfachau yn dangos cynnydd mewn incwm a ffigyrau heb gromfachau yn nodi gostyngiad] –

- Yr Hafan, Pwllheli : £180,000
- Pridiannau Tir : [£13,000];
- Mynwentydd : [£10,000];
- Amlosgfa : [£25,000]
- Rheolaeth datblygu : [£40,000].

**3.12 Trosglwyddiadau i'r setliad -** Fel y nodwyd uchod mae yna nifer o grantiau yn cael eu trosglwyddo i'r setliad eleni fel a ganlyn –

- ***Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£803,000)*** – ar gyfer sicrhau fod y cynllun yn parhau i dalu'r Dreth Gyngor yn llawn ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel.

- ***Grant Gweinyddu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£179,000)*** – ar gyfer talu am gostau staff yr Uned Fudd-daliadau sy'n gweinyddu'r Cynllun. Hwn yw'r swm sydd wedi ei drosglwyddo i'r setliad – mae'r gwir gost (a'r grant blaenorol dipyn yn uwch) ond fe welwyd gostyngiad yn y grant fel rhan o doriadau'r Llywodraeth yn San Steffan.

- ***Grant cymorth ychwanegol Treth Gyngor i Bensiynwyr (£150,000)*** - mae yna gynllun cenedlaethol ar hyn o bryd sy'n rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr sy'n derbyn cymorth gyda'u treth gyngor ac fe delir amdano drwy grant gan y Llywodraeth. Maent wedi ychwanegu hwn at y setliad ar gyfer 2014/15 gan nodi mai mater i gynghorau yw os ydynt yn parhau gyda'r cynllun neu beidio. Ar gyfer 2014/15 ychwanegwyd hwn at y gyllideb gan ei fod yn hwyr yn y dydd i ystyried ei ddileu ond fe ddylid nodi ei fod yn opsiwn a gyfer blynyddoedd i ddod.

- ***Grant Cyfleusterau Cyhoeddus (£17,000)*** – mae'r grant yma yn cael ei drosglwyddo i'r setliad. Ar hyn o bryd mae'n talu am daliadau a roddir i fusnesau i'w hannog i agor eu cyfleusterau cyhoeddus i'r cyhoedd.

  Ar ben y trosglwyddiadau yma mae yna £265,000 yn y setliad i dalu am drydydd rhan y cynllun benthyca ar gyfer gwella lonydd. Er nad yw hwn yn drosglwyddiad i'r setliad yng ngwir ystyr y gair mae'n gyllideb mae'n rhaid i ni ei wario at ddibenion penodol ac felly 'rwyf wedi ei gynnwys dan y pennawd yma.

3.13 **Pwysau ar wasanaethau -** Mae yna ddwy brif elfen i'r pennawd yma sef

**a) Ceisiadau a gafwyd gan wasanaethau am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau ar eu gwasanaethau (£1.471m).**

Mae pob gwasanaeth yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. ***Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.***

Rhoddir manylion yr hyn a argymhellir yn Atodiad 1.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o Lywodraeth Ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau a ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau (ar ben y gostyngiad yn ein grant).

Mae'r eitemau yma wedi cael eu herio cyn eu hargymell. Mae'r ffigwr yma yn is o dipyn na'r hyn a welwyd yn hanesyddol.

Yn yr adroddiad yma hefyd fe grybwyllir fod angen cymeradwyo bidiau gwerth £558,000 ar sail unwaith ac am byth er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Gellir ariannu hwn allan o'r £297,250 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth gan ychwanegu £128,750 pellach o'r arbedion a ddarganfuwyd o flaen llaw yn 2013/14, ac ariannu'r gweddill (£132,000) o falansau.

**b) Gofynion Ysgolion (£27,580)**

Nodir y cefndir i hwn yn rhan 4 isod.

**4 Ysgolion**

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion. Y rhagdybiaeth yw mae'n debyg y byddem wedi gweld gostyngiad uwch na'r 4.4% pe na fyddent wedi rhoi'r warchodaeth yma i ni.

4.2 Hyd yma, ein hymagwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

4.3 Eleni mae'r rheol yma yn golygu fod angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +0.45%. Fel y nodwyd y llynedd, mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â pha mor rhesymegol yw hi i'r Cyngor barhau i wireddu dymuniad Llywodraeth Cymru pan fyddwn yn gorfod torri ar wasanaethau eraill er mwyn talu amdano. Ni wyddom wrth gwrs beth fyddai effaith peidio â gwireddu'r dymuniad o ran ymateb Llywodraeth Cymru na'r ysgolion.

4.4 Dengys y ffigyrau sydd yn y gyllideb a nodir uchod (sy'n cynnwys sicrhau fod ysgolion yn derbyn y cynnydd angenrheidiol yn eu

cyllidebau i gwrdd â chwyddiant a.y.b) ynghyd a'r camau eraill a argymhellir yn y rhan yma ein bod am gwrdd â'r addewid eleni.

4.5 Yn wahanol i wasanaethau eraill felly, am y drydedd flwyddyn yn olynol, ar y cyfan ni fydd y gyllideb ysgolion yn wynebu arbedion yn 2014/15 heblaw i wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa a rhai yn colli.

4.6 Fodd bynnag fel cyd-destun i'r sefyllfa yma rhaid bod yn fyw i'r hyn sy'n digwydd oherwydd sefyllfa grantiau a roddir yn uniongyrchol i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

4.7 Yn 2014/15 bydd ysgolion Gwynedd yn elwa bron i £900,000 yn y cynnydd yn y grant amddifadedd y bydd ysgolion yn ei dderbyn gyda thua £520,000 yn mynd i'r sector gynradd a thua £374,000 yn mynd i'r sector Uwchradd. Wrth gwrs fe fydd dyraniad hwn i ysgolion unigol yn ddibynnol ar y nifer o blant sydd gan ysgolion unigol sydd yn gymwys ar gyfer cinio am ddim ac i'w ddefnyddio i wella canlyniadau ymysg plant o gefndiroedd difreintiedig.

4.8 Yn erbyn hynny fodd bynnag bydd y sector Uwchradd yn wynebu gostyngiad o tua £500,000 yn y grant ôl 16 a grant rhwydwaith 14-19.

4.9 Gyda'r gostyngiad o £840,810 yn ei gyllideb oherwydd lleihad yn y niferoedd plant a nodir yng nghymal 3.9 uchod, a'r lleihad yn y grantiau yma, mae'r sector uwchradd yn mynd i fod yn dioddef yn sylweddol eleni gyda'r gostyngiadau yn tynnu at £1m.

4.10 Yn wyneb y gostyngiadau grant annisgwyl mae'r Gwasanaeth Ysgolion am gynnig £160,000 ar sail unwaith ac am byth o'i adnoddau ei hun er mwyn cynorthwyo'r sector i ddygymod gyda'r gostyngiad mewn grantiau.

4.11 Wedi dweud hynny wrth edrych ar y sefyllfa demograffi yn unig, mae'r gostyngiad mewn niferoedd plant yn golygu y bydd yna un ysgol yn disgyn o dan 260 o blant (sef y nifer lle mae yna wir amheuon ynglŷn â gallu ysgol i gynnal y cwricwlwm) ac felly awgrymir fod angen cynllun gwarchodaeth ar gyfer y sector uwchradd lle gwarchodir cyllideb ysgol uwchradd sy'n disgyn o dan 260 o blant tan y bydd modd dod o hyd i ateb mwy hir dymor ar gyfer ysgolion o'r maint yma.

4.12 Fodd bynnag, gyda dwy ysgol arall yn tynnu at y ffigwr 260 o blant mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau ateb hir dymor i'r broblem. Byddai cynllun o'r fath yn costio £27,580 yn 2014/15.

4.13 Mae yna gwestiwn, o gofio blaenoriaeth y Cyngor o fewn y Cynllun Strategol o fod yn dymuno codi safonau addysgol plant a phobl ifanc a ddylid mynd ymhellach ac a ddylid ystyried y balans cyllido rhwng y sector gynradd (sy'n gweld cynnydd o tua £1m yn eu cyllidebau yn 2014/15) a'r sector uwchradd (fydd yn gweld gostyngiad cyffelyb yn eu cyllideb hyd yn oed ar ôl cymryd y camau a nodir uchod).

4.14 Efallai nad yw amser yn caniatáu gwneud hynny nawr ond rhaid bod yn fyw i'r ffaith tra bydd y sector uwchradd wedi cynllunio ar gyfer effaith lleihad demograffi, nid yw gorfod darganfod ffyrdd o ddygymod gyda'r gostyngiad am gynorthwyo'r sector i fod yn canolbwyntio ar gyraeddiadau addysgol.

4.15 'Rwyf yn argymell y dylid helpu'r sector i ddygymod a'r lleihad drwy roddi mwy o amser iddynt ymgyfarwyddo a'r sefyllfa gan ychwanegu at y swm y mae'r gwasanaeth addysg ei hun yn bwriadu cynorthwyo drwy ddefnyddio balansau i wneud cyfraniad pellach unwaith ac am byth o £250,000.

## 5 Crynodeb o sefyllfa 2014/15

5.1 Fe welir o'r uchod felly fod anghenion gwario'r Cyngor ar gyfer 2014/15 yn £240.30m (cynnydd o 2.1% o ddiystyru'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad) a byddwn yn derbyn grant o £174.97m oddi wrth Lywodraeth Cymru (gostyngiad o 4.4%).

5.2 Ar ben hynny, **<u>heb</u>** unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor, amcangyfrifir y bydd yna £53.11m yn dod o'r Dreth Gyngor yn 2014/15 (cynnydd o £835,170 o'r hyn y byddwn yn ei gynhyrchu eleni).

5.3 Bydd aelodau yn cofio wrth baratoi cyllideb 2013/14 'roedd yna son fod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am gael ei addasu fel y byddai'n rhaid i bawb dalu o leiaf 10% o'r Dreth Gyngor ac 'roeddem yn pryderu y byddai hyn yn effeithio'n andwyol ar faint o'r Dreth Gyngor y byddem yn medru ei gasglu. Daethom a'r gyfradd casglu i lawr o 99% i 97.5% felly.

5.4 Fodd bynnag yn hwyr yn y dydd fe benderfynodd Llywodraeth Cymru gadw hanfod cynllun fyddai'n parhau i roddi 100% o ryddhad i rai ar incwm isel. Gan fod y cynllun hwnnw am barhau yn 2014/15 gallwn gynyddu'r gyfradd casglu yn ôl i 99%. Bydd hyn yn gwyrdroi'r gostyngiad incwm a weithredwyd yng nghyllideb y Cyngor am 2013/14.

5.5 Gydag anghenion gwario o £240.30m a chyfanswm incwm Grant Llywodraeth a'r Dreth Gyngor o £228.08 fe welir ein bod yn wynebu diffyg felly o £12.22m yn 2014/15.

## 6 DYGYMOD GYDA'R BWLCH YN 2014/15

6.1 Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr, fe gytunodd y Cyngor gyda'r syniad o gael strategaeth oedd yn rhagweld ceisio sefydlu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014/15 er mwyn prynu'r amser angenrheidiol i ni lunio rhaglen o arbedion ystyrlon a synhwyrol i'w gweithredu mor fuan â phosibl.

6.2 Y cam cyntaf y gellir ei gymryd er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys yw dileu'r ddarpariaeth sydd gennym ar gyfer cynnydd cyflogau uwch na 1% fydd yn arbed £1.61m o fewn y gyllideb. Fe fydd hyn yn cynyddu risg wrth gwrs pe byddai'r cynnydd cyflog a gytunir ar gyfer 2014/15 yn fwy na hynny. Mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi datgan ei fwriad i gyfyngu codiadau cyflog i 1% am gyfnod estynedig ond gyda'r economi yn dangos arwyddion o fod yn cryfhau rhaid gofyn pa mor hir y bydd modd iddynt gadw at y dyhead yma wrth i weithlu'r sector gyhoeddus weld gwir werth eu cyflogau yn disgyn ers blynyddoedd lawer.

6.3 Pe byddai cyflogau yn cynyddu mwy na'r 1% a roddir yn y gyllideb gellir cwrdd â'r risg hwnnw drwy ystyried hynny pe cyfyd y sefyllfa, gan ddibynnu ar falansau i gario ni drosodd hyd nes y byddwn yn gallu addasu'r gyllideb yn 2015/16.

6.4 Dylid bod yn ymwybodol fodd bynnag na fydd gan y cyngor gyllideb wrth gefn wedyn yn 2015/16 a balansau fydd yr unig allu fydd gennym i warchod rhag unrhyw sioc ariannol.

6.5 Yr ail gam y gellir ei gymryd yw dileu'r gyllideb barhaol sydd gennym ar gyfer y Cynllun Strategol. Efallai y bydd hyn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni unrhyw elfen o'r cynllun Strategol sydd angen cyllideb barhaol, ond unwaith eto, os cyfyd eitem sydd wirioneddol angen cyllideb barhaol ar ei gyfer a'i fod gymaint o flaenoriaeth fel bod achos dros dorri gwasanaethau eraill i dalu amdano, gellir dygymod ag ef yng nghanol y flwyddyn ar sail achos unigol. Bydd hyn yn arbed £0.87m.

6.6 Yn 2010/11 fe gynyddwyd elfen o'r Dreth Gyngor yn arbennig er mwyn ein gwarchod rhag gorfod gwneud toriadau yn ein cyllideb yn y dyfodol, ac felly mae yna £0.38m yn y gyllideb y gellir ei ddefnyddio er mwyn cwrdd â'r bwlch.

6.7 Mae yna hefyd adnoddau rhydd o fewn y gyllideb ysgolion cynradd sydd heb eu datganoli, fyddai ar gael i gyfrannu at y bwlch. Yn wyneb y ffaith fod y sector honno eisoes yn elwa yn 2014/15 a'r sefyllfa a wynebir gennym o ran bwlch ariannol, awgrymir ein bod yn defnyddio'r gyllideb yma am y tro i gau'r bwlch sydd werth £0.2m er mwyn i'r Cyngor gael cyfle i ystyried ei bolisi yn y maes yma ymhellach.

6.8 Mae gennym gynlluniau arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu wrth gwrs ac ar gyfer 2014/15 'roeddem yn wreiddiol yn rhagweld y byddem yn gwireddu cyfanswm o £6.2m.

6.9 O ran cyfanswm yr arbedion sydd i'w cyflawni, dengys y dadansoddiad diweddaraf y bydd yna un cynllun yn wynebu trafferthion o ran ei gyflawni yn llawn.

6.10 **Cynllun Uned Caffael Gogledd Cymru** - Cynllun cydweithio Gogledd Cymru fu'n llwyddiannus o ran darganfod arbedion (cyfanswm o £3.1m) ond yn anffodus, oherwydd bod yr arbedion hynny yn cael eu cyflawni mewn meysydd lle 'roedd y cyfle i Wynedd fanteisio yn llai na'r cyfleoedd ar gyfer cynghorau eraill ni fydd modd gwireddu £257,910 o'r swm a glustnodwyd ar gyfer y cynllun yma.

6.11 Ar ben hyn fodd bynnag ymddengys y bydd angen addasu proffil cyflawni rhai o'r cynlluniau eraill gan fod yna lithriad wrth eu cyflawni. Mae elfen o lithriad yn anorfod wrth gwrs wrth gyflawni cymaint o arbedion. Dengys y dadansoddiad yma y bydd angen symud gwerth tua £450,000 o arbedion o 2014/15 i flynyddoedd dilynol ac felly mai £5.52m fydd ar gael i gwrdd â'r bwlch yn 2014/15.

6.12 Fodd bynnag eleni 'rydym wedi cyflawni gwerth mwy na £1m o arbedion cyn ein bod eu hangen sy'n golygu fod yna "gronfa" unwaith ac am byth o arbedion a gyflawnwyd o flaen llaw ar gael.

6.13 Nodir ein bod yn defnyddio £128,750 i ariannu bidiau unwaith ac am byth ac awgrymaf y dylid defnyddio £450,000 pellach i gwrdd â'r bwlch sy'n codi oherwydd y bydd arbedion yn hwyrach yn cyrraedd.

6.14 O gyfrifo'r holl faterion uchod felly y byddwn wedi cyfarch £9.03m o'r bwlch o £12.22m sy'n codi yn 2014/15 gan adael £3.19m ar ôl i'w ddarganfod.

## 7 Y DRETH GYNGOR

7.1 Yn wyneb y bwlch yma, y penderfyniad allweddol sydd angen ei wneud yn sgil yr ystyriaethau uchod yw sefydlu union lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w argymell i'r Cyngor ar gyfer 2014/15.

7.2 Yn y tybiaethau a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig hyd yma, fe ddefnyddiwyd ffigwr o 3.5%.

7.3 Yr allwedd i hyn oll wrth gwrs yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas a'r cynnydd sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

7.4 Byddai 3.5% yn cynhyrchu £1.86m o incwm a bydda'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Gyngor o £37.43 i eiddo mewn Band D neu ychydig o dan 72c yr wythnos. [Byddai'r dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs]. Mae ychydig dros 19% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Gyngor, ac mae 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D.

7.5 Byddai pob 0.1% yn is na 3.5% yn cynyddu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £53,110 (ac felly byddai 0.5% yn llai yn golygu cynyddu'r bwlch ariannol £265,570 a'i leihau o 1% yn cynyddu'r bwlch ariannol o £531,150). Byddai'r ffigyrau yn union yr un fath ar gyfer unrhyw gynnydd uwchben 3.5%.

7.6 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru ers 2008/9.

| Blwyddyn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm 08-14** | **24.7%** | **21.0%** |
| 2013/14 | 3.5% | 3.1% |
| 2012/13 | 3.5% | 1.9% |
| 2011/12 | 3.9% | 3.1% |
| 2010/11 | 3.9% | 3.7% |
| 2009/10 | 3.9% | 3.9% |
| 2008/9 | 3.8% | 3.7% |

7.7 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2014/15 ond y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw y na fydd llawer o gynghorau yn cynyddu llai na 3% gyda nifer sylweddol yn ystyried cynnydd tua chanol y 3% a nifer yn ystyried cynnydd uwch na 4%.

7.8 O hynny o wybodaeth sydd gan y Cyfarwyddwr o ran sgyrsiau a gafwyd gyda swyddogion mewn cynghorau eraill, mae'n amcangyfrif y bydd y cyfartaledd ar draws Cymru o gwmpas tua 3.9%.

7.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu yn un anodd wrth gwrs a mater i'r aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

7.10 O gadw at y rhagdybiaeth a wnaed y llynedd wrth sefydlu'r strategaeth ariannol bresennol felly a chynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%, byddai hyn yn gadael bwlch o £1.33m ar ôl i'w ddarganfod. Yr unig ffordd o'i ddarganfod fyddai cael mwy o arbedion.

7.11 Ni fyddai'r arbedion yma ar gael ar 1 Ebrill ac felly byddai'n rhaid dibynnu ar falansau i bontio'r cyfnod hyd nes y bydd yr arbedion hynny ar gael.

7.12 Byddai cyfarch y bwlch yn gyfan gwbl drwy'r Dreth Gyngor yn golygu cynnydd o tua 6% sydd yn amlwg uwchben hicyn rhesymol.

**8 Polisi Cyflogau**

8.1 Mae yna ystyriaeth yn cael ei roddi ar hyn o bryd i gyflogau gweithwyr sydd ar yr hicynau isaf er mwyn cychwyn cyfarch y galw am gyflog byw i'r rhai ar yr hicynau hynny. Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad ar hyn ar 18 Chwefror.

8.2 Yr unig ffordd o fedru talu am hyn heb ychwanegu at yr arbedion y byddwn yn eu hwynebu fyddai i gynyddu'r Dreth Gyngor er mwyn talu amdano.

8.3 Os bwriedir dilyn polisi o'r fath byddai angen ychwanegu 0.4% at y cynnydd arfaethedig yn arbennig i dalu am hynny.

**9 BALANSAU**

9.1 Rhagwelir y bydd gennym falansau cyffredinol o tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 2.2% o wariant refeniw gros y Cyngor .

9.2 'Rwyf wedi nodi ar fwy nag un achlysur oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gydag unrhyw broblemau allasai godi.

9.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma. Yn wir, fel y nodir yng nghymal 6.2 uchod, gan na fydd gennym unrhyw gyllideb wrth gefn bellach mae'r risg wedi cynyddu, ac oherwydd hynny felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol yn fwy perthnasol.

9.4 Fodd bynnag yn wyneb y bwlch ariannol fyddai gennym (hyd yn oed o dderbyn y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%), ac er mwyn cael amser i ystyried ymhle y dylem ddarganfod y bwlch yma, argymhellir ein bod yn defnyddio £1.33m o falansau cyffredinol i bontio hyd nes y bydd modd darganfod gweddill yr arbedion angenrheidiol.

9.5 Yn ychwanegol at y £1.33m yma, mae'r argymhelliad i gynorthwyo'r sector uwchradd a thalu am elfen o'r bidiau unwaith ac am byth o falansau a nodir yng nghymalau 3.13 a 4.15 uchod yn golygu y byddwn

yn defnyddio £1.7m o falansau (ynghyd a £578,750 o'r gronfa arbedion a wireddwyd ymlaen llaw) i bontio'r gyllideb yn 2014/15.

9.6 Mae gennym nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol sydd gan y Cyngor. Mae'r rhain yn rhan o gyllideb y cyngor wrth gwrs.

9.7 Er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r Cyngor yn ymwybodol ohonynt atodir copi o'r tudalennau perthnasol o'r cyfrifon yn Atodiad 2.

9.8 Mae'n bwysig adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus wrth gwrs ac mae'r Pennaeth Cyllid yn gwneud hynny, ac fe adroddais y llynedd ei fod yn cynnal ymchwiliad penodol i'r reserfau yma.

9.9 Fe fydd yr angen i drawsffurfio nifer o'n gwasanaethau (gan gynnwys talu taliadau diswyddo allasai fod yn sylweddol) yn sicr o olygu gofynion gwario unwaith ac am byth. Ar ben hynny bydd aelodau yn ymwybodol o gynnwys Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n awgrymu y bydd yna ad-drefnu llywodraeth leol ar y gorwel. Bydd hynny hefyd yn creu'r angen am y gallu i ariannu gwariant unwaith ac am byth wrth baratoi ar gyfer y fath ad-drefnu.

9.10 Ar sail hyn felly, mae'r Pennaeth Cyllid ar hyn o bryd yn ystyried, yn hytrach na chynnal yr adolygiad arferol, faint o le sydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma, gan nodi nad ydym am gyflawni rhai bwriadau gwreiddiol, er mwyn defnyddio unrhyw adnoddau a ryddheir i gwrdd â'r anghenion am adnodd i drawsffurfio a thalu taliadau diswyddo ynghyd ag unrhyw oblygiadau a ddaw am adnodd unwaith ac am byth yn sgil adroddiad y Comisiwn.

## 10 Cyfalaf

10.1 Tra bod cyllidebau refeniw cynghorau yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau.

10.2 Y llynedd fe gymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer y tair blynedd 2013/14; 2014/15 a 2015/16.

10.3 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau yn cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca) mae'r cyngor wedi penderfynu y dylid cynnal adolygiad o'r Strategaeth Asedau.

10.4 Am y tro felly argymhellaf ein bod yn cadw at y cynlluniau a osodwyd y llynedd heb ychwanegu cynlluniau pellach ar gyfer 2016/17 er mwyn aros hyd nes y bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau.

10.5 Rhagwelir y bydd hynny wedi ei gyflawni erbyn mis Mai a gellir ychwanegu rhaglen 2016/17 bryd hynny.

10.6 Wedi dweud hynny, mae yna angen addasu ychydig ar yr hyn a gytunwyd y llynedd er mwyn adlewyrchu rhai newidiadau angenrheidiol sy'n codi oherwydd newid yn y proffil arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol. Manylir ar rhain yn Atodiad 3 sy'n nodi'r newidiadau arfaethedig.

10.7 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn –

**Tabl 3**
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2014/15 – 2015/16**

| **£'000** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|
| **Gofynion cyfalaf** | **16,193** | **17,974** |
| **I'w ariannu drwy** | | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 6,630 | 6,630 |
| Grant tuag at ysgolion | 724 | 5,503 |
| Derbyniadau cyfalaf | 1,476 | 930 |
| Cyfraniad o refeniw | 1,988 | 2.860 |
| Benthyca darbodus | 5,375 | 2,051 |
| **Cyfanswm ariannu** | **16,193** | **17,974** |

10.8 Un agwedd o'r cynigion cyllido yw lefel y gwariant cyfalaf sydd yn parhau i gael ei ariannu o'i gymharu gyda'r gefnogaeth benodol a ddarperir yn y setliad. Mae hyn yn dangos y budd o gael cynllun hir dymor drwy'r strategaeth asedau sy'n caniatáu i ni lunio rhaglen hir dymor a cheisio uchafu'r budd a geir o fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## B) STRATEGAETH ARIANNOL PEDAIR BLYNEDD 2014/15 - 2017/18

### 11 Cynllun i ddygymod a'r bwlch ariannol 2014/15 - 2017/18

11.1 Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod yn medru prynu ychydig o amser er mwyn penderfynu lle yw'r mannau gorau i fod yn cyflawni arbedion er mwyn sicrhau'r ardrawiad lleiaf posibl ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

11.2 Fe nodwyd ymarferion Cyngor Gwynedd fel enghraifft o ymarfer da mewn adroddiad cenedlaethol ar gynllunio ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru.

11.3 Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2014/15, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y tair blynedd ganlynol hefyd fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2013/14 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

11.4 Mae'r strategaeth ar gyfer y pedair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig o'r hyn allasai ein taro. Rhoddir manylion y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 4.

11.5 Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2016/17 ymlaen. Mae yna amheuaeth hefyd a allwn ddibynnu ar y ffigwr a gafwyd ar gyfer 2015/16 o gofio profiad eleni. Gan fod y grant yn cynrychioli tua 80% o incwm y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau'r Canghellor a datganiadau a wnaed gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru nad yw am fod yn newyddion da i Lywodraeth Leol yng Nghymru ac fe wnaed ymgais i geisio dyfalu lefel y grant yma ar sail y ffigyrau gwariant cyhoeddus sydd yn adroddiadau swyddogol Llywodraeth San Steffan.

11.6 Hefyd , fel y byddwn yn mynd ymhellach i'r dyfodol mae yna fwy o ansicrwydd ynglŷn â'r holl ffigyrau ac felly, 'rydym wedi rhannu'r strategaeth 4 blynedd yn ddwy ran fel y nodir isod, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn fwy sicr a'r ddwy flynedd olaf yn darged ar gyfer cynllunio.

11.7 Nodir yn y tabl isod canlyniadau'r tafluniadau a wnaed, gan nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu .

**Tabl 4**
**Tafluniad cynllunio ariannol ar gyfer y 4 blynedd 2014/15 – 2017/18**

| £M | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.4 | 7.7 | 10.2 | 6.7 | 31.0 |
| Colled (cynnydd) grant | 6.7 | 4.4 | 3.5 | 6.1 | 20.7 |
| Treth Gyngor (*) | (2.7) | (1.8) | (1.9) | (2.0) | (8.4) |
| **Diffyg Cynlluniedig** | 10.4 | 10.3 | 11.8 | 10.8 | 43.3 |
| Addasiadau cyllidebol | (3.1) | | | | (3.1) |
| Cynlluniau Rhaglen bresennol | (5.5) | (0.7) | (0.2) | | (6.4) |
| Defnydd balansau a blaen arbedion | (1.8) | 1.8 | | | - |
| **I'w ddarganfod -** | (-) | 11.4 | 11.6 | 10.8 | 33.8 |

(*) yn seiliedig ar gynnydd cyfartalog o 3.5% y flwyddyn

11.8 Fe welir ein bod yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y cyfnod ond gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael o bron i £34m o fwlch i'w ddarganfod. Mae £14m o'r bwlch yma yn deillio oherwydd rhagdybiaeth o ostyngiadau grant Llywodraeth ac yn sensitif i beth bynnag fydd y ffigwr hwnnw.

11.9 Tra bod yna bosibilrwydd wrth gwrs y gallasai'r gostyngiad yma fod yn llai (a thrwy hynny i'r bwlch fod yn llai) mae yna siawns llawn mor bosibl i'r gostyngiad fod yn uwch ac felly tybiaf fod £34m yn ffigwr cynllunio rhesymol i ni fod yn ei ddefnyddio am y cyfnod i ddod.

11.10 Mae'r tafluniad hefyd yn rhagdybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5% ar gyfartaledd bob blwyddyn. Mater i'r Cyngor yw penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ymhob blwyddyn ond fe ragdybir 3.5%yn y tafluniad uchod er mwyn dangos y bwlch sylweddol sydd yn cael ei adael hyd yn oed ar ol cynnydd o'r fath. Os yw'r Cyngor yn dymuno gweld cynnydd uwch neu is fe fydd yn amlwg yn effeithio ar y bwlch ariannol a nodir.

11.11 Er mwyn tanlinellu pa mor ddifrifol yw bwlch ariannol o £34m dylid bod yn fyw i'r ffaith pe byddem yn gwarchod y gyllideb ysgolion yn gyfan gwbl, byddai hyn yn golygu gostyngiad o 27% o wariant pob un gwasanaeth arall yn y Cyngor. Byddwn yn gwahodd aelodau i edrych ar y llyfr cyllidebau gan ddewis unrhyw wasanaeth a darganfod sut y byddent yn dileu 27% o gostau pob un gwasanaeth arall. Fe fydd yn dasg anodd dros ben.

11.12 Ar sail cynllunio y byddwn angen darganfod tua £34m dros y pedair blynedd felly, ac er mwyn ystyried yr holl oblygiadau, bydd angen dod i gasgliad ar –

- Y cynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor am y blynyddoedd i ddod . A ydym am gadw at ein strategaeth o gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% ynteu a ydym am ei gynyddu ymhellach yn wyneb goblygiadau darganfod bwlch ariannol mor enfawr ar ein gwasanaethau ?

- Pa elfen o'r bwlch yma fyddwn ni yn gofyn i ysgolion ei ysgwyddo ? Gyda bwlch mor enfawr mae'n afresymol ystyried y byddwn yn gallu gwarchod ysgolion yn gyfangwbl ond bydd angen dod i gasgliad ynglyn a faint o warchodaeth y gellir ei gyflawni.

- Faint yn fwy o arbedion effeithlonrwydd fyddwn ni yn gallu eu darganfod a bod yn rhagweithiol i leihau'r galw am wasanaethau'r Cyngor ;

- Gan y bydd unrhyw fwlch sydd ar ôl wedyn yn gorfod dod o doriadau – sut ydan ni am benderfynu ymhle y bydd y toriadau hynny yn disgyn.

11.13 Yr hyn sy'n amlwg yw bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod wedi uchafu'r symiau a geir o arbedion effeithlonrwydd a rheoli galwadau gan ddisgyn yn ôl ar doriadau fel y cam olaf. Dyma'r ffordd o weithredu os ydym o ddifrif am sicrhau'r effaith lleiaf ar bobl Gwynedd.

11.14 Fel mae'r tabl isod yn nodi, hyd yn oed pe byddem yn codi'r Dreth Gyngor 5% am y pedair blynedd nesaf, ac yn disgwyl cael 6% o'r gyllideb ysgolion, a chan gymryd y byddwn yn medru darganfod £15m o arbedion effeithlonrwydd pellach a rheoli galw, byddai hyn yn parhau i olygu angen chwilio am doriadau gwerth £9m.

**Tabl 5**
**Darluniau o lefel toriadau yn dilyn gwahanol bolisïau**

| | **Effeithlonrwydd ceidwadol** | **Effeithlonrwydd mwy uchelgeisiol** | **Cadw pob opsiwn yn agored TG hyd at 5% Ysgolion hyd at 6% Arbedion o'r Comisiwn** |
|---|---|---|---|
| **Treth Gyngor** | - | - | £2.5m |
| **Ysgolion** | - | - | £4.3m |
| **Y Comisiwn** | - | - | £3.0m |
| **Effeithlonrwydd** | £15m | £20m | £15m |
| **Toriadau** | £19m | £14m | £9.2m |
| | £34m | £34m | £34m |

11.15 O gymryd agwedd llai optimistaidd ynglŷn â'r Dreth Gyngor, y gyllideb ysgolion ac arbedion effeithlonrwydd fe ellir gweld fod y lefel toriadau wedyn yn cynyddu i £19m fyddai'n anodd dros ben os nad yn amhosibl i'w cyflawni o gofio'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar bobl Gwynedd.

11.16 Argymhellir felly ar hyn o bryd y dylid cadw'r holl opsiynau ar agor hyd nes y byddwn yn gweld effaith a goblygiadau'r penderfyniadau arbedion y bydd yn rhaid eu cyflawni. Byddai gweithredu ar sail unrhyw strategaeth arall yn ein gosod mewn cornel na fyddem yn gallu dygymod ag ef. Golyga hyn ein bod yn gweithredu tu fewn i'r fframwaith canlynol -

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr fydd ar ôl |

11.17 Yn amlwg beth bynnag fydd y ffigyrau terfynol y byddwn yn eu gwireddu yn yr hafaliad uchod, bydd angen ceisio uchafu'r swm a ddaw o arbedion effeithlonrwydd a rheoli galw.

11.18 'Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr holl gyfleoedd sydd ar gael i wasanaethau unigol er mwyn gallu dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd / rheoli galw pellach a bydd y ffigyrau yma yn cael eu defnyddio fel sail i darged arbedion effeithlonrwydd / rheoli galw ar gyfer y gwahanol wasanaethau i'w gymeradwyo ym mis Ebrill.

11.19 Bydd disgwyl wedyn i wasanaethau sefydlu cynlluniau er mwyn gwireddu'r targedau yma gan sicrhau fod y broses Craffu yn rhan o'r broses cymeradwyo cyn eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2014.

11.20 O'i wireddu bydd hyn yn cyfarch elfen o'r bwlch (ond yn annhebygol o'i gyfarch y gyfangwbl).

11.21 Gan y bydd yn rhaid i ni sicrhau ein bod wedi sefydlu blaenoriaethau os byddwn angen disgyn yn ôl ar doriadau, bydd angen sefydlu cyfundrefn gynhwysol ar gyfer gwneud hynny fydd yn cynnwys holl aelodau'r Cyngor ynghyd ag ymgysylltu ystyrlon gyda phobl Gwynedd. 'Rwyf yn trafod y mater hwnnw ar hyn o bryd gyda swyddogion gyda golwg ar ddod a chyfundrefn ymlaen yn fuan yn y Gwanwyn.

11.22 Dylem ymfalchïo yn y ffaith fod trefniadau cynllunio ymlaen llaw'r Cyngor yn golygu nad ydym eto yn gorfod wynebu toriadau - sefyllfa nad yw'n wir ymhob Cyngor ond rhaid wynebu'r ffaith y gallasem fod yn wynebu elfen o hynny yn y dyfodol, yn enwedig os yw grant llywodraeth leol yn parhau i ostwng.

11.23 Fodd bynnag, hyd yn oed o fanteisio ar y cyfle sydd gennym i gynllunio'n ofalus, o gofio mai ein blaenoriaeth yw edrych am arbedion effeithlonrwydd o flaen toriadau, ac o gofio fod sefydlu a gweithredu

cynlluniau o'r fath yn cymryd mwy o amser na thorri gwasanaeth, mae yna berygl real na fydd yr amser sydd gennym yn caniatáu i ni gyflawni'r dyhead uchod yn gyfangwbl.

11.24 Bydd angen i'r Cabinet felly fanteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi yn y cyfamser i wireddu unrhyw gyfle i gyflawni arbedion – gan gynnwys unrhyw gyfle sy'n codi yn ystod y flwyddyn gyfredol.

## 12 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

12.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan nad yw'r cynnydd yn ein hincwm yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant hyd yn oed, mae'n rhaid edrych am arbedion.

12.2 Yn y maes arbedion felly mae'r risg uchaf o ran y posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa Awdurdodau Lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

12.3 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Awdurdodau Lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.

12.4 Ein nod yw sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio a dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Wrth asesu, byddwn yn ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu

12.5 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd (megis canlyniadau Cyfrifiad 2011), monitro gwasanaethau ac ymgysylltu

12.6 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod unrhyw arbedion sydd eu hangen sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith unrhyw arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r Adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Yn unol â chais y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y broses yma ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

12.7 Nid ceisio cwrdd â chostau chwyddiant yn unig y mae'r gyllideb uchod wrth gwrs, mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b. hefyd yn cael eu cyfarch.

12.8 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau ac mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

12.9 Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod yna dros £760,000 yn mynd i faes gofal cymdeithasol, a hynny ar ben yr £858,000 arian demograffi a ddarperir er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch ym maes anabledd dysgu.

## 13 Casgliadau

13.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2014/15 a strategaeth arfaethedig ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y pedair blynedd i ddod.

### Cyllideb 2014/15

13.2 Argymhellir fod angen cyfarch angen gwario refeniw o £240.30m sydd yn cynnwys darparu £1.5m ar gyfer pwysau ar wasanaethau gan gynnwys darparu cynllun gwarchodaeth ar gyfer y sector Uwchradd i brynu amser er mwyn darganfod ateb parhaol ar gyfer problemau'r sector honno.

13.3 Darperir hefyd ar gyfer pwysau unwaith ac am byth o £558,000 drwy ychwanegu £128,750 o adnodd arbedion a wireddwyd o flaen llaw at y ddarpariaeth sydd eisoes yn y gyllideb ynghyd a £132,000 o falansau.

13.4 Ar ol derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £174.97m a gydag incwm Dreth Gyngor heb ei gynyddu o gwbl o £53.11m bydd hyn yn gadael bwlch o £12.22m i'w ddarganfod yn y flwyddyn honno.

13.5 Bydd modd dygymod a'r bwlch yma drwy gyfuniad o gamau gan gynnwys lleihau rhai penawdau cyllidol i gyfrannu £3.06m a chan ddefnyddio arbedion o £5.52m sydd eisoes ar y gweill, ynghyd a £0.45m o arbedion a ddarganfyddwyd o flaen llaw i gyfarch y ffaith fod yna lithriad wedi bod yn y rhaglen arbedion, bydd byd hyn yn dod a'r bwlch i lawr i £3.19m

13.6 Argymhellir felly y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% i gynhyrchu £1.86m gan bontio'r gweddill hyd nes y byddwn yn medru darganfod arbedion i'w gyfarch drwy ddefnyddio £1.33m o falansau.

13.7 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net ar ôl defnydd balansau a chronfeydd eraill o £229,944,210.

13.8 Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 5.

13.9 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £16.193m ar gyfer 2014/15 ynghyd a £17.974m ar gyfer 2015/16.

**Strategaeth Tymor Hirach**

13.10 O ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £34m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd nesaf drwy gadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth gyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o'r gyllideb ysgolion) ac y dylid anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd a rheoli galw y gallwn eu gwireddu.

13.11 Y dylid sefydlu cyfundrefn gynhwysol ar gyfer sefydlu'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ac unrhyw flaenoriaethu sydd angen ei wneud i sefydlu ymhle y byddai'n rhaid i ni dorri gwasanaethau.

13.12 Yn y cyfamser y dylid manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i wireddu arbedion hyd yn oed os yw'n golygu peidio aros am y gyfundrefn dan sylw er mwyn sicrhau nad ydym yn colli cyfle.

Atodiad 1

# Bidiau i'w cymeradwyo ar gyfer 2014/2015

| Rhif | Rheswn dros y bid | Amlinelliad o'r Mater | Cais Cyllid | | Argymell Categori | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Argymhellion/Sylwadau | Argymell Parhaol | Unwaith ac am byth (£) |
| **Adran Gwas Cym, Tai a Hamdden** | | | | | | | | |
| GCTH1 | Pryniant System Rheoli Gofal Cymunedol newydd – Dilyniant i RAISE | Mae'r cytundeb gyda CareWorks am system rheoli gofal sef Raise yn dod i ben ac fe gyflwynir bid am arian cyfalaf i gaffael system newydd. Mae'r bid refeniw yn ariannu'r gefnogaeth i fewnosod data yn y system newydd sef 1 x Rheolwr Rhaglen am 3 mlynedd £148,830; 1 x swyddog cefnogaeth mewnosod am 3 mlynedd £88,760; 2 x swyddog cefnogaeth mewnosod am flwyddyn £58,510. Cyfanswm o 4 swydd dros dro. Hefyd cynhwysir cyfraniad ychwanegol £25k Gwynedd i'r Consortiwm (WSC) am gost rheolaeth prosiect am ddwy flynedd i reoli'r broses. | | 321,000 | Cytuno | Ar sail yr ansicrwydd am union swm y bid a'r amserlen, argymhellir clustnodi'r swm y bid mewn cronfa ar wahan ar gyfer ariannu'r cais a herio'r union swm pan fydd gwybodaeth gadarn ar gael. | | 321,000 |
| GCTH2 | Rheolwr Busnes a chefnogaeth gweinyddol ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Orllewin Cymru | Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn yn cynnwys cynrychiolaeth ar lefel uchel o swyddogion cyrff partneriaethol fel Iechyd, yr Heddlu. Mae angen gwneud llawer mwy o waith i sefydlogi'r a galluogi'r Bwrdd i roi arweiniad clir ar ddatblygiadau a gwelliannau o fewn maes diogelu fel bo'r Bwrdd yn gallu gweithredu ar yr un statws â Bwrdd Diogelu Plant Gwynedd a Môn. Gan mai awdurdodau lleol sy'n arwain ar faterion diogelu, mae'r gwaith yn gyfrifoldeb ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn ac yn unol â'r fformiwla sydd wedi ei gytuno sef 60:40 cyfraniad Gwynedd yn £36,800 a chyfraniad Môn yn £25,740. Bid i gyllido swydd a chefnogaeth weinyddol sydd yma. | | 38,600 | Dygymod o fewn adnoddau ar gael | Gofynnir i'r Adran sicrhau cefnogaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael. | | |
| GCTH3 | Pecynnau Gofal Trosiannol 18+ Gwasanaeth Oedolion | Cais i ariannu gofal 13 o bobl ifanc sydd ar fin neu yn ddiweddar wedi cyrraedd 18 oed ac angen trosglwyddo cyfrifoldeb am eu gwasanaeth i'r Gwasanaeth Oedolion. Ar hyn o bryd y Gwasanaeth Plant sy'n cyllido eu gofal tan eu bod yn 18 oed.<br><br>Y bwriad yw cydweithio gyda Gwasanaethau Ôl-ofal Gwynedd, yr Adran Addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynllunio trefniadau ar gyfer sicrhau na fydd unigolion yn parhau i fod angen gofal lleoliadau coleg yn hwy na 19 oed, ac felly lleihau'r angen am gostau uchel am leoliadau tu allan i'r Sir. | 675,000 | | Cytuno | Yn dilyn gwaith adolygu pecynnau o fewn y Gwasanaeth, mae swm y bid wedi lleihau £270k | 405,000 | |
| GCTH4 | Operation Palial | Bydd trefniant dros dro i ariannu gweithiwr rhanbartholi i arwain ar Operation Pallial yn parhau yn hwy na'r disgwyl. Mae cynnydd eto yn nifer y bobl sydd angen cefnogaeth ddwys iawn. Amcangyfrifir mai cost cyfraniad Gwynedd fydd £10k. | | 10,000 | Cytuno | Anorfod i'w ariannu gan yr Adran. | | |
| GCTH5 | Cau Pwll Nofio Bangor dros dro | Er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol gan gynnwys gwaredu asbestos, mae'r Gwasanaeth Eiddo wedi datgan bod yn rhaid cau Pwll Nofio Bangor am chwe mis i gwblhau'r gwaith. Gwerth y prosiect ydy £600k ac fe wneir bid unwaith ac am byth am gyllid i ddigolledu'r Gwasanaeth am golled incwm yn ystod y cyfnod cau sef £40K. | | 40,000 | Cytuno | Anorfod i'w ariannu | | 40,000 |
| **Cyfanswm Gwas Cym** | | | **675,000** | **409,600** | | | **405,000** | **361,000** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Amlinelliad o'r Mater | Cais Cyllid | | Argymell Categori | Argymhellion/Sylwadau | Argymell Parhaol | Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | | | |
| **Panel Strategol Diogelu** | | | | | | | | |
| PG1 | Monitro ansawdd diogelu ar lefel gorfforaethol | Sefydlwyd y Panel Strategol Diogelu yng Ngwynedd er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar yr agenda diogelu yn ei gyfanrwydd o fewn y Cyngor.. Bellach datblygwyd polisi a chanllawiau corfforaethol diogelu a lluniodd pob adran / gwasanaeth ei bolisi / canllawiau ei hun . Nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Panel fod angen "sicrhau awdit blynyddol( annibynnol ) o ansawdd gweithdrefnau ar draws adrannau a gwasanaethau'r Cyngor drwy samplo gweithdrefnau gweithredol diogelu " ac adrodd ar y canfyddiadau i'r Panel Strategol gydag argymhellion ynglŷn â gweithredu pellach . Yn ychwanegol, yn sgil adolygiad Winterbourne ( gwasanaethau anabledd dysgu yn benodol ond yn berthnasol i feysydd eraill ) nodir yn y Cynllun Gweithredu fod angen cyflogi arbenigwr annibynnol i " sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle" ar gyfer diogelu oedolion " gyda chynllun gweithredu pendant". Mae'r swm yn cynnwys bid gan yr Adran Addysg am £7,500. | 22,500 | | Dull arall o ariannu | Anfonebu adrannau am y gwaith. | | |
| PG2 | Panel Strategol Diogelu - Monitro Ansawdd Darpariaeth Breswyl wedi'u lleoli yng Ngwyneddl | Eto yng nghynllun gweithredu'r Panel Strategol Diogelu nodir yr "angen i fonitro ansawdd y ddarpariaeth breswyl gan asiantaethau allanol / cyrff / asiantaethau preifat i blant ag anghenion ychwanegol neu blant mewn gofal . Darpariaethau preswyl ar gyfer plant wedi'u lleoli gan awdurdod lleol arall yw'r rhain ond mae cyfrifoldeb ar Wynedd i fonitro'u hansawdd . Nid yw'r capasiti ar gael i gyflawni'r gwaith yma ar hyn o bryd. | 40,000 | | Gwrthod | Yr Uned Fusnes yn ail flaenoriaethu gwaith i gyfarch y gofyn hwn. | | |
| PG3 | Codi ymwybyddiaeth o bolisiau a chanllawiau diogelu | Er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar yr agenda diogelu yn ei gyfanrwydd, nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Panel Strategol Diogelu fod angen codi ymwybyddiaeth ymysg staff, aelodau a'r rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor am y polisiau a'r canllawiau. Cytunwyd y dylid gwneud hyny drwy gynhyrchu deunyddiau addas a threfnu sesiynau codi ymwybyddiaeth. | | 10,000 | Dull arall o ariannu | Anfonebu adrannau am y gwaith. | | |
| **Cyfanswm Panel Strategol Diogelu** | | | **62,500** | **10,000** | | | | |
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | | | |
| AD1 | Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Gwyliadwraeth Iechyd Statudol ar gyfer Staff y Cyngor | Ers Gorffennaf 209, mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi cyflogi swyddog Iechyd Galwedigaethol ar gyfer cylfawni dyletswyddau megis cynnal profion iechyd sylfaenol, gweithredu'r rhaglen hybu iechyd a lles, prosesu ceisiadau ymddeol ar sail afiechyd a chynnal ymghynghoriadau sylfaenol gyda staff. Yn ddiweddar, mae'r Uned wedi bod yn darparu gwyliadwriaeth iechyd statudol ar gyfer carfannau penodol ymysg gweithlu'r Cyngor. Bid am arian i gynnal y swydd. Yn y gorffennol, arianwyd y swydd hon gydag arian wrth gefn. | 32,000 | | Dull arall o ariannu | I'w ariannu gan yr Adran am flwyddyn a chais i'r Adran baratoi cynllun busnes yn y cyfamser. | | |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | **32,000** | | | | | |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | | | |
| Rh1 | Toriadau grantiau gan y Llywodraeth ar gyfer Cludiant Cyhoeddus | Mae risg sylweddol wedi ei amlygu yn codi o'r toriad grant LTSG ac o'r drefn a ddefnyddir gan y Llywodraeth i ddosrannu cymhorthdal i wasanaethau cludiant. Mae toriad o 25% wedi bod am y flwyddyn 2013-2014. Mae potensial o doriad eto yn 2014-2015 sydd yn gyfystyr ag oddeutu £224,000 ychwanegol.<br><br>Diffyg Grant LTSG 2012/2013 = £62,350<br>Diffyg Grant LTSG 2013/2014 = £152,961<br>Llai grant BSOG = (£249,800)<br>Ymrwymiadau BSOG = £156,000<br>Amcan Diffyg Grant LTSG 2014/2015 (lleihad o 25%) = £102,046<br><br>Diffyg Net = £223,557<br><br>Mae hefyd toriad wedi bod ar lwfans tanwydd i gontractwyr sydd wedi effeithio prisiau sybsidi rhai gwasanaethau.<br><br>Mae toriadau pellach yn y grant a dderbynnir gan y Llywodraeth yn 2015/16 a 2016/17 yn bosibilrwydd cryf ond ni ellir rhagamcanu effaith tebygol eto. | 223,000 | | Gwrthod | Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar y ffaith mai toriad grant gan y Llywodraeth sydd wedi arwain at y bid hwn. | | |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Amlinelliad o'r Mater | Cais Cyllid | | Argymell Categori | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Argymhellion/Sylwadau | Argymell Parhaol | Unwaith ac am byth (£) |
| Rh2 | Gwasanaeth Bysiau | Mae **£101,000** o newidiadau i deithiau cyfredol cludiant cyhoeddus. **£93,000** o gost ychwanegol i'r gwasanaeth yn dilyn rhesymol teithiau ardal sy'n weithredol o 1 Ionawr 2014. **£70,000** am 3 taith sydd heb eu gwobrwyo ac mae'r gwasanaeth yn edrych ar nifer o opsiynau gan gynnwys gileu'r teithiau yn gyfangwbl. | 264,000 | | Ariannu dros dro | Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar y ffaith mai toriad grant gan y Llywodraeth i gwmniau bysiau sydd wedi arwain at y bid hwn. | | 132,000 |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | | | **487,000** | | | | | **132,000** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Strategol a Gwella** | | | | | | | | |
| SG2 | System rheoli perfformiad y Cygnor cyfan yn dod i ben Mehefin 2014 | Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio system meddalwedd Ffynnon, gaiff ei ddarparu a'i ariannu yn genedlaethol, i reoli perfformiad. Ond, mae'r cytundeb yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin 2014 ac amserlen cyflwyno'r system newydd cenedlaethol 'Pan' yn llithro. Y mae Gwynedd yn defnyddio cryn dipyn ar Ffynnon a'r risg felly i barhad busnes yn uchel. Mae nifer o opsiynau dan ystyriaeth ac un ohonynt yw ceisio cytundeb efo Coactivia i ymestyn y gefnogaeth i Ffynnon am flwyddyn. Ariannu'r ymestyniad fyddai'r bid ond mae'n anodd amcangyfrif yr union gost ar hyn o bryd. | | 40,000 | Dull arall o ariannu | I'w ariannu gan yr Adran | | |
| **Cyfanswm Strategol a Gwella** | | | | **40,000** | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | | | |
| Ec11 | Eisteddfod Yr Urdd 2014 | Bydd disgwyl i Gyngor Gwynedd sicrhau presenoldeb ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Bala yn 2014 a chefnogi gweithgareddau Bydd yr Adran E&Ch yn ceisio targedu nifer o grantiau a gwneud defnydd o arian nawdd a rhaglenni ariannu sydd ar gael i gynnal gweithgareddau a chystadlaethau. Ond oherwydd bod cyfnod ariannu Ewrop yn dod i ben 2014, rhagwelir y bydd llai o arian grant ar gael ar gyfer Bala. Amcangyfrifir y bydd angen cyllideb ar gyfer cost llogi pabell, cludiant offer a deunyddiau a chyfraniad at ddigwyddiadau. | | 25,000 | Cytuno | Argymhellir ariannu yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor. | | 25,000 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | | | | **25,000** | | | | **25,000** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Cyllid** | | | | | | | | |
| C1 | Sicrhau parhad gwasanaeth craidd gweinyddu budd-daliadau yn sgil gostyngiad grant a throslgwyddiad i'r setliad | Mae gweinyddu budd-dal wedi'i ariannu yn uniongyrchol gan y DWP drwy grant "Admin Subsidy". Bydd £179,360 ohono yn trosglwyddo i'r setliad erbyn 2014/15. Hefyd, mae toriad yn yr "Admin Subsidy" gweddilliol, gwerth £130,307 sef £84,597 yn 2014/15 ar ben £45,710 yn 2013/14. | 130,310 | | Ariannu'n rhannol | Bydd £179,000 yn dod i'r Adran fel rhan o'r trosglwyddiad i'r setliad, argymhellir felly ariannu'r bid yn rhannol sef £65,000 sef cyllid pontio unwaith ar sail yr aneglurder ar drefniadau yn y dyfodol yn y maes hwn. Ond yr Adran i gyllido £25k o'r bid. | | 40,000 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | | | **130,310** | | | | | **40,000** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Amlinelliad o'r Mater | Cais Cyllid Parhaol (£) | Cais Cyllid Unwaith ac am byth (£) | Argymell Categori | Argymhellion/Sylwadau | Argymell Parhaol | Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | | |
| PB1 | Gwastraff | (a) £205,000 – lleihad yn y grant Rheolaeth Gwastraff Cynaladwy (£105k diffyg 2013-14 & £100k amcan 2014-15)<br><br>(b) £85,750 – cynnydd pellach yn y costau tirlenwi (eisoes wedi cael £222k trwy'r broses gyllideb) oherwydd oedi yn y drefn casglu tan Hydref 2014<br><br>(c) (£42,800) – arbedion o £31,490 gwastraff gwyrdd a £11,310 IVC Penhesgyn<br><br>(ch) £167,560 – categori newydd yn 2013-14, sef delio gydag ysgubion sy'n cael ei drin drwy drefn "silt buster" @ £50.50/t. Buasai'n mynd i'w dirlenwi @ £80/t yn ogystal a chostau gwaredu fel arall<br><br>(d) £93,260 – costau ymdrin a choed. Roedd y gwasanaeth yn llosgi'r coed yn wreiddiol. Gellir arbed oddeutu £80k trwy fynd yn ol i'r drefn o losgi ond bydd yn amharu ar y targedau ailgylchu gan na cheir ei gynnwys.<br><br>(dd) £49,140 – costau ymdrin a matresi - £19k a charpedi - £30,140 wedi codi oherwydd nifer tunelledd<br><br>(e) £148,000 – rhan o'r strategaeth, sef cynnydd yn y tunelledd bwyd sy'n mynd i GwyriAD £137,760 a fforddfraint - £10,240 | 705,910 | | Cytuno | Mae'r bid hwn yn anorfod i'w gyllido ond yr union swm yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad gwastraff sydd ar y gweill. | 705,910 | |
| PB2 | Safleoedd Gwaredu | Gwelir cynnydd yng nghostau ôl-ofalaeth Cilgwyn am 2014-15 yn dilyn capio'r safle. Bydd angen £40k ar gyfer y gwaith trin elifiant ynghyd â'r trydan i'w redeg.<br><br>Yn ogystal, gwelwyd lleihad sylweddol yn yr incwm a gynhyrchir o'r safle (breindaliadau). Gall y sefyllfa newid yn dilyn y capio ond ar hyn o bryd mae diffyg o £90k.<br><br>Rhagwelir bydd elifiant Llwyn Isaf yn uwch na'r amcangyfrif o £15k. | 145,000 | | Cytuno | Mae'r bid hwn yn anorfod i'w gyllido ond yr union swm yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad gwastraff sydd ar y gweill. | 145,000 | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | **850,910** | | | | **850,910** | |
| | | | | | | | | |
| **Adran Addysg** | | | | | | | | |
| Add 1 | Gorwariant Tacsis - £156,310.70 yn sgil cynnydd yn niferoedd. £58,400 gorwariant yn y gyllideb bysus eto yn sgil niferoedd ond ail dendro hefyd. | Tacsis - rhagweld gorwariant ar gyllideb gyfredol 2014/15 £167,110.70 | 214,710 | | Cytuno | Bid anorfod i'w gyllido ac eisoes cytunwyd i gynnal adolygiad o'r Uned. | 214,710 | |
| **Cyfanswm Addysg** | | | **214,710** | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | **2,452,430** | **484,600** | | | **1,470,620** | **558,000** |

# Bidiau Cyfalaf ychwanegol

| Rhif | Rheswn dros y bid | Amlinelliad o'r Mater | Swm y Bid | Categori a argymhellir | Argymhellion/Sylwadau | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Gwas Cym, Tai a Hamdden** | | | | | | |
| GC1 | Pryniant System Rheoli Gofal Cymunedol newydd – Dilyniant i RAISE | Cytundeb ar gyfer y system RAISE gyda CareWorks yn dod i ben yn Ebrill 2016 ac mae angen buddsoddi mewn system newydd. Mae'r bid yn cynnwys costau trwyddedau meddalwedd, rhyngwynebu, mudo data, hyfforddiant, rheoli prosiect y cyflenwr ac ymgynghori ar y system newydd yn dilyn y broses tendro. Gan fod y broses honno ar waith, amcangyfrif yn unig sydd yma o'r gwir gostau. | 572,500 | **Cytuno** | Argymhellir clustnodi'r swm mewn cronfa ar wahan ar gyfer ariannu'r bid pan fydd gwybodaeth gadarn ar gael. | 572,500 |
| **Cyfanswm** | | | **572,500** | | | **572,500** |
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | |
| AD1 | Rhaglen Dreigl o welliannau diogelwch tu fewn i safloedd ysgolion | Sefydlwyd y rhaglen dreigl hon i ddiwallu anghenion rhybudd statudol gan AGID yn 2004 i wella'r sefyllfa draffig o fewn ysgolion y sir. Ar gyfer 2014/15 adnabuwyd rhaglen o waith angenrheidiol oddi fewn ffiniau un ysgol am £50k. Mae gweddill y prosiect yn edrych ar opsiynau o gynyddu mannau parcio o flaen yr ysgol a bydd yn debygol o arwain at fidiau pellach o £250k. Mae astudiaeth ddichonoldeb mewn ysgol arall wedi adnabod yr angen i ymgymryd â gwaith ar y safle er mwn creu cynnydd mewn safonau diogelwch parthed â thrafnidiaeth ar dir yr ysgol, gan gynnwys neilltuo ardal ar gyfer maes parcio yng nghefn yr adeilad. Cyflwynir bid o £40k ar gyfer hyn. Mae bid o £20k yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwaith cyffredinol ac ar gyfer monitro a chynnal y rhaglen waith trafnidiaeth yn ysgolion Gwynedd. | 110,000 | **Cytuno i elfen** | Argymell cymeradwyo ariannu gwaith angenrheidiol o fewn un ysgol £50k. Ond gofyn i Bennaeth Adnoddau Dynol am adroddiad penodol yn adolygu'r risgiau a'r gwariant cymharol yn y maes hwn. | 50,000 |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | **110,000** | | | **50,000** |
| **Adran Economi a Cymuned** | | | | | | |
| Ec1 | Cist Gwynedd | Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cefnogi'r sector wirfoddol drwy'r gronfa yma ers 1996. CDS y Swyddfa Gymreig oedd ffynhonnell wreiddiol yr arian, ond ers 2001/02 mae'r arian wedi dod yn rhan o'r setliad. Mae'r gyllideb flynyddol yn gyfanswm o £250,000, sydd wedi ei rhannu i £110,000 refeniw a £140,000 cyfalaf.<br><br>Rheolir y gyllideb dan frand llwyddiannus Cist Gwynedd. Mae Cist Gwynedd yn cynnwys pecyn o grantiau i gefnogi gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol.<br><br>Mae'r Gronfa Datblygu Gwirfoddol yn benodol yn arian tuag at gefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymunedol a gwirfoddol, sy'n gweithredu i wasanaethu cymunedau a thrigolion Gwynedd yn unig. | 140,000 | **Ariannu'n rhannol** | Argymell swm o £70,000 gyda chytundeb y Gwasanaeth. | 70,000 |
| **Cyfanswm Adran Economi** | | | **140,000** | | | **70,000** |
| **CYFANSWM** | | | **822,500** | | | **692,500** |

ATODIAD 2

# Dyfyniad o'r Cyfrifon terfynol – Reserfau penodol

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

| **2012/13** | **Balans 31 Mawrth 2013 £'000** |
|---|---|
| Reserfau Adnewyddu | 1,716 |
| Reserfau Cyfalaf | 14,286 |
| Reserfau Yswiriant | 3,444 |
| Cronfa Gwasanaethau | 5,086 |
| Cronfa Amcan 1 | 0 |
| Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 1,602 |
| Reserf Datblygiadau | 212 |
| Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 1,935 |
| Hyfforddiant Canolog | 336 |
| Reserf Canolfan Gyswllt | 278 |
| Reserfau Gwasanaethau Ysgolion | 1,204 |
| Reserfau Economi a Chymuned | 113 |
| Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,786 |
| Reserf Datblygiadau Gwastraff | 426 |
| Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 290 |
| Reserfau Rheoleiddio | 791 |
| Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol | 0 |
| Reserfau Eraill Gofal | 127 |
| Cronfa Trawsnewid Busnes | 244 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed | 1,497 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 1,521 |
| Cronfa Trawsffurfio | 7,105 |
| Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu ymrwymo | 168 |
| Cronfa Cyfalaf i Wireddu Arbedion | 209 |
| Reserf Tendro Contractau | 403 |
| Cronfa Gwasanaethau Dwr a Charthffosiaeth Tai | 1,337 |
| Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 |
| Cronfa Rhaglen Arbedion | 932 |
| Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 373 |
| Cronfa Adfer | 500 |
| Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop | 150 |
| Amrywiol Reserfau Eraill | 1,343 |
| **Cyfanswm** | **49,894** |

Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

(i) Mae’r Reserf Adnewyddu yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Darparu a Hamdden, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Economi a Chymuned a’r Argraffdy i adnewyddu cerbydau ac offer.

(ii) Mae’r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes ar gyfer Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

(iii) Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag Yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â’r gofynion yma’n fewnol. Mae’r balans ar y Reserf Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant perthnasol i’r cyn Cyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996).

(iv) Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy’n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i wasanaethau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy’n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

(v) Amcan 1 - Cronfa a sefydlwyd ar gyfer costau ychwanegol cyfalaf neu refeniw sy’n codi o’r anghenion datblygu cynlluniau ar gyfer Amcan 1.

(vi) Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

(vii) Mae’r Reserf Datblygiadau ar gyfer prosiectau penodol a bennwyd eisoes gan y Cyngor fel Tai Fforddiadwy ac E-Lywodraeth.

(viii) Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

(ix) Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi rheolwyr.

(x) Reserf y Ganolfan Gyswllt – symiau a roddwyd o’r neilltu ar gyfer datblygu y Ganolfan Gyswllt.

(xi) Reserfau Gwasanaeth Ysgolion – yn cynnwys symiau a roddwyd o’r neilltu i allu ymateb yn bennaf i’r problemau ariannol perthnasol hefo gofynion ‘Integreiddio’, gofynion newidiol ‘Anghenion Addysg Arbennig All Sirol’, ‘Cefnogi Ysgolion’ a’r ‘Cynllun Benthyciadau i Ysgolion’.

(xii) Mae’r Reserfau Economi a Chymuned, yn cynnwys amrywiol falansau sy’n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae’n rhaid cyfrifo balansau’r cynlluniau yn arwahan.

(xiii) Mae’r Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynnwys yn bennaf symiau a roddwyd o’r neilltu i warchod rhwng sefyllfaoedd anwastad – ‘equalisation accounts’ a gofynion tebygol contractau.

(xiv) Cronfa ar gyfer datblygiadau ac ymrwymiadau perthnasol i’r maes gwastraff yw’r Reserf Datblygiadau Gwastraff gan gynnwys ein hymrwymiad i’r Partneriaeth Gwastraff Gogledd Cymru.

(xv) Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o’r neilltu i warchod sefyllfaoedd anwastad efo gweithiau amddiffyn yr arfordir ynghyd â gofynion

cyflogaeth posib yn dilyn o newidiadau yn rhaglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

(xvi) Reserfau Rheoleiddio – yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahan, ynghyd a gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol.

(xvii) Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol – i gynorthwyo tuag at gost gweithiau cynnal mawr ar ffyrdd sirol.

(xviii) Reserfau Eraill Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd anwastad posib efo gofynion contractau.

(xix) Cronfa Trawsnewid Busnes – Cronfa unwaith ac am byth i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes i wireddu arbedion i'r Cyngor.

(xx) Cronfa Buddsoddi i Arbed – Darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol a bellach yn cynnwys gofynion ac adnoddau Cronfa Gwella'r Cyngor.

(xxi) Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – Rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd a chynhyrchu arbedion refeniw ariannol.

(xxii) Cronfa Trawsffurfio – Darpariaeth ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon.

(xxiii) Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu ymrwymo – cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

(xxiv) Cronfa Cyfalaf i wireddu arbedion – Darpariaeth ar gyfer cefnogi cynlluniau cyfalaf fyddai'n gwireddu arbedion cyllidol refeniw parhaol.

(xxv) Reserf Tendro Contractau – ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd gwariant anwastad o ganlyniad i'r broses tendro am gontractau cludiant.

(xxvi) Cronfa Gwasanaethau Dwr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dwr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn dai Cyngor, na fabwysiadwyd gan Dwr Cymru.

(xxvii) Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud a chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn dai Cyngor.

(xxviii) Cronfa Rhaglen Arbedion – darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cyngor wrth ystyried y rhaglen arbedion angenrheidiol i'r dyfodol.

(xxix) Reserfau Technoleg Gwybodaeth – cronfa adnewyddu perthnasol i alluogi ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.

(xxx) Cronfa Adfer – darpariaeth tuag at gost y gwaith adfer difrod llifogydd Tachwedd 2012, i ffyrdd, pontydd, a.y.b.

(xxxi) Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop – darpariaeth tuag at gost rhagbaratoi achosion busnes i ddenu ffynonellau ariannu a grantiau Ewrop.

(xxxii) Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

**ATODIAD 3**

## RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2014/15 – 2015/16

| £'000 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ol groniad ac osgoi ol groniad pellach) | 4,501 | 2,096 |
| Gwaith Tan ac Asbestos | 626 | |
| Trefniadaeth Ysgolion | 2,738 | 11,229 |
| Newid dosbarthiadau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes | | 1,058 |
| Cynnal Ffyrdd (Cynllun Benthyca) | 3,780 | |
| Goleuadau stryd | 50 | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | 14 | 134 |
| Ymdrin â thwr ar y ffyrdd | 100 | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 | 35 |
| Strategaeth Wastraff y Cyngor | 430 | - |
| Adnewyddu Cerbydau | 186 | 407 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 | 100 |
| Lonydd Glas | 20 | 20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 592 | 501 |
| Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau | 328 | 244 |
| Grantiau Tai | 2,000 | 2000 |
| I'w ddyrannu | 693 | - |
| **Cyfanswm** | **16,193** | **17,974** |
| Yn hytrach na'n flaenorol | 15,748 | 20,346 |

1. Ffigyrau Trefniadaeth Ysgolion wedi newid yn sgil ail broffilio'r cynlluniau – dim newid yng nghyfanswm y cynlluniau.
2. Ffigwr newid dosbarthiadau wedi newid ar i lawr yn sgil medru cyflawni'r gwaith am gost is.
3. Ffigwr cynnal ffyrdd yn adlewyrchu'r ffigwr diweddaraf y gellir ei fenthyca gyda'r swm grant.
4. Ffigwr Strategaeth Wastraff wedi lleihau yn sgil yr achos busnes i newid dull gwaredu gwastraff, gan ddileu'r angen i adeiladu cell newydd yn Ffridd Rasus.
5. Y ffigwr "i'w ddyrannu" yn adlewyrchu'r bidiau cyfalaf a nodir yn Atodiad 1.

ATODIAD 4

## Tybiaethau 4 blynedd 2014/15 – 2017/18

| £m | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Ychwanegiadau at y gyllideb** | | | | |
| Chwyddiant Cyflogau | 3.1 | 3.3 | 3.3 | Seiliedig ar 2% y. f. o 15/16 |
| Chwyddiant arall | 1.5 | 1.5 | 1.5 | Cyfrifiad ar sail rhagdybiaeth CPI a'i effaith ar chwyddiant y Cyngor |
| Costau cyflogaeth | 0.3 | 0.3 | 0.3 | Profiad blaenorol |
| Praeseptau | 0.2 | 0.2 | 0.2 | Amcangyfrif gorau |
| Costau benthyca | 0.1 | (0.3) | - | Cyfrifiad penodol |
| Llog | - | (0.1) | (0.1) | Amcangyfrif gorau |
| Demograffi | 0.4 | 0.3 | 0.3 | Cyfrifiad penodol |
| Pwysau ar wasanaethau | 2.1 | 5.0 | 1.2 | £1m y flwyddyn ar gyfer pwysau cyffredinol + materion o sylwedd sy'n hysbys |
| **Cyfanswm ychwanegiadau** | 7.7 | 10.2 | 6.7 | |
| Gostyngiad grant Llywodraeth | 4.4 | 3.5 | 6.1 | -2.5% yn 15/16; -2% yn 16/17 a -3.5% yn 17/18 |
| **Cyfanswm bwlch ar ôl Grant** | **12.1** | **13.7** | **12.8** | |

**ATODIAD 5**

## Cyllidebau arfaethedig 2014/15 fesul gwasanaeth

| Cyllideb 2014/2015 | Cyllideb Sylfaenol 2013/14 | Chwyddiant | Praeseptau Incrementau a Phensiynau | Cynllun Cymorth Treth y Cyngor | Llog a chostau benthyca | Demograffi Incwm ac Amrywiol | Trosglwyddiad i'r setliad | Pwysau ar wasanaethau | Arbedion | Cyllideb Sylfaenol 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADRANNAU** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 793 | 10 | (11) | 0 | 0 | 164 | 0 | 0 | (3) | 953 |
| Strategol a Gwella | 4,364 | 52 | 14 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | (13) | 4,431 |
| Cyllid | 3,813 | 68 | (5) | 0 | 0 | (5) | 179 | 40 | (46) | 4,044 |
| Democratiaeth a Chyfriethiol | 1,594 | 31 | 7 | 0 | 0 | 12 | 0 | 0 | (9) | 1,635 |
| Gofal Cwsmer | 7,329 | 120 | (1) | 0 | 0 | 26 | 0 | 0 | (100) | 7,374 |
| Adnoddau Dynol | 2,934 | 38 | 4 | 0 | 0 | (26) | 0 | 0 | (43) | 2,907 |
| Cefnffyrdd | (87) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (87) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 21,941 | 697 | 162 | 0 | 0 | (60) | 17 | 769 | (227) | 23,299 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC) | 6,895 | 142 | 8 | 0 | 0 | (60) | 0 | (64) | (198) | 6,723 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (63) | 8 | 1 | 0 | 0 | 156 | 0 | 0 | (24) | 78 |
| Addysg Canolog | 13,683 | 106 | 29 | 0 | 0 | (25) | 0 | 215 | (509) | 13,499 |
| Cyllideb Ygolion | 70,255 | 118 | (93) | 0 | 0 | (464) | 0 | 278 | (245) | 69,849 |
| Economi a Chymuned | 3,523 | (4) | 7 | 0 | 0 | 171 | 0 | 25 | (216) | 3,506 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 55,443 | 710 | (1) | 0 | 0 | 836 | 0 | 640 | (995) | 56,633 |
| Tai | 1,543 | 25 | 2 | 0 | 0 | (10) | 0 | 0 | (7) | 1,553 |
| Darparu a Hamdden | 1,898 | 158 | 47 | 0 | 0 | 19 | 0 | (33) | (215) | 1,874 |
| **Cyfanswm Adrannau** | 195,858 | 2,279 | 170 | 0 | 0 | 748 | 196 | 1,870 | (2,850) | 198,271 |
| Materion corfforaethol a chyfalaf | 37,569 | 463 | (21) | 203 | (168) | (202) | 1,218 | 140 | (5,731) | 33,471 |
| **CYFANSWM GROS =** | **233,427** | **2,742** | **149** | **203** | **(168)** | **546** | **1,414** | **2,010** | **(8,581)** | **231,742** |
| | | 0 | 0 | | 0 | 0 | | | | 0 |
| **Balansau a Reserfau Penodol** | 485 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (129) | (450) | (94) |
| **CYFANSWM NET =** | **233,912** | 2,742 | **149** | **203** | (168) | **546** | **1,414** | **1,881** | **(9,031)** | **231,648** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **20 CHWEFROR 2014** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS**<br><br>**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**Cyflwyniad a Chefndir**

1. Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â'i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd rhain (parthed 2013/14) gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2013.

2. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn gorfodi'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan gall awdurdodau gyfuno'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol mewn un adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi'i chynnwys yn rhan 5 o **Atodiad A**.

3. Yn ôl y Cod a'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2014/15 yn **Atodiad A.**

4. Mae'r rhestr o wrthbartion **(Atodiad B)** yn dangos yr argymhellion ar gyfer mis Ionawr 2014. Adolygir y rhestr hon pan dderbynnir cyngor penodol ynglŷn â'r cyrff o fewn y categorïau buddsoddi newydd, megis cymdeithasau adeiladu sydd o dan raddfa A-, yn cael eu derbyn.

5. Fel Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheolaeth trysorlys ar ei gyfer trwy uno arian dros ben y Cyngor ac arian dros ben y Gronfa Bensiwn at ddibenion buddsoddi dyddiol. Mae'r

Gronfa Bensiwn yn gofyn am  hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2014/15 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014.

6. Yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith darbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y "Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities" ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd penderfyniadau i wario cyfalaf. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno un dangosydd darbodus newydd, "Terfynau uchaf ar gyfran ddyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar gynigion ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd mewn adroddiadau eraill ar y rhaglen, wedi'u cynnwys yma yn **Atodiad C.**

7. Yn weithredol o'r 31ain o Fawrth 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithredu'r gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

8. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae **Atodiad D** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2014/15.

9. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gyfarfod briffio ar 29 Ionawr 2013 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Amlygodd yr ymgynghorwyr wahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Hefyd, trafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthyca net, a'r dangosyddion darbodus.

**<u>Argymhelliad</u>**

**9. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cyngor Llawn 28 Chwefror fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2014/15 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad D) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

## ATODIAD A

# Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2014/15

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Mae Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr trwy ei ganllaw diweddaraf yn ymroddedig i gadw cyfraddau polisi yn isel am gyfnod estynedig gan ddefnyddio cyfradd diweithdra Arolwg y Llafurlu o 7% fel trothwy ar gyfer yr adegau pan fyddai'n ystyried cynyddu cyfraddau llog ai peidio, yn amodol ar rai *knock-outs* penodol. Roedd diweithdra yn 7.7% ym mis Awst 2013, ond ni ragwelir y bydd yn syrthio islaw'r trothwy tan 2016, oherwydd gweithlu hyblyg y DU.

Mae'r llif credyd i gartrefi a busnesau yn gwella'n araf bach ond mae dal islaw'r lefelau cyn yr argyfwng. Bydd y cwymp mewn chwyddiant prisiau defnyddwyr o 5.2% ym mis Medi 2011 i 2.7% ym mis Medi 2013 yn caniatáu cynnydd gwirioneddol mewn cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) i droi'n bositif a chynorthwyo defnyddwyr i wario.

Mae data twf cryfach yn 2013 (0.4% yn Ch1, 0.7% yn Ch2 a 0.8% yn Ch3) ynghyd â chynnydd mewn prisiau eiddo, yn bennaf o ganlyniad i fentrau'r llywodraeth i hybu

benthyg morgeisi, wedi peri'r marchnadoedd i brisio cynnydd cynt yn y cyfraddau na'r hyn a warantwyd dan Ganllaw'r Dyfodol a'r cefndir economaidd ehangach. Fodd bynnag, gyda thwf swyddi'n cynyddu'n araf, nifer o weithwyr yn gweithio oriau byrrach nag y dymunant a'r toriadau i fudd-daliadau yn gwaethygu, dim ond twf graddol a gawn mae'n debyg. Mae Arlingclose yn rhagweld y bydd y MPC yn parhau i gadw cyfraddau llog yn isel hyd nes bydd yr adferiad yn argyhoeddiadol ac yn gynaliadwy.

Yn yr UD, mae'r disgwyliadau y bydd y raddfa prynu asedau'n arafu ('*tapering*') gan y Gronfa Ffederal ac y bydd diwedd ar brynu asedau pellach yn parhau i lywio'r marchnadoedd ariannol. Ni wnaeth y Gronfa Ffederal arafu'r gyfradd ym mis Medi ac mae wedi chwarae lawr y potensial am hyn yn y tymor agos. Mae'n fwy tebygol nawr y byddant yn arafu yn fuan yn 2014 a fydd yn gymorth i farchnadoedd bond ac ecwiti yn y cyfamser.

2.2 **Rhagolygon credyd**

Mae'r risg credid o fethiannau bancio wedi lleihau'n sylweddol, ond nid yw wedi diflannu'n llwyr. Mae newidiadau rheoleiddio ar droed yn y DU, yr UD ac yn Ewrop i symud draw o'r '*bail-outs*' i'r banciau a gyfyd yn y blynyddoedd cynt i raglenni datrys banciau lle caiff cyfranddalwyr, rhai sy'n dal bondiau a chredydwyr heb warant eu 'hebrwng i mewn' i gymryd rhan mewn unrhyw broses adfer. Mae hyn eisoes yn amlwg yng nghyswllt y rhai sy'n dal dyled israddol a gyflwynwyd gan y Co-op, gan y bydd toriad ar fuddsoddiadau '*bail-in*' gan gyrff gwarant/ecwiti amgen. Mae cynigion hefyd i'r UE ddiwygio sut caiff Cronfeydd Marchnad Arian eu rheoleiddio a fydd, mae'n debyg, yn peri'r cronfeydd hyn i symud i sail VNAV (*variable net asset value*) a cholli eu statws credyd 'AAA'. Bydd amrywio buddsoddiadau rhwng gwrthbartïon sydd â statws credyd derbyniol er mwyn lliniaru'r risg o '*bail-in*' yn dod yn fwy a mwy pwysig yn wyneb y datblygiadau hyn.

2.3 **Rhagolygon Cyfraddau Llog**

Rhagolygon Arlingclose yw y bydd y Gyfradd Banc yn aros yn fflat tan yn hwyr yn 2016, a bod mwy o risg i'r cyfraddau fod yn uwch tuag at ddiwedd y cyfnod dan sylw, fel y dengys y tabl isod. Disgwylir i enillion gilt godi dros y cyfnod dan sylw a disgwylir i giltiau tymor canolig a thymor hir godi rhwng 0.7% ac 1.1%.

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod i'w weld yn ***Annex A***.

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.4% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

## 3. Y Cyd-destun Lleol

3.1 Roedd yr Awdurdod wedi benthyca £111.6m ac roedd ganddo werth £52.2m o fuddsoddiadau ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2013. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Annex B***. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb Mantolen a'r Rhagolwg**

| | 31.3.13 Gwir £'000 | 31.3.14 Amcan-gyfrif £'000 | 31.3.15 Amcan-gyfrif £'000 | 31.3.16 Amcan-gyfrif £'000 | 31.3.17 Amcan-gyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CFR Gros** | 165,924 | 168,430 | 173,714 | 178,437 | 182,813 |
| Llai: Rhwymedigaethau tymor hir eraill * | (29) | (15) | 0 | 0 | 0 |
| **Benthyca CFR** | **165,895** | **168,415** | **173,714** | **178,437** | **182,813** |
| Llai: Benthyca allanol ** | (113,248) | (112,469) | (111,267) | (131,267) | (129,500) |
| **Benthyca mewnol** | **52,647** | **55,946** | **62,447** | **47,170** | **53,313** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (65,725) | (45,211) | (39,812) | (34,269) | (32,223) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (23,718) | (18,162) | (18,102) | (18,082) | (18,077) |
| **Buddsoddiadau** | **(36,796)** | **(7,427)** | **4,533** | **(5,181)** | **3,013** |

*lesoedd cyllid sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod
**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt, heb gynnwys ail gyllido dewisol

3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, yn amodol ar ddal lleiafswm balans buddsoddi o £40m.

Mae Tabl 1 yn dangos y gallai bod angen i'r Cyngor benthyg hyd at £4.5miliwn yn 2014/15. Mae hyn yn seiliedig ar dafluniadau am ddefnydd sylweddol o reserfau yn ystod 2013/14 a 2014/15 ac yn cynnwys cynlluniau cyfalaf sydd yn cael eu cyllido drwy fenthyciadau. Mae elfen o lithriad yn debygol gyda'r ddwy elfen yma ac felly nid oes darpariaeth cyllideb ar gyfer cost benthyciadau allanol ychwanegol yn 2014/15. Er hynny, amcangyfrifir y bydd angen benthyg £20million ychwanegol yn 2015/16, ac mae hyn wedi ei gynnwys yn y tabl uchod.

3.3 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf posib yn

ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2014/15.

## 4. Y Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn dal £112 miliwn o fenthyciadau, gostyngiad o £1 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Awdurdod yn disgwyl bod angen benthyca yn 2014/15. Fodd bynnag, hwyrach y bydd yr Awdurdod angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

4.2 Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd priodol o risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

4.3 Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny.

4.4 Drwy wneud hynny, gall yr Awdurdod leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm rhagdybiedig o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg cyffredinol i'r trysorlys. Mae strategaeth o'r fath yn fwyaf tebygol o fod yn fanteisiol dros y 2-3 blynedd nesaf wrth i gyfraddau llog swyddogol aros yn isel, ac mae'n annhebygol y caiff ei gynnal yn y tymor canolig. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2014/15 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

4.5 Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn benthyca benthyciadau tymor byr (hyd at un mis fel arfer) i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

4.6 Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)
- Awdurdodau Lleol y DU

- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.3 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi gan y *Prudential Regulation Authority* i weithredu yn y DU
- cwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

Yn flaenorol mae'r Awdurdod wedi codi'r rhan fwyaf o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond mae'n bosib y bydd yn ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, fydd ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

4.7 Mae'r Awdurdod yn dal £16.2m fel benthyciad LOBO (*Lender's Option Borrower's Option*) lle mae gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodedig, a byddai gan yr Awdurdod wedyn y dewis o un ai derbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol. Nid oes dewis yn ystod 2014/15. Bydd y cyfanswm a fenthycir trwy fenthyciadau LOBO wedi'i gyfyngu i £16.2m.

4.8 Mae benthyciadau tymor byr a rhai â chyfradd llog amrywiol yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, a thrwy hynny'n destun i derfyn uchaf net cyfraddau llog amrywiol y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

4.9 **Aildrefnu Dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai banciau sy'n benthyg yn barod i drafod telerau adbrynu cynnar. Gall yr Awdurdod gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## 5. Y Strategaeth Fuddsoddi

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £48 a £81 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys balansau arian Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael ei pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a

gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2014/15 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014.

5.2 Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

5.3 Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian ac amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

<table>
<tr><th colspan="2">Gwrthbarti</th><th>Cyfyngiad arian</th><th>Cyfyngiad amser</th></tr>
<tr><td rowspan="7">Banciau a sefydliadau a chyrff gwarant eraill sydd â'u statws credyd tymor hir isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody's a Standard & Poor's fel a ganlyn:</td><td>AAA</td><td rowspan="7">£11m yr un</td><td>5 mlynedd*</td></tr>
<tr><td>AA+</td><td>5 mlynedd*</td></tr>
<tr><td>AA</td><td>4 blynedd*</td></tr>
<tr><td>AA-</td><td>3 blynedd*</td></tr>
<tr><td>A+</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td>A</td><td rowspan="2">Blwyddyn</td></tr>
<tr><td>A-</td></tr>
<tr><td colspan="2">Banc cyfrif cyfredol yr Awdurdod (Barclays Bank plc) os yw'n methu â chyrraedd y meini prawf uchod</td><td>£1m</td><td>y diwrnod nesaf</td></tr>
<tr><td colspan="2">Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth yw'r statws credyd)</td><td>anghyfyngedig</td><td>10 mlynedd**</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdurdodau Lleol y DU (waeth beth yw'r statws credyd)</td><td>£11m yr un</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig yn y DU sydd â statws credyd tymor hir isaf, wedi'i gyhoeddi, o A- neu uwch</td><td>£5m yr un</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymdeithasau Adeiladu yn y DU heb statws credyd</td><td>£1m yr un</td><td>Blwyddyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill</td><td>£6m yr un</td><td>am.</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="3">Unrhyw sefydliad arall, yn amodol ar asesiad credyd allanol a chyngor penodol gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod</td><td>£5m yr un</td><td>3 mis</td></tr>
<tr><td>£1m yr un</td><td>Blwyddyn</td></tr>
<tr><td>£100k yr un</td><td>5 mlynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol***</td><td>£3m yr un</td><td>10 mlynedd</td></tr>
</table>

* ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill
** ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill
*** Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.3 Nid oes unrhyw fwriad i gyfyngu buddsoddiadau i adneuon gyda'r banc, a byddwn yn gwneud buddsoddiadau o bosib gydag unrhyw sefydliad sector cyhoeddus neu breifat sy'n cwrdd â'r statws credyd uchod. Mae hyn yn adlewyrchu tebygolrwydd llai y bydd llywodraeth y DU a llywodraethau eraill yn cefnogi banciau sy'n methu wrth i'r darpariaethau '*bail-in*' yn y *Banking Reform Act 2014* a *Bank Recovery and Resolution Directive* yr UE gael eu gweithredu.

Ymhellach i hyn, gall yr Awdurdod fuddsoddi gyda sefydliadau a chronfeydd cyfunedig sydd heb statws credyd, yn dilyn asesiad credyd allanol a chyngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

5.4 **Banc Cyfrif Cyfredol**

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol a gynhaliwyd yn 2010, mae cyfrifon cyfredol yr Awdurdod yn cael eu dal gyda Barclays Bank plc – mae statws credyd y banc ar hyn o bryd uwchlaw'r statws A- gofynnol yn nhabl 2. Pe bai'r statws credyd yn disgyn islaw'r A-, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn parhau i adneuo arian dros ben gyda Barclays Bank plc cyn belled ag y gellir tynnu'r buddsoddiadau allan ar y diwrnod gwaith nesaf, a bod y banc yn cynnal statws credyd nad yw'n is na BBB- (y statws gradd buddsoddi isaf).

5.5 **Darparwyr Cofrestredig**

Mae Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig (a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai) yn cael eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau, ac maent yn debygol iawn o dderbyn cymorth gan y llywodraeth os oes angen. Bydd yr Awdurdod yn ystyried buddsoddi gyda Darparwyr Cofrestredig sydd heb statws, ond sydd â mesurau diogelwch credyd digonol, yn amodol ar dderbyn cyngor annibynnol.

5.6 **Cymdeithasau Adeiladu**

Mae'r Awdurdod yn cael sicrwydd ychwanegol o fframwaith rheoleiddio a rhaglen ansolfedd y cymdeithasau adeiladu, sy'n golygu yn y sefyllfa annhebygol bod cymdeithas adeiladu yn cael ei diddymu, byddai adneuon yr Awdurdod yn cael eu talu allan cyn adneuwyr adwerthol. Bydd yr Awdurdod felly'n ystyried buddsoddi gyda chymdeithasau adeiladu sydd heb statws credyd, lle mae dadansoddiad credyd

annibynnol yn dangos eu bod yn ddigon diogel. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i addasu rhaglen ansolfedd y cymdeithasau adeiladu ochr yn ochr â'i gynlluniau ar gyfer diwygio bancio ar raddfa eang, ac felly bydd buddsoddiadau gyda chymdeithasau adeiladu heb statws, neu rai â statws is, yn cael eu monitro'n barhaus.

5.7 **Cronfeydd Marchnad Arian**

Mae'r cronfeydd hyn yn gerbydau o fuddsoddiadau cronnus sy'n cynnwys adneuon gyda'r farchnad arian ac offerynnau tebyg. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u lledaenu'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael. Caiff ffioedd o rhwng 0.10% a 0.20% y flwyddyn eu tynnu o'r llog a delir i'r Awdurdod. Bydd cronfeydd sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac sy'n anelu at werth asedau net cyson yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau'r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod notis yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

5.8 **Sefydliadau Eraill**

Mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn buddsoddi arian gyda sefydliadau eraill hefyd, er enghraifft, trwy roi benthyciadau i fusnesau bach. Oherwydd yr ymddengys bod risg uwch gan fusnesau sydd heb statws credyd, gall buddsoddiadau o'r fath roi enillion sylweddol uwch. Fodd bynnag, defnyddir y rhain dim ond ar ôl derbyn asesiad credyd allanol ffafriol, ac ar gyngor penodol ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

5.9 **Cronfa Benthyciadau Lleol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl o Fuddsoddiadau Amhenodedig uchod, a byddant am gyfnod uchafswm o 10 mlynedd. Mae cyfanswm gwerth y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr wedi'u penodi, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

5.10 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio graddfeydd statws credyd tymor hir gan y tair prif asiantaeth sy'n graddio statws credyd, sef Fitch Ratings, Moody's Investors Service a Standard & Poor's Financial Services i asesu'r risg o fuddsoddiadau'n diffygdalu. Bydd y statws credyd isaf sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i bennu ansawdd credyd, oni bai bod statws buddsoddiad penodol ar gael. Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu

unrhyw newid yn y graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Os yw statws credyd corff penodol yn cael ei israddio fel nad yw'n cwrdd â'r meini prawf buddsoddi a gymeradwywyd, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws A- rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*" yn Saesneg) fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.11 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.12 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
    - Llywodraeth y DU,
    - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
    - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch.

5.12 **Buddsoddiadau Amhenodedig:** Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad dramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £30m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian | £35m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £7m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £7m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £50m |

5.13 **Cyfyngiadau Buddsoddi:** Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £48 miliwn ar 31 Mawrth 2014. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 23% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael un cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £11 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth neu grŵp o gronfeydd dan yr un rheolwyr yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon

enwebedig broceriaid (e.e. *King & Shaxson)*, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn:

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £11m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £11m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig gan yr un rheolwyr | £11m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £11m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £11m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £14m |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £14m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £7m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £35m |

5.14 **Offerynnau wedi'u Cymeradwyo:** Gall yr Awdurdod roi arian ar fenthyg, neu fuddsoddi arian gan ddefnyddio unrhyw un o'r offerynnau a ganlyn:

- cyfrifon banc sydd â llog,
- adneuon a benthyciadau cyfnod penodol,
- adneuon a benthyciadau y gellir eu hadalw, lle gall yr Awdurdod fynnu eu bod yn cael eu had-dalu ar unrhyw adeg (gyda neu heb rybudd),
- adneuon a benthyciadau y gellir eu hadalw, lle gall y sawl sydd wedi benthyg yr arian ei dalu'n ôl cyn i'r ddyled aeddfedu, ond yn amodol ar uchafswm o £7 miliwn i gyd,
- tystysgrifau adneuon,
- bondiau, nodiadau, biliau, papur masnachol ac offerynnau eraill gwerthadwy, a
- cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill.

Gellir gwneud buddsoddiadau un ai ar gyfradd llog sefydlog, neu ar gyfradd gyfnewidiol sy'n gysylltiedig â chyfradd llog y farchnad, megis LIBOR, yn amodol ar y cyfyngiadau ar gyfraddau llog y gellir eu defnyddio isod.

5.15 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

## 6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 6.1 Diogelwch

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

### 6.2 Hylifedd

Mae'r Awdurdod yn bwriadu mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol. Bydd y waelodlin yn cael ei sefydlu yn ystod 2014/15 a bydd y mesur newydd yn cael ei gyflwyno o 2015/16 ymlaen.

### 6.3 Risg Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheini lle mae'r gyfradd llog yr un fath dros y flwyddyn ariannol gyfan. Mae offerynnau sy'n aeddfedu yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu categoreiddio fel rhai cyfradd gyfnewidiol.

6.4 **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Uchaf | Isaf |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% |
| 50 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

6.5 **Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £30m | £20m | £10m |

## 7. Eitemau Eraill

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau (*Derivatives*) Ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi:** Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

7.5 **Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi:** O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn benthyca arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol yr Awdurdod o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £195 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

**Annex A – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2013**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Bydd twf yn parhau i gryfhau gyda'r ail amcangyfrif ar gyfer y twf yn Ch3 yn 0.8% (felly heb ei ddiwygio). Y sector gwasanaethau sy'n parhau i lywio'r twf fwyaf, gyda chyfraniad hefyd gan y sector adeiladu.
- Mae'r gyfradd diweithdra wedi disgyn i 7.6%. Bydd pa mor gyflym mae'r mesur hwn yn disgyn yn ddibynnol ar y gweithlu'n ehangu'n arafach nag y mae'r economi yn tyfu, ynghyd â graddau cynhyrchiant.
- Mae'r CPI ar gyfer Tachwedd wedi disgyn i 2.1%, safle llawer mwy cyfforddus ar gyfer y MPC. Disgwylir i gynnydd ym mhrisiau '*utilities*' gadw'r CPI uwchlaw'r targed o 2% yn 2014, cyn gostwng eto.
- Y prif fesur yng Nghanllaw'r Dyfodol y MPC ar gyfraddau llog yw cyfradd diweithdra Arolygon y Llafurlu (LFS). Mae'r MPC yn bwriadu peidio â chodi'r Gyfradd Banc o'i lefel presennol o 0.5% hyd nes bod y gyfradd hon wedi disgyn i drothwy o 7% o leiaf.
- Mae'r lleihad yn yr ansicrwydd ynghyd ag ystwytho amodau credyd wedi arwain at gynyddu'r galw, ac mae llawer o hyn wedi treiddio i'r farchnad dai. Mewn ymateb i bryderon ynghylch 'swigen prisiau tai', mae Banc Lloegr wedi cyhoeddi y bydd yn cwtogi'r Cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca (FLS), a fydd o hyn ymlaen yn canolbwyntio ar fenthyciadau i fusnesau yn unig.
- Bydd y MPC yn barod iawn i ddefnyddio teclynnau macro-ddarbodus a rheoleiddio i ymdrin â risgiau sy'n dod i'r fei (megis cwtogi'r FLS). Heb risgiau i un ai sefydlogrwydd prisiau neu sefydlogrwydd ariannol, ni fydd y MPC ond yn tynhau'r polisi pan fydd wedi'i argyhoeddi ynghylch cynaladwyedd tymor hir y twf economaidd.
- Disgwyliadau polisi ariannol y Gronfa Ffederal – bydd y raddfa prynu asedau'n arafu ('*tapering*') a bydd diwedd ar brynu asedau pellach – a bydd hyn yn parhau i lywio'r marchnadoedd ariannol. Bydd y raddfa prynu asedau'n dechrau arafu yn Ch1 2014. Bydd angen datrysiad i'r anghytundeb gwleidyddol yn y DU ynghylch y terfyn dyledion yn Ch1 2014.
- Mae'r mecanweithiau sydd gan yr UE mewn lle wedi lleihau'r risg o gwymp catastroffig ymysg yr holl wledydd. Mae'n bosib y bydd risgiau ac ansicrwydd gwleidyddol yn yr Eidal, Sbaen a Phortiwgal yn peryglu'r amgylchedd economaidd mymryn mwy sefydlog ar lefel gronnus Ardal yr Ewro (amheuon ynghylch hirhoedledd eu clymbleidiau). Mae'r ECB wedi trafod trydydd LTRO, wrth i amodau credyd aros yn heriol i fanciau Ewropeaidd.
- Mae data yn Tsieina wedi gweld gwelliant, gan leddfu pryderon y farchnad. Mae arweinwyr yn Tsieina wedi cyfeirio at dynhau eu polisi ariannol o bosib.

- Mae’r diwygio rheoleiddiol sy’n mynd rhagddo, a’r ffocws ar ailstrwythuro dyledion ‘bail-in’ yn debygol o barhau i ostwng y gyfradd ddyledion yn y sector banciau a chynnal y dagfa gredyd corfforaethol.

**Rhagolygon:**

- Mae ein llwybr arfaethedig ar gyfer cyfraddau llog tymor byr yn aros yn fflat. Mae’r marchnadoedd yn parhau i brisio i mewn cynnydd cynt yn y cyfraddau na’r hyn a warantwyd dan Ganllaw’r Dyfodol a’r cefndir economaidd ehangach. Ni fydd y MPC yn codi’r cyfraddau hyd nes ceir cyfnod parhaus o dwf cryf. Fodd bynnag, mae mwy o risg i’r cyfraddau godi ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg dan sylw.

- Rydym yn parhau i ddarogan y bydd enillion gilt yn cynyddu yn ystod y tymor canolig. Nid oedd y cynnydd diweddar mewn enillion yn edrych cystal yng nghyd-destun y rhagolygon sylfaenol byd-eang a’r risgiau ynghlwm ag Ardal yr Ewro, Tsieina a’r UD.

| | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | | | | | | | | | | | | | |
| 3-month LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.40 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.75 | 0.90 | 0.95 |
| Arlingclose Central Case | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.65 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 | 0.80 |
| Downside risk | | | 0.05 | 0.10 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | -0.35 | -0.35 | -0.35 |
| 1-yr LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.35 | 0.30 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.60 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 |
| Arlingclose Central Case | 0.90 | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 1.00 | 1.05 | 1.10 | 1.15 | 1.20 | 1.25 | 1.30 | 1.40 | 1.40 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.45 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 5-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 1.45 | 1.50 | 1.55 | 1.60 | 1.65 | 1.70 | 1.75 | 1.85 | 1.95 | 2.10 | 2.30 | 2.50 | 2.50 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 10-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.65 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 2.55 | 2.60 | 2.65 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.85 | 2.90 | 3.00 | 3.10 | 3.30 | 3.50 | 3.50 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 20-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.25 | 3.30 | 3.35 | 3.40 | 3.45 | 3.50 | 3.55 | 3.65 | 3.75 | 3.85 | 4.05 | 4.15 | 4.15 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.70 | -0.75 | -0.80 | -0.80 |
| 50-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.45 | 3.50 | 3.55 | 3.60 | 3.65 | 3.70 | 3.75 | 3.80 | 3.85 | 3.95 | 4.05 | 4.15 | 4.15 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.70 | -0.75 | -0.80 | -0.80 |

**Annex B – Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion**

| | **31.12.13**<br>**Portffolio Gwirioneddol**<br>**£m** | **31.12.13**<br>**Cyfradd Gyfartalog**<br>**%** |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:** | | |
| PWLB – Cyfradd Sefydlog | 95.4 | 6.11 |
| Benthyciadau LOBO | 16.2 | 4.23 |
| **Cyfanswm Dyledion Allanol Gros** | **111.6** | **5.84** |
| **Buddsoddiadau:** | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 52.2 | 0.56 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **52.2** | 0.56 |
| **Dyledion Net** | **59.4** | |

**ATODIAD B**

## RHESTR O WRTHBARTÏON SYDD YN CWRDD A'R MEINI PRAWF AR HYN O BRYD

| Gwlad | Gwrthbartïon | Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m | Uchafswm cyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim terfyn | Dim terfyn |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £30m (£30m) | 2 flynedd |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Close Brothers** | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Clydesdale Bank (National Australia Bank Group) **GOHIRWYD 28/09/11**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Goldman Sachs International Bank** | **£10m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Leeds Building Society** | **£1m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Y DU | Nationwide Building Society | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | **NatWest (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | **Royal Bank of Scotland (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Montreal | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Royal Bank of Canada | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Pohjola | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **BNP Paribas **GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole SA (Credit Agricole Group) ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Société Générale ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Almaen | **Landesbank Hessen-Thurnigen (Helaba)** | **£10m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | DBS Bank Ltd | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | United Overseas Bank (UOB) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Swistir | Credit Suisse | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| UDA | JP Morgan | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |

1. Mae terfyn o £18m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
2. Mae'r cyfyngiadau amser yn y rhestr uchod yn perthyn i adneuon cyfnod penodol. Mae offerynnau cyfnewidiadwy / masnachiadwy fel CD's gyda therfyn o 5 mlynedd. Mae'r cyfyngiadau amser argymhellir yn gyfredol yn sylweddol is na hyn, ond mae'r cyfyngiadau a amlinellir uchod yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i'r posibilrwydd o sefydlogiad neu welliant mewn amgylchiadau credyd ac economaidd yn 2013/14.
3. Gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd.  Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gellir cwtogi'r rhestr hon.

**Atodiad C – Dangosyddion Darbodus 2014/15**

## 1. Cefndir

Mae **Deddf Llywodraeth Leol 2003** yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

## 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel a gynlluniwyd fel hyn:

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **Diwygiedig 2013/14 £'000** | **Amcangyfrif 2014/15 £'000** | **Amcangyfrif 2015/16 £'000** | **Amcangyfrif 2016/17 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **41,223** | **35,610** | **25,574** | **22,379** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 702 | 1,192 | 1,680 | 230 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 19,193 | 12,774 | 8,111 | 8,022 |
| Refeniw | 11,173 | 9,499 | 4,049 | 2,059 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,166 | 4,122 | 4,122 | 4,122 |
| Benthyca Darbodus | 5,989 | 8,023 | 7,612 | 7,496 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **41,223** | **35,610** | **25,574** | **22,379** |

## 3. Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31.03.14 Diwygiedig £'000** | **31.03.15 Amcangyfrif £'000** | **31.03.16 Amcangyfrif £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR** | 168,430 | 173,714 | 178,437 | 182,813 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £14.383m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu'n uwch na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

4. **Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **31.03.14 Diwygiedig £'000** | **31.03.15 Amcangyfrif £'000** | **31.03.16 Amcangyfrif £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 112,469 | 111,267 | 131,267 | 129,500 |
| Lesoedd cyllid | 15 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **168,988** | **171,984** | **181,318** | **182,660** |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

5. **Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau eraill tymor hir yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Gyllid Breifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

| **Ffin Weithredol** | **Diwygiedig 2013/14 £'000** | **Amcangyfrif 2014/15 £m** | **Amcangyfrif 2015/16 £m** | **Amcangyfrif 2016/17 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 175,000 | 175,000 | 175,000 | 175,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **175,000** | **175,000** | **175,000** | **175,000** |

## 6. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Y Terfyn Awdurdodedig** | **Diwygiedig 2013/14 £'000** | **Amcangyfrif 2014/15 £m** | **Amcangyfrif 2015/16 £m** | **Amcangyfrif 2016/17 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 195,000 | 195,000 | 195,000 | 195,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **195,000** | **195,000** | **195,000** | **195,000** |

## 7. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **Diwygiedig 2013/14 %** | **Amcangyfrif 2014/15 %** | **Amcangyfrif 2015/16 %** | **Amcangyfrif 2016/17 %** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – o gymeryd cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor yn 14/15 ymlaen | **5.84** | **5.35** | **5.60** | **5.78** |
| Cronfa Gyffredinol -o gymeryd cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor yn 14/15 a wedyn 3.5% ymlaen | **5.84** | **5.34** | **5.59** | **5.78** |

## 8. Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf** | **Amcangyfrif 2014/15 £** | **Amcangyfrif 2015/16 £** | **Amcangyfrif 2016/17 £** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – cynnydd mewn Treth Gyngor band D blynyddol | **0** | **0** | **0** |

## 9. Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.

**Atodiad D – Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol 2014/15**

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2010.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

> Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff yr MRP ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008.
>
> Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff yr MRP ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff MRP ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff MRP ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
>
> Ar gyfer asedau a geir trwy lesoedd cyllid neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod yr MRP yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu'n erbyn y rhwymedigaeth ar y fantolen.
>
> Pan wneir benthyciadau i gyrff eraill ar gyfer eu gwariant cyfalaf, ni chodir MRP. Fodd bynnag, bydd y derbyniadau cyfalaf a grëir gan yr ad-daliadau blynyddol ar y benthyciadau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu dyledion.
>
> Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2014/15 yn destun ffi MRP hyd nes 2015/16.

Yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2014, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i osod ar £6.86m.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2014** |
| AWDUR | **TREVOR O EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn y Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2013:

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' ynghyd â'r gorwariant yn y maes gwastraff yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol –**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Michael Sol Owen, Gethin Glyn Williams, Bob Wright a Tom Ellis (os oedd ar gael).**

## 2. CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 22 Ionawr yn Ystafell Glyder Fach, gyda Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Michael Sol Owen a Bob Wright a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol.

2.2 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol. Felly, yn ogystal â thrafod adroddiadau archwilio mewnol oedd wedi derbyn barn 'C', rhoddwyd sylw gan y Gweithgor i wariant refeniw yn y maes Gwastraff, yn dilyn adroddiad y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor ar 3 Rhagfyr oedd yn rhagweld gorwariant net o £536k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.3 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 10 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2013, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Medi a 31 Hydref 2013. Derbyniodd 4 o'r adroddiadau hyn farn 'C', sef:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH |
|---|---|---|
| Y Drefn Gwynion Corfforaethol | Corfforaethol | |
| Porthladdoedd | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Taliadau Uniongyrchol | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Oedolion |
| Tocynnau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd |

2.4 Mynychodd yr Aelod Cabinet a'r Prif Swyddog perthnasol i drafod y gorwariant ar y gyllideb refeniw yn y maes Gwastraff, a'r swyddogion perthnasol i drafod y pedwar adroddiad archwiliad mewnol.

2.5 Yn ychwanegol, rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen ymgynghorol yr Archwilydd Cyffredinol ar God Ymarfer Archwilio a Datganiad Ymarfer.

## 3. ADOLYGIAD CYLLIDEB – GORWARIANT REFENIW YN Y MAES GWASTRAFF

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1. Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar adolygiad ail chwarter cyllideb refeniw 2013/14 i'r Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2013. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol. Mae hyn yn gyson â rolau statudol y Pwyllgor i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt, ac i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.

3.1.2. Nodwyd yn yr adroddiad fod yr adolygiad wedi amlygu'r rhagolwg o orwariant net o £536k ar gyllideb Gwastraff Priffyrdd a Bwrdeistrefol, ac fod pwysau ar gyllideb 2014/15. Yng nghyswllt y gorwariant yma, adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio bod adroddiad yn mynd gerbron Cabinet y Cyngor yn fuan yn edrych ar drawsnewid y dull o gasglu a gwaredu gwastraff gyda mwy o bwyslais ar ailgylchu, a bod camau wedi eu cymryd yn barod i gau safle Ffridd Rasus yn Harlech fel safle gwaredu.

3.1.3. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio hefyd fod holl adrannau'r Cyngor a'r Aelodau Cabinet wedi cael neges glir nad oes bwriad i ddigolledu adrannau am eu holl orwariant ar ddiwedd y flwyddyn, fel blynyddoedd blaenorol, oherwydd y setliad ariannol heriol ar gyfer 2014/15, a disgwylir gweld camau rheolaethol i leihau'r gorwariant yn ystod gweddill 2013/14.

3.1.4. Mynychodd y Cynghorydd Gareth Roberts, yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, a Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, er mwyn trafod yr hyn sydd ar waith er mwyn delio â'r sefyllfa ariannol yn y maes Gwastraff. Roedd William Jones, Uwch Reolwr Cyllid yno hefyd er mwyn cyflwyno'r eitem, cefnogi'r Gweithgor a chynnig arweiniad pellach. Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Pennaeth Cyllid gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

3.1.5. Cyfeiriwyd at sylwadau yr Adran Gyfan yn yr adolygiad 2il chwarter a gyflwynwyd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio:

*Erbyn hyn, rhagwelir bydd cyfanswm gorwariant net yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn £447k, sy'n ostyngiad o (£353k) ers y darlun chwarter cyntaf. Fel nodwyd yng Ngorffennaf, bu'n arferiad yn y gorffennol i'r Cabinet gymeradwyo cyllideb ychwanegol i'r Adran mewn amgylchiadau ble gwelir costau elifiant ychwanegol a gostyngiad mewn incwm breindaliadau. Yn ychwanegol, bu'n arferiad yn y gorffennol i gynorthwyo'r Adran ble gwelir colled grant penodol.*

*Yn yr amgylchiadau, pe byddai'r Cabinet yn dymuno parhau hefo'r drefniant yma, fe olygai cymeradwyo £306k o gyllideb ychwanegol i'r Adran, ac fyddai'n gostwng y sefyllfa gorwariant Adrannol i lawr i £141k. Eto, yn unol â'r drefn arferol, fe wneir argymhelliad penodol ar y mater yn hwyrach yn y flwyddyn.*

*Yn y cyfamser, mae'r Adran yn cymryd camau i geisio gostwng y gorwariant a ragwelir, ac fe adroddir ymhellach ar rhain yn y chwarter nesaf.*

*Amcangyfrifir fod effaith parhaol yr holl wahaniaethau uchod, ynghyd â newid mewn gofynion perthnasol, oddeutu £851k, sydd yn golygu pwysau ar gyllideb 2014/15.*

3.1.6. Hynny yw, oherwydd y sefyllfa ariannol, y disgwyliad erbyn hyn yw nad yw'r Cyngor yn "achub" adrannau bellach – mae angen iddynt ariannu gorwariant allan o'r cyllidebau eu hunain. Fodd bynnag, nodwyd gan yr Uwch Reolwr Cyllid fod yr Adran wedi gorfod dargyfeirio arian oedd i fod i ariannu'r gorwariant oherwydd y tywydd garw diweddar.

3.1.7. Eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol y prif resymau dros wariant net uwch na'r gyllideb fesul pennawd:

**3.2 Gwaredu Gwastraff**

3.2.1. Mae'r cyhoedd yn ailgylchu a chompostio llai na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn; nid yw'r gwastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi wedi lleihau cymaint a ddisgwyliwyd. Mae hyn yn cael effaith ddeublyg ar y Cyngor yn ariannol, gan fod rhai iddo dalu mwy o dreth tirlenwi yn ogystal â derbyn dirwy gan Lywodraeth Cymru am fethu targedau ailgylchu. Canlyniad hyn yw talu dros £100k yn fwy o dreth tirlenwi nag a ragwelwyd.

3.2.2. Gofynnwyd os oes rhai ardaloedd yn waeth na'i gilydd o safbwynt anfon gwastraff i dirlenwi. Ymateb y Pennaeth oedd fod Dwyfor yn well nag Arfon a Meirionnydd, ond fod hyn i'w ddisgwyl gan fod newidiadau yn cael eu cyflwyno yno gyntaf. Mae'r drefn wedi dechrau gwella ym Meirionnydd, ond mae Arfon yn araf yn newid ei arferion. Mae'r Adran yn y broses o annog gwelliant, gan gynnwys defnyddio holiadur i'r Cyhoedd, a cyhoeddi llyfrynnau gwybodaeth newydd.

**3.3 Safleoedd Trosglwyddo**

3.3.1. Adroddwyd gan y Pennaeth fod yr Adran yn dueddol o fod yn ofalus gyda contractau i werthu cynnyrch – nid ydynt yn cytuno i gontractau tymor hir gan fod y pris a dderbynnir am y cynnyrch mor newidiol (e.e. olew, papur, alwminiwm). Nodwyd fod safle Caergylchu, Caernarfon yn hunangynhaliol, ond nad yw'r incwm cystal â'r disgwyl. Mae prosiect buddsoddi mewn paneli solar PV ar do Caergylchu dan ystyriaeth ar hyn o bryd er mwyn lleihau costau trydan, a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r trydydd sector.

**3.4 Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**

3.4.1. Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn lleihad yn y Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy o £105k eleni oherwydd y wasgfa ariannol. Cafodd y Cyngor wybod am y lleihad yn y grant ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol; roedd yr Adran wedi rhagweld gostyngiad, ond ddim cymaint ag a gafwyd. Dywedodd yr Uwch Reolwr Cyllid fod unrhyw golled grant yn gwneud amgylchiadau'n anodd i'r Cyngor, ond pan fo'r Cyngor yn cael gwybod am y gostyngiad 2 neu 3 mis i mewn i'r flwyddyn, mae'r sefyllfa'n waeth gan fod cynlluniau eisoes yn eu lle.

3.4.2. Roedd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn awyddus i dynnu sylw'r Gweithgor i faterion eraill o dan y pennawd:

- **Costau ailgylchu coed**. Derbynnir dros 1,700 tunnell o goed yn flynyddol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na ellir cyfrif coed sy'n mynd i'w losgi mewn safleoedd biomas fel ailgylchu – nid yw llosgi yn "ailgylchu". Mae'r pwysau yma o goed yn golygu fod y Cyngor yn cael dirwy am fethu ei darged ailgylchu, sy'n cael ei osod ar sail pwysau. Gofynnwyd beth petai rhywun yn cymryd y pren gennym am ddim. Atebodd y Pennaeth fod angen trywydd archwilio i ddangos lle mae'r deunydd yn mynd cyn gellir ei gyfrif yn yr ystadegau ailgylchu, felly nid yw'r sefyllfa mor syml â hynny.

- **Coed a rwbel**. Gofynnwyd os yw'r coed yn dod gan fusnesau megis adeiladwyr bychain. Atebwyd fod rwbel yn achosi'r un math o sefyllfa – er mai gwastraff domestig y mae'r canolfannau i fod i'w derbyn, mae amheuaeth fod gwastraff masnachol yn cael ei adael yno hefyd. Gofynnwyd os oedd trefniadau yn y canolfannau ddigon cadarn ar hyn o bryd? Adroddwyd fod trefn wedi ei sefydlu lle mae gweithwyr y canolfannau yn cymryd rhifau cerbydau sy'n dod â gwastraff yno, ond yn y pendraw y pryder yw os byddai'r Cyngor yn rhwystro deunydd yr amheuir i fod gan adeiladwyr, gallai "flytipping" fynd yn waeth, ac mae hynny dan reolaeth yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

- **Ysguborion Stryd.** Dywedodd y Pennaeth fod y Cyngor yn ymchwilio i waith arloesol i ddelio ag ysguborion stryd trwy gwmni lleol. Mae'r Cyngor yn defnyddio peiriant gan gwmni lleol sydd yn glanhau ysguborion stryd (e.e. dail), gan wneud y deunydd yn addas i'w gompostio; mae hyn wedi ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddwyd fod y gallu i gompostio'r deunydd yma yn gwneud byd o les i'r targedau ailgylchu - mae'r Cyngor yn casglu 1,500 tunnell o ddail pob blwyddyn. Heb ei drin, ni fyddai'r dail yma yn cael ei gyfrif ar gyfer compostio gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn ei fod wedi ei lygru.

**3.5 Safleoedd Gwastraff**

3.5.1. Yn ôl y Pennaeth, dyma ydi'r maes o orwariant mwyaf. Mae tirlenwi yn dod i ben yng Ngwynedd, ond mae costau sylweddol yn deillio o elifiant yn dod allan o'r safleoedd, yn enwedig Ffridd Rasus. Mae'r deunydd yma yn cael ei gario mewn tanceri i Lannau Dyfrdwy i gael ei brosesu. Er mwyn rheoli costau, mae'r gytundeb i gario'r deunydd wedi bod allan i dendr yn ddiweddar. Oherwydd natur y gwaith i drin y deunydd mae costau sylweddol ynghlwm â fo. Wrth gau safle Ffridd Rasus ynghynt na'r cynllun, gellir capio'r safle. Er na fyddai hyn yn diddymu problem elifiant yn llwyr, bydd yn arwain at leihad sylweddol yn y costau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y bydd peth costau am nifer o flynyddoedd – ni ellir dweud fod y safle yn rhydd o unrhyw elifiant am 50 i 60 mlynedd.

3.5.2. Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Cyllid fod darpariaeth cyllidebol yn ei le i ddelio gyda'r elifiant, ond mae'r glaw trwm diweddar wedi gwaethygu'r sefyllfa.

3.5.3. Hefyd o fewn y gorwariant mae lleihad yn yr incwm breindaliadau o gasglu nwyon yn safle Cilgwyn i gynhyrchu trydan. Mae'r Cyngor wedi bod yn derbyn incwm ar sail faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu, ond mae cyfaint y nwyon sy'n cael eu casglu yn lleihau, fel y mae disgwyl iddo wneud. Mae'r cwmni sy'n defnyddio'r safle i gynhyrchu trydan wedi newid y peiriant oedd yno ganddynt i un llai. Gofynnwyd gan aelod onid oedd y cynnydd parhaus ym mhris trydan wedi arwain at well incwm? Atebodd y Pennaeth fod y Cyngor yn cael cyfran o unrhyw gynnydd yn raddfa ciwbig, ond roedd llawer llai o drydan yn cael ei gynhyrchu yno erbyn hyn.

**3.6 Beth ellir ei wneud am y peth?**

3.6.1. Yn y flwyddyn gyfredol, bydd safle Ffridd Rasus yn cau, gyda cwmni o Wrecsam yn derbyn gwastraff gweddillol Gwynedd. Ni fydd hyn yn cael effaith ariannol yn y flwyddyn yma, ond fe fydd yn y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal â'r arbediad refeniw, bydd arbediad cyfalaf hefyd, gan na fydd angen 2 gell newydd sydd wedi bod yn y rhaglen gyfalaf. Mae'r Cyngor mewn partneriaeth i ddelio â gwastraff bwyd a gardd, gyda gwastraff bwyd Gwynedd, Ynys Môn a Conwy yn dod i Wynedd.

3.6.2. Roedd y Pennaeth yn awyddus i bwysleisio fod y sefyllfa yma yn gallu dylanwadu ar yr Adran i gyd, gan arwain at ddal yn ôl ychydig ar y rhaglen waith Priffyrdd.

3.6.3. I waethygu'r sefyllfa, mae'r tywydd garw diweddar wedi achosi costau ychwanegol o oddeutu £150k i'r Adran.

3.6.4. Fel cam nesaf, bydd y Pennaeth yn adolygu'r unedau gwaith os oes angen.

3.6.5. Mae bidiau wedi cyflwyno am 2014/15 i geisio delio â'r diffyg grant, elifiant ayb, ond roedd y Pennaeth yn cydnabod na fyddai unrhyw fid yn llwyddiannus heb allu arddangos bwriad i drawsnewid busnes.

3.6.6. Yn ôl y Pennaeth, cynyddu'r gwastraff bwyd sy'n cael ei gompostio sydd am wneud gwahaniaeth, a dod â'r Cyngor yn ôl at y targed ailgylchu.

### 3.7 Lle bydd yr Adran yn y dyfodol?

3.7.1. Ym marn y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, bydd yr Adran wedi gweithredu newidiadau yn y maes gwastraff. Mae arbedion wedi eu gwneud yn barod, ond ddim cystal â'r targedau uchelgeisiol oedd wedi eu gosod. Nododd y Pennaeth ei fod wedi torri costau yn 9 o'r 10 blwyddyn ddiwethaf. Nodwyd pe na byddai'r bidiau yn llwyddiannus, bydd angen adolygu trefniadau casglu ymhellach, ac ystyried oriau agor y canolfannau casglu.

3.7.2. Roedd y Pennaeth o'r farn fod rôl i aelodau i gefnogi swyddogion. Nododd aelodau'r Gweithgor fod rhai ohonynt wedi mynychu gweithdai codi ymwybyddiaeth yn barod, gan ganmol yr ansawdd.

3.7.3. Nodwyd fod rhaglen waith yr Adran eleni wedi blaenoriaethu'r mannau hynny gafodd ddifrod yn y llifogydd yn Tachwedd 2012, ond bu difrod pellach eleni.

3.7.4. Gofynnwyd am y posibilrwydd o Lywodraeth Cymru yn talu am y gwaith brys oherwydd y tywydd garw. Esboniwyd gan yr Uwch Reolwr Cyllid nad oes disgwyl arian ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod trothwy o £472,000 y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wario ar weithgareddau perthnasol yn cyntaf, yna bydd yn derbyn cymorth o 85% o unrhyw wariant uwchben hynny.

**3.7.5. Roedd y Gweithgor yn ddiolchgar am yr wybodaeth gynhwysfawr a gyflwynwyd, a derbyniwyd fod yr Adran yn symud ymlaen i ddelio gyda'r sefyllfa er gwaethaf yr amgylchiadau hyn o heriol.**

## 4. ADRODDIADAU ARCHWILIAD MEWNOL

### 4.1 Y Drefn Gwynion Corfforaethol

4.1.1. Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn y polisi cyfredol mae tri cam - sef cwyn anffurfiol, cwyn ffurfiol (ymateb y gwasanaeth) ac yna yr adolygiad annibynnol (y Panel Cwynion sydd yn cynnwys y Swyddog Monitro ac un Prif Swyddog annibynnol). Fodd bynnag mae Grŵp Cwynion Cymru wedi cyflwyno cynigion ar gyfer polisi cwynion cyffredin i'w defnyddio gan Ddarparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Argymhellir gweithdrefn dau gam sef cam 1 - Datrys Anffurfiol ac yna Cam 2 - Ymchwilio mewnol ffurfiol gyda'r egwyddor o "Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda". Mae'r pwyslais felly ar ddatrys ar gam 1.*

*Nid yw rhai elfennau yn glir yn y polisi cyfredol e.e. y drefn ar gyfer achwynwyr o dan 18 mlwydd oed, neu ar gyfer cyflwyno cwyn ar ran unigolyn arall. Nid oes cyfeiriad yn y polisi bod yr un drefn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhain. Hefyd nid yw'r amser a roddir ar gyfer cydnabod cwyn yn gyson gyda chynigion 'Grŵp Cwynion Cymru'. Mae'n amlwg bod y drefn gwynion angen ei ddiweddaru ac efallai cyfleu rhai pwyntiau yn gliriach.*

*Nid oes gan staff rheng-flaen y Cyngor sydd yn delio â chwsmeriaid yn ddyddiol llawer o ymwybyddiaeth ynglŷn â chynnwys y polisi er eu bod ymwybodol o'r wefan a'r ffurflen cyflwyno cwyn electronig. Mynegir yn y Polisi Cwynion Enghreifftiol, Grŵp Cwynion Cymru y dylai staff rheng-flaen gael eu hyfforddi a'u hannog i ddarparu gwybodaeth briodol am gymorth cynghori ac eiriolaeth ar gam 1 o'r broses. Hefyd nid oes dogfennau addysgiadol ar gyfer gwneud/cyflwyno cwynion i'r cwsmeriaid mewn sefydliadau cyhoeddus y Cyngor e.e. Siopau Gwynedd. Yn dilyn adolygu'r polisi, dylai bod trefniadau ar gyfer hyrwyddo bodolaeth y weithdrefn.*

4.1.2. Croesawyd Siôn Huws, Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (Adran Democratiaeth a Chyfreithiol) i'r cyfarfod i drafod yr adroddiad.

4.1.3. Rhoddwyd yr adroddiad yn ei gyd-destun gan y Rheolwr. Nodwyd mai'r drefn gorfforaethol, nad oedd yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol (sydd â threfniadau ar wahân), a dderbyniodd sylw yn yr archwiliad yma.

4.1.4. Ar hyn o bryd mae 3 cam i'r broses o wneud cwyn. Os nad yw achwynydd yn hapus gyda canlyniad un cam, bydd y gwyn yn symud i'r cam nesaf:

- Cam 1: Cwyn Anffurfiol i'r swyddog (nid oes "uned gwynion" gorfforaethol – mae cyfrifoldeb i ymdrin â chwynion gyda'r adrannau).
- Cam 2: Cwyn ffurfiol, gyda'r adran berthnasol yn ymchwilio.
- Cam 3: Panel Cwynion, sef y Swyddog Monitro ac un pennaeth annibynnol arall.

4.1.5. Nodwyd fod Polisi Cwynion Cenedlaethol wedi ei gyhoeddi yn 2011, gyda'r bwriad o gael yr un model i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Nododd y Rheolwr fod y Cyngor am fabwysiadu hwnnw fel trefn gwynion newydd, gan anelu i'w sefydlu yn Ebrill. Bydd llawer o'r materion sydd yn wedi codi yn yr archwiliad yn cael eu datrys wrth gyflwyno'r drefn newydd.

4.1.6. Dau gam sydd yn y polisi cenedlaethol, sef cam anffurfiol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater yn y fan a'r lle, ac os nad yw hyn yn llwyddiannus bydd un cyfle sydd i ymchwilio yn drwyadl gan ddilyn yr egwyddor "Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda" ("*Investigate once, investigate well*"). Mae'n bwysig felly ymchwilio yn y ffordd fwyaf cymesur i natur y gwyn.

4.1.7. Nodwyd nad oes system ganolog i gofnodi cwynion ar hyn o bryd, ond fod yr Adran Gofal Cwsmer yn arwain ar y prosiect i roi sylw i hyn. Gall hyn olygu creu swydd newydd.

4.1.8. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn awyddus i bwysleisio pa mor bwysig fydd hyfforddiant i staff pan gyflwynir y Polisi newydd. Roedd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith yn cytuno ac eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu modiwl eddysgu gan roi sylw i:

- Sut mae'r drefn yn gweithio?
- Sut mae delio gydag achwynydd?

4.1.9. Roedd y Rheolwr yn cydnabod fod y prosiect o gyflwyno trefn newydd wedi llithro, fel sydd wedi ei amlygu yn yr adroddiad.

4.1.10. Gofynnwyd i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth os oes angen cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig. Eglurwyd fod angen i gwyn ffurfiol fod yn ysgrifenedig. Dan y drefn newydd ni fydd rhaid i gwyn ffurfiol fod yn ysgrifenedig. Serch hynny dylid ceisio ei chael yn ysgrifenedig, unai wrth yr achwynydd ei hun neu drwy gytuno crynodeb ysgrifenedig gydag ef/hi.

**4.1.11. Roedd y Gweithgor yn derbyn y byddai mabwysiadu'r Drefn Gwynion newydd yn delio â nifer o'r materion oedd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.**

### 4.2 Porthladdoedd

4.2.1. Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gwelwyd fod anfonebau yn cael eu prosesu'n gywir ac wedi eu cyfrifo a'u cyfeirebu'n gywir, ond ni chafodd rhai eu talu o fewn y nifer o ddyddiau yn unol â pholisi'r Cyngor. Adnabuwyd gwendidau yn y broses codi ffioedd ar gwsmeriaid a'r broses o dderbyn a bancio incwm. Yn ogystal, adnabuwyd gwendidau ar yr agwedd iechyd a diogelwch yn y porthladdoedd gydag asesiadau risg a chofnodion gwiriadau offer diogelwch ddim yn cael eu cadw'n gyfredol. Amlygwyd nifer o wendidau yn nhrefniadau gwerthu disel coch i gwsmeriaid, ac nid oedd modd i'r archwiliwr cysoni pryniant, gwerthiant a stoc disel coch o'r cofnodion a dderbyniwyd yn ystod yr archwiliad.*

4.2.2. Mynychodd Llyr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig) y cyfarfod.

4.2.3. Eglurwyd fod yr Adran wedi adnabod Porthladdoedd fel maes o risg uchel, ac wrth lunio cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn yma, roedd yr adran yn awyddus i Archwilio Mewnol roi blaenoriaeth i'r maes.

4.2.4. Roedd yr adroddiad archwilio yn cynnwys 34 o argymhellion. Rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhellion yma fesul pennawd yn yr adroddiad:

***Talu Anfonebau***

4.2.5. Nodwyd fod materion logisteg yn gallu achosi problemau ar adegau wrth geisio cwrdd â thargedau talu anfonebau corfforaethol.

***Derbyn manylion a ffioedd***

4.2.6. Gofynnwyd i'r swyddogion beth ydi'r drefn sy'n cael ei ddilyn petai perchennog cwch yn peidio talu am angorfa. Y cam cyntaf ydi ceisio cael y perchennog i dalu yn llawn ymlaen llaw. Fodd bynnag, os oes cwch yn aros yn yr harbwr a'r angorfa heb ei dalu amdano yna rhaid meintoli'r gost o'i dynnu o'r dŵr (a'r risgiau sydd ynghlwm â hynny) yn erbyn yr incwm sy'n cael ei golli. Dywedodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod hwn yn enghraifft dda o geisio mantoli risgiau gwrthgyferbyniol.

4.2.7. Dywedodd y swyddogion o Economi a Chymuned fod yr Adran Gyllid yn anfon rhestr o ddyledwyr i'r Adran sydd o gymorth i sicrhau fod unigolion yn talu'n brydlon. Nodwyd fod y cyhoedd yn lansio cychod heb ganiatâd mewn rhai llefydd.

***Codi anfonebau***

4.2.8. Adroddwyd fod y Gwasanaeth yn ceisio sicrhau fod ffurflenni cofrestru yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor erbyn mis Mawrth, gyda'r bwriad o'u gweinyddu ym mis Ebrill fel bod incwm yr anfoneb yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol gywir. Roedd y swyddogion yn cydnabod nad oedd anfonebau 2013 wedi eu codi tan fis Mehefin, ac maent yn gweithio gyda'r Uned Technoleg Gwybodaeth er mwyn cael trefn i brosesu'r anfonebau yn electronig.

***Derbyn a Bancio Arian***

4.2.9. Nododd y swyddogion eu bod wedi cyfarwyddo staff i fancio arian unwaith yr wythnos.

***Gwerthiant Disel Coch***

4.2.10. Trafodwyd y rheolau ynglŷn â disel coch, a pryd gellid ei ddefnyddio. Gellir ei ddefnyddio yn gyfreithlon i gynhesu'r gwch yn unig, ond ddim i bweru'r cychod i fynd allan i'r môr. Fel y nodwyd yn yr adroddiad archwilio, mae angen i berchnogion cychod ddatgan pa % o'r disel coch a brynir sydd ar gyfer cynhesu, a faint sydd at bwrpasau morwrol. Cyfrifoldeb perchnogion y cychod ydi rhoi'r wybodaeth gywir i'r Cyngor.

4.2.11. Nodwyd yn yr adroddiad hefyd fod yr archwiliwr wedi nodi nad oedd modd cysoni'r disel oedd mewn stoc gyda'r hyn oedd i fod yno. Nododd y swyddogion fod peth o'r amryfusedd yn deillio o fethiant gan swyddogion yn yr porthladdoedd i drosglwyddo ffigyrau'n gywir i ffurflenni. Roedd y Gweithgor yn cytuno ei fod yn allweddol cael gwybodaeth ar bapur yn y porthladdoedd, fel bod trywydd archwilio priodol yn ei le.

***Iechyd a Diogelwch***

4.2.12. Roedd 10 argymhelliad yn yr archwiliad am y pwynt yma. Roedd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn cwestiynu rhai o'r ymatebion oedd wedi eu rhoi i'r archwiliwr gan swyddogion yn y Porthladdoedd. Roedd yn ei gael yn anodd i amgyffred nad oedd Harbwrfeistri wedi cael cyfarwyddid ynglŷn â Iechyd a Diogelwch – mae profiadau'r gorffennol yn golygu fod y gwasanaeth wedi mynd trwy ormod i beidio hyfforddi staff am Iechyd a Diogelwch a pheidio cymryd y maes yma o ddifrif.

**Gweithredu'r Argymhellion**

4.2.13. Nododd yr swyddogion fod y gwasanaeth wedi gosod yr argymhellion i mewn i 3 categori:

- Argymhellion lle mae angen atgoffa staff
- Argymhellion lle mae angen sicrhau fod gweithdrefn yn cael ei ddilyn
- Argymhellion lle mae angen gosod trefniadau newydd i wella rheolaeth.

4.2.14. Ers yr adroddiad yma, mae'r gwasanaeth wedi ailedrych ar strwythur y gwasanaeth er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel rheolwr. Mae hyn wedi golygu ailgyfeirio adnoddau.

**4.2.15. Roedd y Gweithgor yn ddiolchgar i'r swyddogion am eu hatebion parod, ac wedi ei argyhoeddi y bydd y Gwasanaeth Morwrol yn rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn delio â'r materion oedd wedi eu codi yn yr adroddiad archwilio.**

**4.3 Tocynnau Teithio Rhad - Taliadau i Gwmnïau Bysiau**

4.3.1. Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Y prif ddarganfyddiad sy'n deillio o'r archwiliad yma yw'r ffaith na ellir rhoi sicrwydd ar gywirdeb y taliadau misol i gwmnïau bysus o fewn Gwynedd, fel rhan o gynllun teithio am ddim i bobl dros 60 oed a phobl anabl, oherwydd bod y taliadau yn seiliedig ar ffigyrau a gyfrifwyd ym mis Medi 2009, ble nad oes tystiolaeth ddigonol yn bodoli i'w cefnogi. Mae'n ymddangos bod diffyg gwiriadau ar y ceisiadau misol wedi arwain at daliadau anghywir yn y gorffennol, yn enwedig ble mae siwrneiau yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gwelwyd fod y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd wedi cymryd camau priodol i adnabod y gwendidau a chryfhau'r rheolaethau mewnol sy'n rhan o'r broses gwirio a thalu ceisiadau.*

4.3.2. Mynychodd Dawn Sinclair (Arweinydd Tîm Contractau) a Ceri Hughes (Swyddog Contractau) ar ran y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd. Nodwyd fod y swyddogion yn derbyn y 4 argymhelliad.

4.3.3. Rhoddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg gefndir i'r archwiliad, gan egluro fod 3 ffactor tu ôl i'r penderfyniad i edrych i mewn i'r maes yma:

- Roedd y gwasanaeth yn ymddangos yn uchel yn y rhestr o archwiliadau i'w cynnal ar sail asesiad risg.
- Bu digwyddiad rhai misoedd yn ôl, a gafodd gryn sylw ar y pryd, lle roedd swyddog wedi anfon gwybodaeth am brisiau'r holl gwmnïoedd bysiau i un cwmni ar ddamwain
- Roedd yr adran wedi gofyn i Archwilio edrych ar agwedd penodol arall oherwydd problem oedd wedi codi gyda gweinyddiaeth cymorthdaliadau i rai cwmnïoedd.

4.3.4. Nodwyd fod y Cyngor wedi adnabod rhai camau y gellid eu gweithredu, ond gan fod rhai o'r trefniadau yn rhai ar draws Cymru, byddai angen newid trefniadau ar draws Cymru gyfan. Un o'r materion hyn oedd fod cymorthdaliadau yn seiliedig ar brisiau Medi 2009 – roedd yr archwiliad wedi awgrymu y byddai'n amserol cynnal ymarferiad arall er mwyn diweddaru'r ffigyrau.

**4.3.5. Rhoddwyd sicrwydd i'r Gweithgor gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn fodlon fod y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn cymryd y materion sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad o ddifrif, gan ddarganfod nifer o'r materion oedd angen sylw eu hunain.**

### 4.4 Taliadau Uniongyrchol

4.4.1. Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol sef bod gan bob defnyddiwr gwasanaeth gytundeb mewn lle ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelir bod angen cael trefniadau pendant mewn lle ar gyfer cynhyrchu a chymeradwyo polisi a chanllawiau ar gyfer y gwasanaeth. Hefyd, gwelir bod angen derbyn mwy o wybodaeth a manylder ynglŷn â gwariant y defnyddwyr gwasanaeth yn enwedig costau gweithwyr. Gwelir bod un achos wedi codi lle nad oedd y defnyddiwr gwasanaeth yn cyfrannu yn bersonol tuag at y gwasanaeth fel y dylid yn unol â'r Polisi Codi Tal. O ganlyniad, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.*

4.4.2. Mynychodd Aled Evans (Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad a Newid), Rhian Wyn Powell (Cyd Drefnydd Taliadau Uniongyrchol) a Carys Archer (Rheolwr Contractau) ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.4.3. Nodwyd mai egwyddor taliadau uniongyrchol ydi grymuso unigolion a caniatáu iddynt gael elfen o annibyniaeth wrth ddewis eu gofal. Mae'r egwyddor o safbwynt y gofal a roddir yn gyson â'r hen drefn, sef asesu person a diwallu eu anghenion.

4.4.4. Nodwyd fod modd i unigolyn ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaeth gan gyflenwr, neu gellir cyflogi person fel cymhorthydd personol. Fodd bynnag, os cyflogir unigolyn rhaid talu graddfa safonol iddynt. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, o safbwynt cyflogi aelod o'r teulu, mae'r rheolau wedi llacio rhywfaint ond gellir ond cyflogi aelod o'r teulu mewn amgylchiadau arbennig.

4.4.5. Adroddwyd gan y swyddogion fod monitro misol yn digwydd, gyda'r angen i unigolion anfon trafodion ariannol i mewn er mwyn eu gwirio. Nodwyd hefyd fod gwasanaeth sy'n annibynnol o'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth i unigolion.

4.4.6. O safbwynt rhai o'r prif wendidau a nodwyd yr adroddiad, sef diffyg canllawiau, adroddwyd gan y swyddogion fod y canllawiau a gweithdrefnau wedi eu haddasu llynedd, ond fod rhai o'r defnyddwyr yn anhapus gyda nhw ac wedi rhwystro eu gweithrediad. Adroddwyd fod Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu, gyda'r Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad a Newid yn ei arwain. Bwriedir ail ymgysylltu, edrych ar ymarfer da mewn llefydd eraill, a cyfathrebu ac ymgynghori gydag unigolion perthnasol.

4.4.7. Nodwyd y byddai hyn yn cymryd rhai misoedd i'w gyflawni.

4.4.8. Dywedodd y swyddogion fod y mwyafrif o unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn deall mai arian cyhoeddus ydi o, wedi ei roi ar gyfer gofal, ond fod rhai sy'n ei dderbyn yn dehongli'r sefyllfa yn wahanol, gan ddadlau fod ganddynt fwy o ryddid wrth ei ddefnyddio. Adroddwyd i'r Gweithgor fod taliadau uniongyrchol yn cael eu hatal os oes gormod o arian wedi cronni.

4.4.9. Roedd y swyddogion yn cytuno gydag argymhellion yr adroddiad, gan nodi mai'r hyn y maent eisiau ei gael allan ohono ydi penderfyniad gan y Cyngor ynglŷn ag i ba lefel y mae am fynd o ran tryloywder a pa mor hyblyg y mae am fod wrth weinyddu taliadau uniongyrchol. Nodwyd hefyd fod angen mwy o ffocws mewn cynlluniau gofal.

4.4.10. Rhoddwyd sylw i ddau argymhelliad yn benodol:

4.4.11. ***Argymhelliad A06: Dylid gwneud ymarferiad monitro yn ystod un mis yn flynyddol sy'n sicrhau bod asesiad ariannol blynyddol wedi ei dderbyn i bob achos. Mewn achosion lle nad oes, mae angen cysylltu â'r Uned Polisi Codi Tâl a sicrhau fod hwn wedi ei dderbyn yn brydlon.*** Adroddwyd fod y drefn yma wedi ei sefydlu erbyn hyn.

4.4.12. ***Argymhelliad A03: Er mwyn sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn y gofal / gwasanaeth angenrheidiol mae angen sicrhau bod asesiad blynyddol yn cael ei gwblhau a thystiolaeth o hyn drwy gynllun gofal blynyddol.*** Nodwyd fod hyn yn hanfodol, ond tu allan i gylch gwaith Taliadau Uniongyrchol. Mae hwn yn fater i Gwasanaethau Cymdeithasol yn ehangach, ac mae lle i wella perfformiad yn y maes yma. Nodwyd, o gael rhain yn iawn, bydd nifer o'r materion eraill sydd wedi codi yn yr adroddiad yn cael eu datrys hefyd.

4.4.13. Gofynnwyd i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg os byddai'n fodlon i un o swyddogion Archwilio Mewnol fynychu cyfarfodydd y Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn cynghori. Nid oedd gan yr Uwch Reolwr wrthwynebiad i hynny.

**4.4.14. Ar sail y drafodaeth, roedd y Gweithgor yn fodlon fod camau am gael eu cymryd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn delio â'r materion a godwyd yn yr adroddiad Archwiliad Mewnol, ac fod yr Adran yn derbyn fod y maes yma angen sylw.**

## 5. YMGYNGHORIAD AR GOD YMARFER ARCHWILIO A DATGANIAD YMARFER

5.1 Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghoriad ar God Ymarfer Archwilio a Datganiad o Arfer diwygiedig sy'n ymwneud â gwaith archwilio, asesu ac arolygu arbennig ar gyfer gwella llywodraeth leol. Mae'r newidiadau hyn yn ymateb i ofynion cyfreithiol newydd, yn ogystal â blaenoriaethau strategol yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru dros y tair blynedd nesaf.

5.2 Bydd y dogfennau newydd yma yn gosod set sylfaenol o egwyddorion ar gyfer y rhai sy'n gwneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymgymryd â'r holl waith yma ar gyfer Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd.

5.3 Yn y ddogfen ymgynghorol, gofynnwyd chwe cwestiwn i'r rhai â diddordeb. Y cwestiynau hynny, ac ymateb y Cyngor iddynt, oedd:

| Cwestiwn | Ateb (Ydw / Nac Ydw) | Sylwadau Eglurhaol |
|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno â'r pum egwyddor a ddylai fod yn sail i'n gwaith archwilio, yn ein barn ni? | Ydw | |
| A ydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod Cyffredinol arfaethedig sy'n rhagnodi'r ffordd y dylai archwilwyr gynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol? | Ydw | Mae'n hanfodol fod gan archwilwyr sgiliau iaith Cymraeg a Saesneg er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o ran gwaith maes ac adrodd. |
| A ydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod Penodol sy'n nodi ymhellach sut y dylai archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gyflawni gwaith archwilio? | Ydw | |
| A ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig Atodlen 1 y Cod hwn, sy'n nodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau penodol eraill? | | Dim sylwad. |
| A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o archwilio cyrff bach a nodir yn Atodlen 2? | Ydw | Rydym yn cytuno gydag Atodlen 2, ond yn credu ar hyn o bryd rhoddir sylw anghymesur i gyrff bach, megis cyd-bwyllgorau, sy'n cael eu lletya / arwain gan gynghorau sir. |
| A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o gyflawni swyddogaethau asesu, archwilio ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol a ddisgrifir yn y Datganiad Ymarfer drafft? | Ydw | Ni ellir anghytuno gyda'r egwyddorion yn y Datganiad, sef canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy. Efallai y byddai 'gwerthfawrogi gwahaniaethau' yn un i'w ychwanegu. Mae'n anodd gweld sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfiawnhau fod arolygydd cyswllt Cyngor Gwynedd, ac eraill sy'n ymdrin â ni, yn ddi-Gymraeg. Mae'r Cyngor yn rheolaidd yn ymateb i geisiadau am fersiynau Saesneg o ddogfennau mewnol sydd ond yn bodoli yn y Gymraeg. Rydym yn ymwybodol hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio'u hadnoddau er mwyn cyfieithu rhai dogfennau er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau. |

**5.4 Rhoddwyd ystyriaeth i ymateb drafft ar ran Cyngor Gwynedd gan y Gweithgor cyn yr oedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 31 Ionawr 2014. Roedd y Gweithgor yn fodlon gyda'r ymateb oedd wedi ei baratoi yn enw'r Pennaeth Cyllid, sydd wedi eu cynnwys yn y tabl.**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2013/14 –<br>ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2013)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb yr ail chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2013, a bu ystyriaeth ddilynol yn y Gweithgor ar 22 Ionawr (gweler yr eitem flaenorol).

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb trydydd chwarter, yn weddol gyson gyda'r hyn adroddwyd eisoes (gweler Atodiad 1).

**3.** Fodd bynnag, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 18 Chwefror o'r Cabinet.

**4.** Bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
18 CHWEFROR 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD 3ydd CHWARTER (rhagolygon 2013/14 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2013)

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR / PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 **Derbyn yr wybodaeth am sefyllfa cyllideb 2013/14** wedi'r adolygiad trydydd chwarter gan nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf cyllidebau pob adran a chymryd y camau priodol canlynol i reoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol.

1.2 **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden (Darparu a Hamdden) -** Dyrannu £150k o gyllideb ychwanegol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden ar sail unwaith ac am byth, gan fod gorwariant ar staff cartrefi preswyl oherwydd proses apêl cyflogaeth barhaus sydd tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Darparu.

1.3 **Priffyrdd a Bwrdeistrefol -** Wedi trafod gorwariant yn y maes Gwastraff eisoes yn y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio, dyrannu £311k o gyllideb ychwanegol i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar sail unwaith ac am byth (cyfanswm sy'n cyfateb i werth colled grant, cost elifiant a cholled incwm breindaliadau trydan).

1.4 **Cyllidebau Corfforaethol -** Rhyddhau £461k o'r tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol er mwyn ariannu'r dyraniadau cyllideb ychwanegol uchod ar sail unwaith ac am byth.

---

## 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Yn **Atodiad 1**, cyflwynir crynhoad gyda rhagolygon o sefyllfa derfynol cyllideb refeniw pob Adran am 2013/14 ar sail yr adolygiad trydydd chwarter.

2.3 Cyflwynwyd adroddiad adolygiad ail chwarter i'r Cabinet ar 26 Tachwedd 2013, ac fe welir o Atodiad 1 y newidiadau ar lefel adrannol rhwng y rhagolygon cyflwynwyd yn Nhachwedd a'r rhagolygon diweddaraf cyflwynir yn yr adroddiad gerbron heddiw.

2.4 Tra mae'r rhagolygon yn ymddangos yn gyffredinol gyson ar lefel yr adrannau, mae sefyllfa ariannol rhai gweithgareddau a gwasanaethau o fewn adrannau wedi newid.

2.5 Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd â'r argymhellion uchod yn eu cyd-destun.

2.6 Adroddwyd yn Nhachwedd 2013 ar yr Adolygiad Ail Chwarter fod sefyllfa'r adrannau, yn gyffredinol, yn sefydlog eleni, heblaw am y cyllidebau canlynol (mae'r £ isod yn **amcangyfrif diweddaraf** o orwariant net 2013/14):

2.7 **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden (Darparu a Hamdden) – Staff Cartrefi Preswyl £285k** (tudalen 7) **a Gwerthiannau Hamdden £98k** (tudalen 7)
Gan fod sefyllfa staff y cartrefi preswyl tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Darparu, argymhellir cyfraniad £150k rŵan o'r tanwariant corfforaethol.

2.8 **Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwastraff £664k** (tudalen 24)
Gan fu ymdrech glodwiw gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gyfarch y diffyg ac isafu'r problemau yn Gwastraff, argymhellir cyfraniad £311k o'r tanwariant corfforaethol rŵan.

2.9 **Addysg – Diswyddo ac Ymddeol Cynnar mewn Ysgolion £289k** (tudalen 11)
Mae gan yr Adran Addysg ddarpariaeth mewn cronfa benodol i gwrdd â hyn.

2.10 **Cyllidebau Corfforaethol** - Yn gwrthbwyso'r pryderon uchod, mae peth hyblygrwydd ar gyllidebau corfforaethol eleni, yn bennaf oherwydd incwm uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol ar Dreth Cyngor (£810k) ac ad-daliad o'r buddsoddiad Banc Heritable (£221k).

2.11 Felly, cyflwynir tair argymhelliad i ymateb i'r sefyllfa (gweler y penderfyniadau arfaethedig yn 1.2 – 1.4 uchod).

2.12 Fodd bynnag, fel a fynegwyd yn y Cabinet yn ei gyfarfod 26 Tachwedd, 2013, yn wyneb y sefyllfa ariannol heriol, bydd gan y Cyngor llawer llai o hyblygrwydd yn y dyfodol i ddefnyddio adnoddau corfforaethol i ddigolledu adrannau mewn amgylchiadau tebyg i hyn, felly bydd raid i adrannau unigol gynllunio i fyw o fewn modd ei hunain.

## 3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

3.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno'r adroddiad 'alldro' dilynol i'r Cabinet ffurfiol ym mis Mehefin er mwyn cytuno ar sefyllfa derfynol 2013/14 ac unrhyw drosglwyddiadau pellach.

---

**BARN YR AELOD LLEOL**
Dim yn berthnasol

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu at gynnwys yr adroddiad heblaw i dynnu sylw at rybudd y Pennaeth Cyllid y bydd capasiti'r Cyngor yn gorfforaethol i gynorthwyo adrannau gydag anawsterau, fel y rhai sydd yn cael eu nodi yn yr adroddiad, yn sylweddol llai yn y dyfodol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**ATODIADAU**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa'r Adrannau (£ gor/tan-wariant)
Atodiad 2 – Manylion o'r prif faterion a gwahaniaethau (£)

**Atodiad 1**

## Cyllideb Refeniw 2013/14 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Trydydd Chwarter | | | Ffigyrau Cymharol |
|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2013/14 £ '000 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Net £ '000 | Gor / (Tan) Wariant Net yr Adolygiad Ail Chwarter £ '000 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | **510** | **(150)** | **360** | 450 |
| **Addysg** | **283** | **0** | **283** | 89 |
| **Economi a Chymuned** | **33** | **0** | **33** | 74 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **636** | **(311)** | **325** | 447 |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | **(16)** | **0** | **(16)** | (35) |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(97)** | **0** | **(97)** | 11 |
| **Adnoddau Dynol** | **(3)** | **0** | **(3)** | (7) |
| **Cyllid** | **(16)** | **0** | **(16)** | (23) |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | **28** | **0** | **28** | 38 |
| **Gofal Cwsmer** | **(31)** | **0** | **(31)** | (26) |
| **Strategol a Gwella** | **(83)** | **0** | **(83)** | (93) |
| **Tim Rheoli Corfforaethol** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | **(815)** | **461** | **(354)** | (555) |
| **Cyfansymiau (net)** | **429** | **0** | **429** | 370 |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Gwasanaeth Gweithredol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **1,710** | **1,774** | **1,837** | **63** | | **63** | **84** |

Gostyngiad o (£21k) ar y gorwariant blaenorol, yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Gwasanaethau Cefnogol Plant** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **7,709** | **7,712** | **7,398** | **(314)** | | **(314)** | **(193)** |

Ers yr ail chwarter bu cynnydd o (£121k) yn y sefyllfa tanwariant a ragwelir, yn bennaf oherwydd tanwariant pellach o (£60k) ar Leoliadau All-Sirol (i fyny i (£206k) o ganlyniad i leihad yn y pwysau ar y gwasanaeth), a thanwariant o (£60k) ar Maethu a Mabwysiadu Arall (symudiad (£71k) o'r gorwariant £11k a ragwelwyd yn flaenorol).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

**Maes:-** **Gwasanaeth Ôl-16**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **960** | **959** | **1,070** | **111** | | **111** | **108** |

Mân gynnydd o £3k o'r rhagolygon gorwariant blaenorol. Sefyllfa sydd oherwydd nifer o achosion gydag anghenion cefnogaeth llawer uwch nac arfer.

**Maes:-** **Eraill (Plant a Theuluoedd)**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,675** | **3,673** | **3,717** | **44** | | **44** | **6** |

Cynnydd o £38k yn y gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, yn bennaf oherwydd gwariant £27k uwch ar gostau staffio Gwasanaethau Arbenigol, a gwariant £10k uwch (i fyny i £53k) ar wasanaethau eraill, yn bennaf oherwydd ffioedd llys uwch.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaethau Pobl Hŷn**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **18,602** | **18,843** | **18,999** | **156** | | **156** | **156** |

Mae'r sefyllfa gorwariant o £156k a ragwelwyd yn flaenorol yn parhau, ond o fewn hyn, bu newid ar sawl pennawd, ac yn arbennig, gorwariant net o £319k ar Preswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol (sef cynnydd net o £131k) oherwydd nifer o achosion newydd, tanwariant net o (£164k) ar Gofal Cartref (cynnydd net o (£95k)), a thanwariant o (£30k) ar Gymorthion ac Addasiadau yn dilyn arbedion mewn costau trefniadau prynu.

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Corff**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,967** | **1,967** | **1,965** | **(2)** | | **(2)** | **(113)** |

Ers yr adolygiad ail chwarter, bu lleihad £111k o'r sefyllfa tanwariant a ragwelwyd, yn bennaf oherwydd effaith achosion newydd ar Preswyl a Nyrsio (£36k ychwanegol), Llety Cefnogol (£39k ychwanegol), a Gofal Cartref (£26k ychwanegol).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

| Maes:- Gwasanaethau Anabledd Dysgu | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **12,822** | **12,979** | **13,179** | **200** | | **200** | **121** |

Cynnydd £79k o'r gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Sefyllfa sy'n cynnwys gwariant £77k uwch ar Wasanaethau Dydd (i fyny i orwariant o £193k).
Eisoes fe gyflwynwyd bid ar gyfer y gofynion parhaol ychwanegol o £405k erbyn 2014/15, ond o'r darlun diweddaraf, amcangyfrifir y gallai'r gofyn yma fod yn sylweddol uwch mewn blwyddyn lawn.

| Maes:- Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **3,309** | **3,306** | **3,251** | **(55)** | | **(55)** | **(52)** |

Mân gynnydd (£3k) o'r tanwariant blaenorol, yn cynnwys gorwariant £102k ar Preswyl a Nyrsio, (cynnydd o £16k), tanwariant (£88k) ar Llety Cefnogol (cynnydd o (£10k)), a thanwariant (£65k) ar Cefnogaeth a Chynlluniau Eraill (cynnydd o (£24k)).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Oedolion)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,979** | **3,019** | **3,009** | **(10)** | | **(10)** | **1** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Tai**

**Maes:-** **Digartrefedd**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **729** | **733** | **743** | **10** | | **10** | **(3)** |

Newid o £13k yn unig yn y sefyllfa net, sy'n cynnwys tanwariant o (£19k) ar Lety Dros-Dro, gorwariant o £10k ar Gynllun Lesu Tai, a gorwariant o £32k ar Hosteli, yn dilyn gostyngiad mewn incwm rhent.

**Maes:-** **Eraill (Tai)**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,790** | **3,841** | **3,819** | **(22)** | | **(22)** | **1** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **105** | **430** | **325** | **(150)** | **175** | **302** |

Cynnydd £23k o'r gorwariant blaenorol, yn cynnwys gorwariant o £285k ar Gofal Preswyl, ac yn arbennig costau staffio ychwanegol sylweddol oherwydd achosion o apêl cyflogaeth.  Adolygir y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, pryd gallasai fod yn briodol i'r Cabinet ddarparu cefnogaeth ariannol i'r Adran.
Yn ychwanegol o dan y pennawd yma, fe welir tanwariant o (£36k) ar Gofal Dydd, gorwariant o £56k ar Gofal Cymunedol, a gorwariant o £20k ar Lety Cefnogol.

Gan fod sefyllfa gorwariant yr Adran yn rhannol oherwydd proses apêl cyflogaeth sy'n mynd ymlaen, a thrwy hynny felly, tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Darparu, **argymhellir** fod £150k o gyllideb ychwanegol yn cael ei ryddhau i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden ar sail unwaith ac am byth, i'w ariannu o'r sefyllfa ffafriol a welir o fewn Cyllidebau Corfforaethol isod.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Hamdden** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,472** | **4,379** | **4,492** | **113** | | **113** | **92** |

Rhagwelir cynnydd £21k o'r gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, i fyny i £113k. Cynhwysir o fewn hyn, gorwariant o £134k ar Gyfleusterau Hamdden, ac yn arbennig, gwariant o £45k oherwydd methiant i wireddu'r cynllun arbedion, diffyg o £98k (cynnydd o £23k ers yr ail chwarter) mewn cyfuniad o incwm o werthiannau bwydydd a cholled oherwydd wastraff bwyd, ond derbyniad incwm ychwanegol o (£34k) mewn ffioedd am gyfleusterau'r canolfannau. Yn ychwanegol, rhagwelir tanwariant o (£21k) ar Ddatblygu Chwaraeon.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **(16)** | **3** | **19** | | **19** | **22** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,145** | **4,335** | **4,207** | **(128)** | | **(128)** | **(82)** |

Cynnydd (£46k) o'r tanwariant blaenorol, yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, ynghyd â gwariant îs na'r disgwyl ar offer teleofal.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd -** | | | | | | | |
| Gwasanaeth Gweithredol | **1,710** | **1,774** | **1,837** | **63** | **0** | **63** | **84** |
| Gwasanaethau Cefnogol Plant | **7,709** | **7,712** | **7,398** | **(314)** | **0** | **(314)** | **(193)** |
| Gwasanaeth Ôl-16 | **960** | **959** | **1,070** | **111** | **0** | **111** | **108** |
| Eraill (Plant a Theuluoedd) | **3,675** | **3,673** | **3,717** | **44** | **0** | **44** | **6** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | **14,054** | **14,118** | **14,022** | **(96)** | **0** | **(96)** | **5** |
| **Gwasanaeth Oedolion** | | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | **18,602** | **18,843** | **18,999** | **156** | **0** | **156** | **156** |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | **1,967** | **1,967** | **1,965** | **(2)** | **0** | **(2)** | **(113)** |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **12,822** | **12,979** | **13,179** | **200** | **0** | **200** | **121** |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **3,309** | **3,306** | **3,251** | **(55)** | **0** | **(55)** | **(52)** |
| Eraill (Oedolion) | **2,979** | **3,019** | **3,009** | **(10)** | **0** | **(10)** | **1** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Oedolion** | **39,679** | **40,114** | **40,403** | **289** | **0** | **289** | **113** |

**(parhad isod)**

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Tai** | | | | | | | |
| Digartrefedd | **729** | **733** | **743** | **10** | **0** | **10** | **(3)** |
| Eraill (Tai) | **3,790** | **3,841** | **3,819** | **(22)** | **0** | **(22)** | **1** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Tai** | **4,519** | **4,574** | **4,562** | **(12)** | **0** | **(12)** | **(2)** |
| **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)** | **0** | **105** | **430** | **325** | **(150)** | **175** | **302** |
| **Gwasanaeth Hamdden** | **4,472** | **4,379** | **4,492** | **113** | **0** | **113** | **92** |
| **Eraill (Darparu a Hamdden)** | **0** | **(16)** | **3** | **19** | **0** | **19** | **22** |
| **Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden)** | **4,145** | **4,335** | **4,207** | **(128)** | **0** | **(128)** | **(82)** |
| **Cyfanswm Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | **66,869** | **67,609** | **68,119** | **510** | **(150)** | **360** | **450** |

**Cyffredinol -** Mae'r Adran yn parhau hefo nifer o fesurau i geisio gostwng lefel y gorwariant uchod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys defnydd o gronfa adrannol a chronfa gorfforaethol penodol a sefydliwyd yn wreiddiol ar gyfer amgylchiadau gorwariant.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cludiant** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,681** | **4,303** | **4,356** | **53** | | **53** | **(24)** |

Rhagwelir gorwariant £53k ar y pennawd yma erbyn hyn, sef newid o £77k o'r tanwariant (£24k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Mae'r symudiad yma'n bennaf oherwydd gwariant uwch o £51k ar gontractau cludiant, a gostyngiad o £25k mewn derbyniad incwm Cludiant Ol-16.
Mae'r sefyllfa yma'n batrwm parhaol i'r flwyddyn newydd, ac o ganlyniad mae 'bid' am gyllideb ychwanegol eisoes wedi'i brosesu.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **303** | **303** | **592** | **289** | | **289** | **259** |

Cynnydd £30k o'r lefel gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, oherwydd achosion ychwanegol. Bwriedir defnyddio cronfa penodol wrth gefn i liniaru'r sefyllfa am eleni. Yn y chwarter diwethaf, fe ofynnwyd i'r Pennaeth Addysg sicrhau trefniadau priodol i geisio rhagweld ymhlygiadau ariannol achosion fydd yn codi yn 2014/15 a thu hwnt, a deallir fod gwaith priodol yn mynd ymlaen i gyflawni hyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Integreiddio Disgyblion ADY**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **189** | **188** | **188** | **0** | | **0** | **(45)** |

Rhagwelir sefyllfa niwtral ar y pennawd yma am y tro, sef gwariant £45k uwch na'r tanwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ac yn adlewyrchu gofynion ychwanegol am y gwasanaeth yn y flwyddyn ysgol gyfredol.

**Maes:-** **All-Sirol**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,056** | **1,056** | **1,056** | **0** | | **0** | **0** |

Sefyllfa lled niwtral.

**Maes:-** **Arlwyaeth a Glanhau**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **408** | **407** | **461** | **54** | | **54** | **10** |

Cynnydd £44k o'r lefel gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd gwariant £21k uwch ar y cynllun 'Brecwast am Ddim', a £28k o gostau staffio Arlwyaeth Ysgolion ychwanegol oherwydd absenoldebau salwch.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

### ADRAN: ADDYSG

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Uned Blynyddoedd Cynnar** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **773** | **773** | **723** | **(50)** | | **(50)** | **(50)** |

Sefyllfa sy'n parhau yn unol â'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter, sef tanwariant o (£50k), oherwydd gostyngiad yn y lefel gwariant yn 2013/14.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Trefniadau Rheolaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,003** | **4,036** | **3,945** | **(91)** | | **(91)** | **(68)** |

Y rhagamcan tanwariant blaenorol o (£68k) bellach wedi cynyddu i (£91k), yn bennaf oherwydd arbedion trosiant staff.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,219** | **1,219** | **1,256** | **37** | | **37** | **13** |

Rhagwelir cynnydd o £24k yn y gorwariant ar y pennawd yma ers yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd gwariant £30k uwch ar Ganolfan Brynffynnon, gwariant £17k uwch ar yr Uned Ddwys, a lleihad (£24k) yn y gorwariant ar y brosiect ail leoli Coed Menai.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

### ADRAN: ADDYSG

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Strategaeth Cynhwysiad** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **802** | **436** | **461** | **25** | | **25** | **0** |

Sefyllfa gorwariant o £25k sy'n gyson a'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **7,216** | **7,532** | **7,498** | **(34)** | | **(34)** | **(6)** |

Sefyllfa tanwariant (£34k) sy'n cynnwys tanwariant ar gyllideb Maint Dosbarthiadau Mawr Cyfnod Allweddol 2, yn ogystal ag arbediad ar gytundeb blynyddol Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Ysgolion Datganoledig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **68,619** | **68,619** | **68,619** | **0** | | **0** | **0** |

Cyllidebau datganoledig dan reolaeth leol yr ysgolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cludiant** | **4,681** | **4,303** | **4,356** | **53** | **0** | **53** | **(24)** |
| **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** | **303** | **303** | **592** | **289** | **0** | **289** | **259** |
| **Integreiddio Disgyblion ADY** | **189** | **188** | **188** | **0** | **0** | **0** | **(45)** |
| **All-Sirol** | **1,056** | **1,056** | **1,056** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Arlwyaeth a Glanhau** | **408** | **407** | **461** | **54** | **0** | **54** | **10** |
| **Uned Blynyddoedd Cynnar** | **773** | **773** | **723** | **(50)** | **0** | **(50)** | **(50)** |
| **Trefniadau Rheolaeth** | **4,003** | **4,036** | **3,945** | **(91)** | **0** | **(91)** | **(68)** |
| **Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **1,219** | **1,219** | **1,256** | **37** | **0** | **37** | **13** |
| **Strategaeth Cynhwysiad** | **802** | **436** | **461** | **25** | **0** | **25** | **0** |
| **Eraill** | **7,216** | **7,532** | **7,498** | **(34)** | **0** | **(34)** | **(6)** |
| **Ysgolion Datganoledig** | **68,619** | **68,619** | **68,619** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | **89,269** | **88,872** | **89,155** | **283** | **0** | **283** | **89** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Morwrol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **(51)** | **(53)** | **76** | **129** | | **129** | **195** |

Wrth sefydlu cyllideb 2013/14, gostyngwyd y targed incwm ar gyfer Hafan Pwllheli o £109k. Hefyd, gostyngwyd targed incwm Harbyrau o £45k. Yn yr ail chwarter, rhagwelwyd gorwariant o £195k ar y pennawd yma, sydd bellach wedi gostwng (£66k) i ragamcan gorwariant net o £129k. Cynhwysir yn hyn fod incwm Hafan £231k yn fyr o'r targed a bod incwm Harbyrau £17k yn fyr o'r targed, tra mae incwm Traethau (£12k) ac incwm Doc Fictoria (£16k) yn uwch na'r targed, a bu camau gan yr Adran i ostwng gwariant ar nifer o benawdau (£92k).
Wrth lunio'r gyllideb ar gyfer 2014/15, bydd gostyngiad pellach yn nharged incwm yr Hafan.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Cefnogi Busnes** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **121** | **81** | **17** | **(64)** | | **(64)** | **(57)** |

Rhagwelir cynnydd (£7k) yn lefel y tanwariant ers yr ail chwarter, yn bennaf o ganlyniad i gyflawni arbedion ymlaen llaw o'r rhaglen.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

**Maes:-** **Sgiliau a Mentergarwch**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **26** | **35** | **(5)** | **(40)** | | **(40)** | **(40)** |

Yn unol â'r sefyllfa a ragwelwyd yn yr ail chwarter, sef tanwariant oherwydd arbedion trosiant staff unwaith ac am byth.

**Maes:-** **Gwasanaeth Ieuenctid**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,150** | **1,174** | **1,150** | **(24)** | | **(24)** | **(20)** |

Mân gynnydd (£4k) yn y tanwariant tebygol.

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **5,178** | **5,343** | **5,375** | **32** | | **32** | **(4)** |

Sefyllfa gorwariant £32k sy'n cynnwys £11k ar Barciau Gwledig, £9k ar Neuaddau, a £8k ar Amgueddfeydd.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Morwrol** | **(51)** | **(53)** | **76** | **129** | **0** | **129** | **195** |
| **Cefnogi Busnes** | **121** | **81** | **17** | **(64)** | **0** | **(64)** | **(57)** |
| **Sgiliau a Mentergarwch** | **26** | **35** | **(5)** | **(40)** | **0** | **(40)** | **(40)** |
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | **1,150** | **1,174** | **1,150** | **(24)** | **0** | **(24)** | **(20)** |
| **Eraill** | **5,178** | **5,343** | **5,375** | **32** | **0** | **32** | **(4)** |
| **Cyfanswm Adran Economi** | **6,424** | **6,580** | **6,613** | **33** | **0** | **33** | **74** |

Mae'r Adran eisoes yn ystyried gwahanol fesurau i glirio'r sefyllfa gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys defnydd o wahanol gronfeydd penodol sydd wrth gefn gan yr Adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwaredu Gwastraff** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **3,627** | **3,788** | **3,916** | **128** | | **128** | **144** |

Mân ostyngiad (£16k) yn y lefel gorwariant a ragwelir, yn bennaf oherwydd methiant i gyflawni gostyngiad yn y maint o wastraff a gynhyrchir yn unol a'r rhaglen wreiddiol, gan achosi costau treth tir lenwi uwch. Byddai penderfyniad buan ar amdler casglu yn cyfrannu'n sylweddol i leihau costau'r gwasanaeth ar gyfer 2014/15.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Safleoedd Trosglwyddo a Thrin** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,074** | **1,328** | **1,415** | **87** | | **87** | **54** |

Cynnydd £33k o'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys gorwariant oherwydd methiant i gyflawni'r targed ailgylchu bwyd, ynghyd â methiant i gyflawni gwahanol dargedau incwm. Fe liniarwyd rhywfaint ar y sefyllfa drwy ddefnyddio sefyllfa ffafriol hefo rhai ffynonellau cyllidol eraill o fewn yr Adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Casglu Gwastraff ac Ailgylchu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,221** | **3,583** | **3,796** | **213** | **(105)** | **108** | **153** |

Mae'r sefyllfa gorwariant wedi cynyddu £60k ers yr ail chwarter a cynnwys gorwariant o £195k ar gostau ymdrin â deunyddiau rwbel, coed a gwastraff gwyrdd, gostyngiad £105k mewn derbyniad Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaladwy, gostyngiad £68k mewn incwm casglu gwastraff masnachol, ond hefyd tanwariant o (£67k) ar gostau casglu deunyddiau ailgylchu, ynghyd â defnydd o sefyllfa ffafriol hefo rhai ffynonellau cyllidol eraill o fewn yr Adran (£86k).
Fel y pennawd Gwaredu Gwastraff uchod, byddai penderfyniad buan ar amlder casglu yn cyfrannu'n sylweddol i leihau costau'r gwasanaeth casglu ar gyfer 2014/15.
Hefyd, cyfeirir ymhellach at y sefyllfa colled grant isod, ar ddiwedd y rhan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o'r adroddiad yma ynghyd ag argymhelliad penodol ynglŷn â chefnogaeth gyllidol perthnasol.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwastraff Masnachol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **10** | **334** | **293** | **(41)** | | **(41)** | **(9)** |

Cynnydd o (£33k) yn y rhagolygon tanwariant diweddaraf o ganlyniad i dderbyn incwm ychwanegol.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

## ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Safleoedd Gwaredu**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,821** | **2,580** | **2,851** | **271** | **(206)** | **65** | **201** |

Rhagwelir cynnydd £70k o'r sefyllfa gorwariant blaenorol, oherwydd costau gweithredol uwch o £56k, a chostau ychwanegol o £14k yn ymwneud â'r newidiadau yn Ffridd Rasus.
Ar y tri safle perthnasol, sef Ffridd Rasus, Llwyn Isaf a Chilgwyn, fe welir fod y gweddill o'r gorwariant yn cynnwys gwariant uwch o £117k oherwydd elifiant a cholled incwm breindaliadau o £89k.
Cyfeirir ymhellach at yr agwedd yma hefyd ar ddiwedd y rhan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o'r adroddiad yma, ynghyd ac argymhelliad penodol ynglyn a chefnogaeth gyllidol perthnasol.

**Maes:-** **Eraill (Gwastraff)**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,105** | **1,426** | **1,432** | **6** | | **6** | **(7)** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Priffyrdd a Goleuo** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **10,171** | **10,264** | **10,250** | **(14)** | | **(14)** | **(14)** |

Mae sefyllfa'r pennawd yma'n lled niwtral, ond oherwydd tywydd garw yn ystod diwedd mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr, mae'r Adran wedi atal gwariant ar y rhaglen waith a gynlluniwyd yn wreiddiol, er mwyn ariannu cost £150k ychwanegol y gwaith ymateb yn dilyn y llifogydd.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Gwasanaethau Profedigaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **355** | **372** | **346** | **(26)** | | **(26)** | **(70)** |

Gostyngiad £44k o'r sefyllfa tanwariant blaenorol, yn bennaf o ganlyniad i leihad mewn niferoedd o amlosgiadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Tiroedd Agored** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **727** | **698** | **721** | **23** | | **23** | **52** |

Gostyngiad (£29k) yn lefel y gorwariant ers yr adolygiad blaenorol, yn dilyn derbyniad incwm allanol ychwanegol.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,402** | **4,492** | **4,481** | **(11)** | | **(11)** | **(57)** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys yr Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaredu Gwastraff | **3,627** | **3,788** | **3,916** | **128** | **0** | **128** | **144** |
| Safleoedd Trosglwyddo a Thrin | **1,074** | **1,328** | **1,415** | **87** | **0** | **87** | **54** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **4,221** | **3,583** | **3,796** | **213** | **(105)** | **108** | **153** |
| Gwastraff Masnachol | **10** | **334** | **293** | **(41)** | **0** | **(41)** | **(9)** |
| Safleoedd Gwaredu | **2,821** | **2,580** | **2,851** | **271** | **(206)** | **65** | **201** |
| Eraill (Gwastraff) | **1,105** | **1,426** | **1,432** | **6** | **0** | **6** | **(7)** |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff** | **12,858** | **13,039** | **13,703** | **664** | **(311)** | **353** | **536** |
| **Priffyrdd a Goleuo** | **10,171** | **10,264** | **10,250** | **(14)** | **0** | **(14)** | **(14)** |
| **Gwasanaethau Profedigaeth** | **355** | **372** | **346** | **(26)** | **0** | **(26)** | **(70)** |
| **Tiroedd Agored** | **727** | **698** | **721** | **23** | **0** | **23** | **52** |
| **Eraill** | **4,402** | **4,492** | **4,481** | **(11)** | **0** | **(11)** | **(57)** |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **28,513** | **28,865** | **29,501** | **636** | **(311)** | **325** | **447** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Cyffredinol -** Erbyn hyn, rhagwelir bydd cyfanswm gorwariant net yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn £636k, sy'n gynnydd o £189k ers y darlun ail chwarter. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd effaith y tywydd garw a llifogydd Rhagfyr / Ionawr, er gwaetha'r ffaith fod yr Adran wedi atal gwariant o £150k ar y rhaglen waith gyfredol er mwyn ymdopi a chost ychwanegol y gwaith adfer. Hefyd, mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi defnyddio cyfuniad o gyllidebau gweithiau mewnol a chronfeydd wrth gefn i gyfrannu £306k tuag at y sefyllfa gorwariant a welir ar Wastraff.
Yn y gorffennol, bu'n arferiad gan y Cabinet gymeradwyo cyllideb ychwanegol i'r Adran mewn amgylchiadau ble gwelwyd costau elifiant ychwanegol, gostyngiad mewn incwm breindaliadau a cholled grant.
Fe fynegodd y Cabinet yn ei gyfarfod 26 Tachwedd 2013 oherwydd y sefyllfa ariannol heriol, fyddai gan y Cyngor llawer llai o hyblygrwydd yn y dyfodol i ddefnyddio adnoddau corfforaethol i ddigolledu adrannau mewn amgylchiadau tebyg i hyn, ac y disgwylir gweld tystiolaeth o gamau rheolaethol adrannol a gymerwyd i leihau gorwariant yn ystod gweddill 2013/14. Wedi ystyried y camau mae'r Adran eisoes wedi ei gymryd i ostwng lefel y gorwariant, efallai byddai'r Cabinet yn dymuno cymeradwyo, am eleni yn unig, cyllideb ychwanegol unwaith ac am byth o £311k sy'n cyfateb i werth y colled grant, cost elifiant a cholled incwm breindaliadau.

Yn yr amgylchiadau, **argymhellir** fod £311k o gyllideb ychwanegol yn cael ei ryddhau i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar sail unwaith ac am byth, ac sy'n cyfateb i werth y golled grant, cost elifiant a cholled incwm breindaliadau trydan, i'w ariannu o'r sefyllfa ffafriol a welir o fewn Cyllidebau Corfforaethol isod.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Rheolaeth Datblygu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **533** | **524** | **493** | **(31)** | | **(31)** | **11** |

Gwelliant (£42k) o'r sefyllfa gorwariant £11k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys costau staffio uwch o £48k oherwydd salwch tymor hir, cost o £49k ychwanegol i ddigideiddio ffeiliau cynllunio, ond hefyd tanwariant ar gostau teithio (£26k), ac incwm ffioedd ychwanegol o (£113k).

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cynnal Adeiladweithiau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,140** | **1,140** | **1,196** | **56** | | **56** | **(2)** |

Sefyllfa gorwariant o ganlyniad i waith ychwanegol ar bontydd sirol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Parcio** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(710)** | **(712)** | **(681)** | **31** | | **31** | **3** |

Cynnydd o £28k yn y sefyllfa gorwariant a ragwelir, yn bennaf oherwydd gostyngiad o £41k mewn incwm meysydd parcio, gostyngiad o £33k mewn incwm ffioedd gorfodaeth parcio, ond tanwariant o (£49k) mewn costau gweithredol gorfodaeth parcio.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,532** | **1,746** | **1,776** | **30** | | **30** | **(4)** |

Sefyllfa gorwariant o £30k bellach, yn cynnwys costau contractau bysus uwch o £122k, tanwariant costau staffio o (£58k), tanwariant o (£9k) ar wasanaethau cyffredinol, a (£23k) o incwm ychwanegol unwaith ac am byth.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwarchod y Cyhoedd** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,107** | **2,083** | **2,015** | **(68)** | | **(68)** | **(40)** |

Cynnydd (£28k) yn y sefyllfa tanwariant i (£68k) sy'n cynnwys arbedion staffio o (£39k), yn rhannol drwy wireddu cynllun arbedion 2014/15 ymlaen llaw, tanwariant gwasanaethau a chyflenwadau a chostau teithio o (£6k), a derbyniad incwm ychwanegol o (£23k).

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Eraill** | **11,255** | **11,064** | **11,030** | **(34)** | | **(34)** | **(3)** |

Sefyllfa tanwariant (£34k) sy'n cynnwys tanwariant net (£10k) ar Gorfodaeth a Thrafnidiaeth a Gofal Stryd, a thanwariant (£23k) ar Lwybrau Cyhoeddus.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio (Cynllunio,Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Rheolaeth Datblygu** | **533** | **524** | **493** | **(31)** | **0** | **(31)** | **11** |
| **Cynnal Adeiladweithiau** | **1,140** | **1,140** | **1,196** | **56** | **0** | **56** | **(2)** |
| **Gwasanaeth Parcio** | **(710)** | **(712)** | **(681)** | **31** | **0** | **31** | **3** |
| **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | **1,532** | **1,746** | **1,776** | **30** | **0** | **30** | **(4)** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | **2,107** | **2,083** | **2,015** | **(68)** | **0** | **(68)** | **(40)** |
| **Eraill** | **11,255** | **11,064** | **11,030** | **(34)** | **0** | **(34)** | **(3)** |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | **15,857** | **15,845** | **15,829** | **(16)** | **0** | **(16)** | **(35)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth (Ffyrdd a Pheirianneg)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(200)** | **(313)** | **(270)** | **43** | | **43** | **168** |

Yn dilyn blwyddyn anodd yn 2012/13, mae'r sefyllfa eleni yn parhau i wella, gyda'r gorwariant o £168k a ragwelwyd yn yr ail chwarter bellach wedi gostwng (£125k) i lawr i £43k, drwy gyfuniad o danwario ar gostau staffio, cynhyrchu fwy o incwm ffioedd, a thanwariant ar gostau gweithredol eraill.
Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau a phrosesau ariannol yr Adran, mae cynllun gweithredu perthnasol mewn lle i geisio ymateb i sawl darganfyddiad. Hyd yma, bu cynnydd da hefo'r cynllun gyda nifer o faterion wedi'u gweithredu'n llawn ac eraill dal yn y broses o gael eu gweithredu.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Rheolaeth Adeiladu (gan gynnwys Adeiladau Peryglus)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **316** | **330** | **325** | **(5)** | | **(5)** | **(22)** |

Gostyngiad £17k o'r rhagolwg tanwariant blaenorol, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn derbyniad incwm ffioedd.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Uned Adeiladu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **150** | **15** | **(135)** | | **(135)** | **(135)** |

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn gyson a'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter.  Mae'r sefyllfa tanwariant (£135k) oherwydd cynnydd mewn derbyniad ffioedd incwm mewnol.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **799** | **891** | **891** | **0** | | **0** | **0** |

Sefyllfa net lled niwtral ar nifer o benawdau cyllideb amrywiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth (Ffyrdd a Pheirianneg)** | **(200)** | **(313)** | **(270)** | **43** | **0** | **43** | **168** |
| **Rheolaeth Adeiladu (gan gynnwys Adeiladau Peryglus)** | **316** | **330** | **325** | **(5)** | **0** | **(5)** | **(22)** |
| **Uned Adeiladu** | **0** | **150** | **15** | **(135)** | **0** | **(135)** | **(135)** |
| **Eraill** | **799** | **891** | **891** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Ymgynghoriaeth** | **915** | **1,058** | **961** | **(97)** | **0** | **(97)** | **11** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: ADNODDAU DYNOL**

| **Adran:-** | **Adnoddau Dynol** | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **3,612** | | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(3,439)** | | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **173** | **161** | **158** | **(3)** | | **(3)** | **(7)** |

Mân ostyngiad £4k o lefel y tanwariant net a ragwelwyd yn flaenorol.  Er fod y sefyllfa yn ei gyfanrwydd yn lled niwtral, mae'n cynnwys gorwariant £43k oherwydd cyfraniadau ychwanegol i sefydliadau lleoli gweithwyr anabl, gorwariant £8k ar Iechyd a Diogelwch, ac hefyd tanwariant o (£34k) gan y Gwasanaeth Cefnogol (oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth), cyflawni rhai cynlluniau arbedion ymlaen llaw (£15k), a thanwariant o (£7k) gan yr Uned Weithredol (Iechyd Galwedigaethol), oherwydd llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol.

**ADRAN: CYLLID**

| **Adran:-** | **Cyllid** | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **7,468** | | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(6,315)** | | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **1,153** | **1,192** | **1,176** | **(16)** | | **(16)** | **(23)** |

Mân ostyngiad £7k o lefel y tanwariant net a ragwelwyd yn flaenorol.  Mae'r sefyllfa yn cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth (£91k), costau £50k ychwanegol unwaith ac am byth ar gyfer meddalwedd a thrwydded systemau technoleg gwybodaeth, a lleihad o £46k yn y Sybsidi (grant gan y DWP) ar gyfer Gweinyddu Budd-daliadau Tai a'r gyfundrefn Gostyngiadau Treth Cyngor.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

### ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL

| Adran:- | Democratiaeth a Chyfreithiol | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **3,197** | | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(2,584)** | | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **613** | **625** | **653** | **28** | | **28** | **38** |

Gwelliant (£10k) o'r sefyllfa gorwariant £38k a ragwelwyd yn flaenorol.  Mae'r symudiad oherwydd gostyngiad (£7k) mewn costau hyfforddiant staff, (£7k) o incwm Pridiannau Tir ychwanegol, a mân orwariant o £4k ar sawl pennawd arall.

### ADRAN: GOFAL CWSMER

| Adran:- | Gofal Cwsmer | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **13,018** | | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(10,992)** | | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **2,026** | **2,103** | **2,072** | **(31)** | | **(31)** | **(26)** |

Mân gynnydd (£5k) o'r lefel tanwariant net a ragwelwyd yn flaenorol.  Mae'r (£31k) net yn cynnwys tanwariant (£152k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth ynghyd a llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol, tanwariant (£17k) gan yr Uned Gwybodaeth ohewydd arbedion staffio unwaith ac am byth, a thanwariant (£37k) gan yr Uned Gyfathrebu oherwydd arbedion staffio.
Yn erbyn hynny, bu gorwariant £80k ar y Gwasanaeth Teleffon oherwydd methiant i gyflawni cynllun arbediad yn llawn, gorwariant £29k gan yr Uned Argyfwng, gorwariant £31k gan Llyfrgelloedd yn deillio'n bennaf o ddiffyg incwm, gorwariant £24k gan yr Uned Eiddo, a gorwariant £13k gan Siopau Gwynedd.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

### ADRAN: STRATEGOL A GWELLA

| Adran:- Strategol a Gwella | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Gwariant | **8,433** | | | | | | |
| | Incwm ac Ad-daliadau | **(7,710)** | | | | | | |
| | Cyfanswm Net | **723** | **890** | **807** | **(83)** | | **(83)** | **(93)** |

Sefyllfa tanwariant (£83k) sy'n lled gyson â'r darlun a ragwelwyd yn flaenorol, ac yn cynnwys tanwariant (£25k) gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth oherwydd derbyniad incwm ychwanegol, tanwariant (£21k) yn yr Uned Polisi Tai, tanwariant (£35k) yn y Gwasanaeth Cyflawni a Rheoli Newid, a thanwariant (£13k) yn y Gwasanaeth Gwireddu yn deillio'n bennaf o arbedion staffio unwaith ac am byth.

### CYLLIDEB Y TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL

| Adran:- Tîm Rheoli Corfforaethol | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Gwariant | **779** | | | | | | |
| | Incwm ac Ad-daliadau | **(779)** | | | | | | |
| | Cyfanswm Net | **0** | **69** | **69** | **0** | | **0** | **0** |

Rhagwelir sefyllfa niwtral eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Gwasanaethau Canolog | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adnoddau Dynol** | **173** | **161** | **158** | **(3)** | **0** | **(3)** | **(7)** |
| **Cyllid** | **1,153** | **1,192** | **1,176** | **(16)** | **0** | **(16)** | **(23)** |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | **613** | **625** | **653** | **28** | **0** | **28** | **38** |
| **Gofal Cwsmer** | **2,026** | **2,103** | **2,072** | **(31)** | **0** | **(31)** | **(26)** |
| **Strategol a Gwella** | **723** | **890** | **807** | **(83)** | **0** | **(83)** | **(93)** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol** | **0** | **69** | **69** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog** | **4,688** | **5,040** | **4,935** | **(105)** | **0** | **(105)** | **(111)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **216** | | **216** | **186** |

Gostyngiad £30k pellach yn lefel derbyniadau llog net yn 2013/14, oherwydd sefyllfa gyffredinol y farchnad buddsoddi, lle mae cyfraddau llog yn ddigynsail o isel. Addaswyd y targed incwm yn briodol wrth lunio cyllideb 2014/15.

**Maes:-** **Buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia")**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **(221)** | | **(221)** | **(221)** |

Derbyniwyd ad-daliad pellach o (£221k) uwchben ein rhagdybiaeth darbodus mewn perthynas a buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia"), sy'n dod o'r ganran adenillwyd hyd yma i 94%.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Treth y Cyngor (adroddir yma ar yr elfen ychwanegol yn unig)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **(810)** | **461** | **(349)** | **(520)** |

Erbyn hyn, rhagwelir cynnydd yn y "gweddill" treth o (£520k) i (£810k). Cofier fod y "gweddill" yma'n ddisgwyliedig wedi penderfyniad Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2013 i ariannu (yn rhannol) lefelau hanesyddol o gymorth (hyd at 100%) i unigolion dalu'r Dreth Cyngor. Daeth hyn ar ôl penderfyniad Cyngor Gwynedd i ostwng cyfradd casglu tybiannol perthnasol i 97.5% ar gyfer 2013/14 (erbyn 2014/15, codwyd y gyfradd casglu tybiannol yn ôl i fyny i 99%).
Mae'r hyblygrwydd tebygol o (£810k) eleni ar ôl ariannu elfen y Cyngor o gost y cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2013/14, sydd bellach wedi gostwng i £186k.

Fel a gyfeirir uchod o dan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden - Gwasanaeth Darparu, ac o dan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Cyffredinol, **argymhellir** rhyddhau cyllideb o £461k o'r pennawd yma er mwyn ariannu'r dyraniadau ychwanegol i'r ddwy Adran ar sail unwaith ac am byth.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| Crynhoad o'r Sefyllfa Gorfforaethol | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Derbyniad Llog Net** | **0** | **0** | **0** | **216** | **0** | **216** | **186** |
| **Buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia")** | **0** | **0** | **0** | **(221)** | **0** | **(221)** | **(221)** |
| **Treth y Cyngor (adroddir yma ar yr elfen ychwanegol yn unig)** | **0** | **0** | **0** | **(810)** | **461** | **(349)** | **(520)** |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | **0** | **0** | **0** | **(815)** | **461** | **(354)** | **(555)** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2013/14 - ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2013)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a craffu penderfyniadau drafft y Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad trydydd chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 18 Chwefror ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 18 Chwefror o'r Cabinet.

**3.** Bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau drafft y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
18 CHWEFROR 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – 2015/16

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2013) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.8 o'r adroddiad.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £114m am y 3 blynedd 2013/14 – 2015/16.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r gostyngiad net oddeutu £7.464m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.9 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2013/14 i 2014/15.

**Rhan 4**: Gwariant 9 mis cyntaf 2013/14.

**Prif Gasgliadau:**

Gwelir yn Rhan 1 fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni tua £47m, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol tua £114m, sy'n gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Yn dechnegol, gofynnir am gymeradwyaeth i:

- ostyngiad o £7.5m yn y rhaglen tair blynedd (noder fod hyn yn bennaf oherwydd bod dau brif gynllun ysgolion wedi symud tu allan i ffenest yr adroddiad yma, ac nid gwir ostyngiad yn y rhaglen hir-dymor),
- ail-broffilio gwariant o £6.4m o 2013/14 i 2014/15,

Ni fydd yr uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant.

Mae'r lefel gwariant ar ddiwedd Rhagfyr eleni (2013/14) o'i gymharu â'r un cyfnod (9 mis) y llynedd yn weddol gyson, sef 58% a 59% yn ôl eu trefn.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2013/14 - 2015/16.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar sefyllfa ddiwedd y flwyddyn i gyfarfod perthnasol y Cabinet ym mis Mehefin 2014.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n nodi'r lefel o wariant ar y gyllideb gyfalaf ar derfyn Chwarter 3, sef 58% a hefyd nad yw'r ail-broffilio yn debygol o achosi unrhyw golled grant. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae goblygiadau gwasanaeth i'r ffaith bod amserlen rhai o'r cynlluniau hynny wedi newid. Gallai hynny fod yn destun gwaith craffu maes o law.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2013/14 i 2015/16

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Rhagfyr yn erbyn y sefyllfa diwedd Medi:

### CYMHARIAETH RHWNG YR AIL CHWARTER A'R TRYDYDD CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y CHWARTER DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | |
| ADRAN | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 45 | 459 | 0 | 504 | 45 | 459 | 0 | 504 | 0 |
| Addysg | 9,570 | 7,030 | 23,937 | 40,537 | 9,048 | 6,596 | 17,044 | 32,688 | (7,849) |
| Cyllid | 0 | 59 | 0 | 59 | 38 | 59 | 0 | 97 | 38 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,796 | 6,622 | 100 | 12,518 | 5,216 | 7,253 | 100 | 12,569 | 51 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,957 | 5,442 | 3,097 | 17,496 | 7,686 | 6,346 | 3,098 | 17,130 | (366) |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 747 | 1,380 | 797 | 2,924 | 380 | 1,747 | 797 | 2,924 | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | 3,324 | 2,406 | 2,000 | 7,730 | 3,513 | 2,679 | 2,000 | 8,192 | 462 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,989 | 6,753 | 2,603 | 18,345 | 8,017 | 7,477 | 2,053 | 17,547 | (798) |
| Rheoleiddio | 11,676 | 8,474 | 161 | 20,311 | 12,165 | 8,406 | 161 | 20,732 | 421 |
| Strategol a Gwella | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 14 | 14 |
| Tai Cyngor (Gweddillol) | 32 | 0 | 0 | 32 | 24 | 8 | 0 | 32 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 29 | 16 | 18 | 63 | 592 | 16 | 18 | 626 | 563 |
| Corfforaethol | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 |
| **CYFANSWM** | **49,165** | **38,917** | **33,095** | **121,177** | **46,738** | **41,322** | **25,653** | **113,713** | **(7,464)** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae gostyngiad net o £7.464m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| FFYNHONNELL ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | CYNNYDD/ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £000 | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £000 | (LLEIHAD) £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 6,051 | 5,355 | 11,547 | 5,989 | 6,759 | 5,561 | (4,644) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 23,124 | 20,698 | 11,103 | 23,840 | 19,139 | 10,197 | (1,749) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,526 | 1,291 | 1,680 | 1,337 | 1,759 | 1,680 | 279 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,704 | 722 | 3,160 | 4,588 | 863 | 2,610 | (525) |
| Cronfa Cyfalaf | 4,943 | 4,411 | 52 | 2,884 | 5,388 | 52 | (1,082) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,651 | 2,274 | 1,387 | 3,934 | 3,248 | 1,387 | 257 |
| **CYFANSWM** | **49,165** | **38,917** | **33,095** | **46,738** | **41,322** | **25,653** | **(7,464)** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **121,177** | | | **113,713** | |

**2.2 Benthyca Heb Gefnogaeth / Grantiau a Chyfraniadau - Cynlluniau Ysgolion - 'Canrif 21' (Adran Addysg)**

Yn dilyn trafodaethau diweddar fe ail raglennwyd yr ariannu fel y gwelir yn y tabl isod ar gyfer rhai o'r cynlluniau Canrif 21 eto ers yr adolygiad ail chwarter sef yn bennaf-

**'Ganrif 21' – rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain**

- Ysgol O.M.Edwards, Llanuwchllyn ac Ysgolion ardal Bala - mae trafodaethau wedi ail-gychwyn gydag Aelodau'r dalgylch yma. Mae'r Llywodraeth wedi gosod rhai amodau ynghlwm wrth geisiadau'r rhaglen ac mae'r gwaith o gyfarch rhai o'r amodau hynny angen ei wneud cyn y gellid mynd ymlaen efo'r gwaith. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno mis nesaf i'r Cabinet i egluro'r gwaith angenrheidiol ac i osod rhaglen waith amlinellol.
- Ysgolion ardal Dolgellau - cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet (Rhagfyr 2013) yn egluro fod newid cyfeiriad yn y gwaith a gwnaed penderfyniad yn y cyfarfod hwnnw i geisio cynllun ar gyfer y dalgylch cyfan. Yn dilyn o'r penderfyniad yma roedd angen ail edrych ar amseriad y gwariant ar y cynllun yma.

Felly, bu ail-broffilio, sydd wedi cael effaith ar amseriad y buddsoddiad angenrheidiol gan y Cyngor, a ariennir yn bennaf drwy fenthyciad heb gefnogaeth. Bu effaith hefyd ar amseriad y grant gan y Llywodraeth. Noder mai effaith 3 mlynedd yn unig a welir yma, sef oes y rhaglen gyfalaf cyfredol, ond bydd y cynlluniau yma'n parhau i'r flwyddyn ariannol 2018/19. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r addasiadau i'r sefyllfa ariannu gyfredol fel yn berthnasol i'r Cynlluniau Ysgolion:

| FFYNHONNELL ARIANNU | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | CYFANSWM 3 MLYNEDD £'000 | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca heb gefnogaeth | 22 | 1,378 | (5,985) | (4,585) | 3,015 | 1,382 | 188 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 0 | (1,642) | (906) | (2,548) | 1,368 | 1,180 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 22 | (264) | (6,891) | (7,133) | 4,383 | 2,562 | 188 | 0 |

Mae'r cynlluniau yma yn amodol ar gymeradwyaeth o'u hachosion busnes manwl, ac felly yn parhau gydag elfen o risg ariannol. Fodd bynnag, gan fod y Llywodraeth yn awyddus i'r Cyngor gydnabod ein hymrwymiad ariannol i'r cynlluniau, rydym wedi cynnwys ariannu'r cynlluniau yn y rhaglen gyfalaf sy'n rhan 1 uchod. Pe byddai'r cynlluniau busnes yma yn methu am ryw reswm, byddai angen tynnu'r ariannu cyfatebol allan o'r rhaglen, ac ystyried y sefyllfa ymhellach.

**2.3 Benthyca Heb Gefnogaeth (gweddill y cynlluniau)**

Yn ychwanegol i'r addasiad a nodwyd yn 2.2 uchod mae yna leihad o £59,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd bod cynlluniau adeiladau dros dro Ysgolion wedi eu cyflawni yn fwy effeithlon na'r disgwyl yn ystod y cyfnod yma o'r rhaglen.

**2.4 Grantiau a Chyfraniadau (gweddill y cynlluniau)**

Yn ychwanegol i'r addasiad a nodwyd yn 2.2 uchod mae yna gynnydd net o £799,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Traenio Tir - Ffridd Elin, Bermo (Adran Ymgynghoriaeth) - £330,000 yn 2013/14**
  Derbyniwyd cyfraniad o £250,000 gan Dwr Cymru a £80,000 gan drigolion y stad dai perthnasol ar gyfer gwaith carffosiaeth angenrheidiol (gweler hefyd 2.8 isod).
- **Cynlluniau Grantiau Tai Cyffredinol (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden) - £180,570 yn 2013/14**
  Fe ariannir gorwariant o £180,570 ar grantiau tai drwy dderbyniad o grant Môn Menai o £125,000 gan y Llywodraeth i'w wario ar gynlluniau tai gwag, ynghyd a derbyniadau/cyfraniadau trigolion o £55,570 (gweler hefyd 2.5 isod).
- **Cynllun i addasu adeilad Seiont II (sef yr hen amgueddfa forwrol), Doc Fictoria (Adran Economi a Chymuned) - £40,000 yn 2013/14**
  Derbyniwyd grant Môn Menai o £40,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i adeilad Seiont II, Doc Fictoria i ddarparu cyfleusterau gwell i'r marina (gweler hefyd gyfraniad o gronfeydd yn 2.8 isod).

**2.5 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £279,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd cynlluniau Grantiau Tai Cyffredinol (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden), sef £281,500 yn 2013/14. Rhagwelir gwariant ychwanegol ar y cynlluniau yma oherwydd y nifer a natur rhai o'r cyfeiriadau am grantiau anabl gan therapyddion galwedigaethol, a hefyd fe welwyd cynnydd yn y nifer o gynlluniau unigol o fewn y pecyn gwaith Ardal Adnewyddu Blaenau Ffestiniog. Mae gan yr Adran falans o £277,410 o dderbyniadau cyfalaf hanesyddol y gellir eu defnyddio ar gyfer ariannu'r gwariant ychwanegol yma, a disgwylir derbyniadau cyfalaf pellach yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol i ariannu'r gweddill.

**Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol mae'r Adran angen caniatâd y Cabinet ar gyfer defnydd o dderbyniadau cyfalaf lle bo'r swm dros £50,000 (a gynhwysir fel rhan o'r argymhelliad cyffredinol o fewn 2.9 isod).**

Noder hefyd, fod y Cynllun Rheoli Asedau yn ymrwymo'r Cyngor i ariannu elfen o'r rhaglen gyfalaf drwy ddefnydd o dderbyniadau cyfalaf corfforaethol. Erbyn hyn, mae rhywfaint o bryder parthed argaeledd y derbyniadau cyfalaf disgwyliedig, oherwydd cyflwr y farchnad eiddo yn gyffredinol. Hyd yma, mae ansicrwydd ynglŷn â gallu'r Cyngor i gyflawni hyd at £500,000 o dderbyniadau cyfalaf, ac mi fydd angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau deg mlynedd.

**2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Lleihad net o £525,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd -

- **Cynlluniau Gwastraff – datblygu celloedd Ffridd Rasus (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – (£358,000) yn 2013/14 a (£550,000) yn 2015/16**
  Lleihad o £908,000 yn y defnydd o refeniw corfforaethol i ariannu datblygiadau celloedd gwastraff oherwydd achos busnes newydd ar gyfer Ffridd Rasus. Ni fyddwn bellach yn datblygu celloedd newydd, ond mae defnydd yr arian yma yn rhan o'r achos busnes ac felly ddim ar gael i'r Cyngor.
- **Cynllun Grant Trafnidiaeth (Adran Rheoleiddio) – £208,580 yn 2013/14**
  Bu costau ar y cynlluniau yma oherwydd taliadau iawndal am bryniant tir. Mae rhaid i'r Adran ei ariannu drwy gyfraniad o refeniw dros dro oherwydd methiant i werthu eiddo perthnasol (a fyddai wedi creu derbyniadau cyfalaf i'r perwyl).
- **Cynlluniau Gwledig – difrod llifogydd (Adran Rheoleiddio) - £60,000 yn 2013/14**
  Cyfraniad o danwariant refeniw'r Adran Rheoleiddio i gynorthwyo gyda'r gwaith i adfer y difrod llifogydd ers Tachwedd 2012 ar lonydd las.

**2.7 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad o £1,082,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd

- **Cynllun i adeiladu Dwy Uned yn lle Ysgol Coed Menai (Adran Addysg) – (£200,000) 2013/14 a (£600,000) yn 2014/15**
  Mae'r cynllun yma wedi newid ac felly nid oes angen yr ariannu uchod bellach. Roedd y cynllun gwreiddiol hefyd yn cynnwys derbyniadau cyfalaf o £1,515,000 sydd bellach hefyd wedi eu hail ystyried ac angen eu lleihau i £500,000, ond ddim tan ar ôl 2015/16. Mi fydd hyn yn cael ei ystyried wrth adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau.
- **Cynllun Canolfan Sgiliau Galwedigaethol a chynllun Canolfan Sgiliau Ynni Dolgellau (Adran Economi a Chymuned) – (£250,000) yn 2013/14**
  Gan fod y cynllun yma wedi ei addasu ac wedi ei ariannu yn uniongyrchol gan grantiau allanol, bellach nid oes angen cyfraniad gan y Cyngor.

**2.8 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £257,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd y cynlluniau canlynol:

- **Cynllun Traenio Tir - Ffridd Elin, Bermo (Adran Ymgynghoriaeth) - £232,650 yn 2013/14**
  Defnydd o ddarpariaeth y Cyngor i'r pwrpas yma (gweler hefyd 2.4 uchod).

- **Addasiadau swyddfeydd i ail-leoli staff yn sgil cynllun Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) - £180,000 yn 2013/14**
  Defnydd o gronfa gyfredol ar gyfer y gwaith perthnasol i adleoli staff yn sgil cynllun Oriel Gwynedd ym Mangor.
- **Cynllun i addasu adeilad Seiont II (sef yr hen amgueddfa forwrol), Doc Fictoria (Adran Economi a Chymuned) - £60,000 yn 2013/14 + £1,000 yn 2014/15**
  Defnydd o gronfa Gwella Tref £41,000 a chronfa'r Adran Economi a Chymuned £20,000 (gweler hefyd gyfraniad grant yn 2.4 uchod).
- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) – (£304,680) yn 2013/14**
  Lleihad yn y defnydd o Gronfa sydd yn gysylltiedig â Rheoli Carbon oherwydd bod y rhagolygon gwariant erbyn hyn wedi lleihau o'r amcan gwreiddiol**.**

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 i 2015/16 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2013/14 i 2014/15 hyd yma yw £6,375,100. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) £798,940
- Ysgol Brynrefail – cynllun i ddileu 6 o ddosbarthiadau symudol (Adran Addysg) £526,700
- Cynlluniau Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) £400,000
- Cynllun Blaendal Morgais (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden) £300,000
- Unedau dros dro mewn ysgolion (Adran Addysg/Adran Gofal Cwsmer - Eiddo) £289,000
- Prosiect 'VOIP' (voice over internet protocol) (Adran Gofal Cwsmer – Eraill) £287,090
- Cynlluniau Asbestos a Thân (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) £200,000
- Cynllun i ddiogelu a dymchwel Pier Trefor (Adran Economi a Chymuned) £160,000
- Gwelliannau Traffig oddi allan i Ysgolion (Adran Rheoleiddio) £130,310

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £1,817,800
- Cynlluniau "Ein Treftadaeth" (Adran Economi a Chymuned) £395,050

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 9 MIS CYNTAF 2013/14

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd y trydydd chwarter (9 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 (blwyddyn gyfan) -

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2013/14 £'000 | GWIR WARIANT Y 9 MIS HYD AT 31/12/2013 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 45 | 12 |
| Addysg | 9,048 | 6,629 |
| Cyllid | 38 | 0 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,216 | 1,487 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 7,686 | 6,510 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 380 | 157 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | 3,513 | 2,585 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,017 | 5,444 |
| Rheoleiddio | 12,165 | 4,303 |
| Strategol a Gwella | 14 | 14 |
| Tai Cyngor | 24 | 4 |
| Ymgynghoriaeth | 592 | 56 |
| Corfforaethol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **46,738** | **27,201** |

Mae rhai adrannau yn ymddangos i fod yn gwario llai na'r disgwyl o'r gyllideb flynyddol hyd yma. Fel adroddwyd yn Chwarter 2, mae'r adrannau Economi a Chymuned (yn bennaf oherwydd oedi gyda'r cynllun Academi Hwylio ym Mhwllheli) a Rheoleiddio (yn bennaf oherwydd proffil gwariant Pont Briwet) yn hyderus y byddent yn gwario yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**4.2** Mae dros £27.2m wedi ei wario yn ystod y naw mis cyntaf, sef 58% o'r gyllideb.

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2013/14 | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2012/13 | CYNNYDD/ (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £46.7miliwn | £40.9miliwn | £5.8miliwn |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £27.2miliwn | £24.2miliwn | £3.0miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 58% | 59% | (1%) |

**4.3** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn lled gyson gyda'r gyfran gyfatebol llynedd.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2014** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2013 hyd at 31 Ionawr 2014.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2014:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 16 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 4 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2014, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd o Cetis / CALMS | Adnoddau Dynol | Hyfforddiant | C | Atodiad 1 |
| Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo | Corfforaethol | | B | Atodiad 3 |
| Rheolaeth Gyllidebol | Corfforaethol | | A | Atodiad 4 |
| Cyflogau - Tâl Mamolaeth | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 5 |
| Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 6 |
| Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 7 |
| Swyddogion Adfywio Bro | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 8 |
| Parciau Gwledig | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | C | Atodiad 9 |
| Gwynedd Ni | Gofal Cwsmer | Llyfrgelloedd | A | Atodiad 10 |
| Diogelwch Glinfyrddau | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 11 |
| Plant - Lwfansau Ôl-ofal | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 12 |
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 13 |
| Gweithiau Adenilladwy | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | A | Atodiad 14 |
| Gwastraff Masnachol | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 15 |
| Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth | Rheoleiddio | Cynllunio | B | Atodiad 16 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- ***Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP*** (Priffyrdd a Bwrdeistrefol). Yn 2011 gweinyddwyd proses gaffael gan Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru er mwyn sefydlu Cytundeb Fframwaith ar gyfer cytundeb darnau cerbydau i 6 awdurdod gogledd Cymru. Fel rhan o'r archwiliad, edrychwyd ar sampl o anfonebau ac adolygu trefniadau gweinyddu yr anfonebau hyn yn yr adran ers i'r fframwaith newydd gael ei gweithredu. Gwelwyd bod y broses gweinyddu anfonebau yn gadarn iawn ac yn ymddangos yn fwy effeithiol na'r hyn oedd yn ei le cyn i'r fframwaith ddod i rym. Er fod yr amrywiaeth yn y cydrannau a gaiff eu prynu yn flynyddol yn ei gwneud yn anodd i gymharu gwahaniaethu tebyg i debyg, ar sail y sampl a ddewiswyd gellid dod i'r casgliad cyffredinol bod y fframwaith newydd wedi gwneud arbediad i'r Cyngor.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*
- Grant Cefnogi Pobl 2012-13 *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol *(Rheoleiddio)*
- Grantiau Cyngor Chwaraeon *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |
| Prosesu Data Cyflenwyr Ynni | Gofal Cwsmer | Eiddo | **Derbyniol** |
| Cofnodi a Rheoli Gwyliau | Corfforaethol | | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2014**

Siopau Gwynedd
Rheoli Newid i Systemau TG

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Tocynau Teithio Rhad
Taliadau Uniongyrchol
Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Polisi Buddiannau Swyddogion
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch
Defnydd o Cetis / CALMS
Diogelu Data – Cymalau Mewn Swydd Ddisgrifiadau
Diogelwch Glinfyrddau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2014**

Porthladdoedd
Y Drefn Gwynion Corfforaethol
Parciau Gwledig
Bryn Blodau

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Chwefror 2014.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion *(Addysg)*
- Cronfa SMAP *(Strategol a Gwella)*
- Diogelwch Cymunedol *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion *(Addysg)*
- GwE *(Addysg)*
- Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion *(Addysg)*
- Gweithio mewn Partneriaethau *(Corfforaethol)*
- Gwirio Mesuryddion Perfformiad *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Cyflogau - Goramser *(Cyllid)*
- Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes *(Gofal Cwsmer)*
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Safonau Masnach *(Rheoleiddio)*
- Taliadau i Gwmnioedd Tacsi *(Rheoleiddio)*
- Hyfforddi Aelodau *(Strategol a Gwella)*
- Trefniadau Rheoli Prosiectau *(Strategol a Gwella)*
- Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2013 i 31 Ionawr 2014, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# DEFNYDD O CETIS / CALMS
## Adnoddau Dynol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn darllen, deall a derbyn y polisïau priodol a gaiff eu cyflwyno drwy'r system CALMS. Mae cynnwys y polisïau yn amrywio, gyda pholisïau Diogelwch TG a Diogelu Data ymysg y rhai sydd wedi eu cynnwys. Mae'r system yma, felly, yn rheolaeth allweddol wrth ledaenu polisïau a gweithdrefnau i staff yn effeithiol.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio ystadegau a gedwir gan yr Adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod y rhan helaeth o swyddogion perthnasol y Cyngor wedi derbyn y polisïau a bod rheswm digonol lle nad yw hynny wedi digwydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiad o'r archwiliad hwn yw'r methiant y system i hysbysu staff am bolisïau newydd. Caiff swyddogion eu hysbysu bod polisi newydd angen ei dderbyn trwy "pop-up" a fydd yn ymddangos ar ôl rhoi eu cyfrifiadur ymlaen. Fodd bynnag, mae "pop-up blocker" ar y cyfrifiadur yn atal rhain felly nid oes modd derbyn y wybodaeth am y polisïau newydd. Credir mai dyma'r rheswm pam fo'r ymateb i'r Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion mor isel (4.75% wedi ei dderbyn). Yn ogystal â hyn, credir bod angen adolygu'r polisïau yn gyfnodol i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Defnydd o Cetis / CALMS gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddatgelwyd colledion neu dwyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried anfon e-bost generig i atgoffa aelodau o staff o'r angen i dderbyn y polisi ar-lein ar ôl cwblhau'r profion.**
- **Dylid trafod gyda'r Adain Technoleg Gwybodaeth i sefydlu os oes modd sicrhau bod aelodau o staff yn derbyn y neges "pop-up" ar eu cyfrifiadur pan fo polisi newydd ond na fydd yn cyfaddawdu ar ddiogelwch.**
- **Dylid edrych i mewn i'r posibilrwydd o gyflwyno canlyniadau i beidio derbyn y polisïau.**
- **Dylid sicrhau bod y wybodaeth yn gywir o fewn y polisïau. Dylid creu trefniant i adolygu'r polisïau'n gyfnodol.**

# DIOGELU DATA - CYMALAU MEWN SWYDD DDISGRIFIADAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y cymal canlynol;
"Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data."
yn cael ei gynnwys yn swydd ddisgrifiadau holl staff y Cyngor beth bynnag yw eu swyddogaethau er mwyn atgyfnerthu'r neges bod y cyfrifoldeb yn gyffredin i bawb.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o hysbysebion swyddi diweddar a gwirio os yw'r cymal Diogelu Data wedi ei gynnwys yn ogystal â gwirio swydd ddisgrifiadau trawsdoriad o swyddogion a benodwyd ers Ebrill 2013 i gadarnhau bod y cymal yn gynwysedig.

Prif Ddarganfyddiadau

Fe anfonwyd e-bost yn Chwefror 2013 i holl reolwyr y Cyngor yn mynegi yr angen i gynnwys y cymal rheoli gwybodaeth yn ffurfiol i bob swydd disgrifiad o fewn y Gwasanaeth/Adran gan ei fod yn "gam arall i atgyfnerthu'r neges bod y cyfrifoldeb yn gyffredin i bawb, beth bynnag yw'r swyddogaeth."

Gwiriwyd hysbysebion swyddi'r Cyngor oddi ar y wefan a darganfuwyd nad oedd y cymal wedi ei gynnwys yn sawl un o'r swydd ddisgrifiadau. Gwelwyd bod patrwm yn ymddangos a bod rhai Gwasanaethau o fewn y Cyngor wedi hysbysebu ar gyfer sawl swydd ond heb gynnwys y cymal yn y swydd ddisgrifiadau.

Yn ogystal gwiriwyd swydd ddisgrifiadau terfynol a oedd wedi eu cynnwys yn ffeiliau personél sampl o weithwyr a ddetholwyd ar hap. Nid oedd y rhan helaeth o'r rhain yn cynnwys y cymal ychwaith.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ail gylchredeg yr e-bost sy'n mynegi'r angen i ychwanegu'r cymal i bob swydd disgrifiad o hyn ymlaen i holl reolwyr/uwch reolwyr y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod y cymal wedi ei gynnwys yn y swydd ddisgrifiad cyn ei hysbysebu ar y wefan.**
- **Dylid sicrhau bod pob swydd ddisgrifiad yn cynnwys y cymal yma a'i fod yn cael ei arwyddo a'i gynnwys yn ffeil personél y gweithiwr.**

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL - TREFNIADAU DIRPRWYO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau i Aelodau a swyddogion y Cyngor yn ogystal â gwirio bod gweithrediaeth yn unol â'r trefniadau dirprwyo. Yn ogystal â hyn, sicrhau bod aelodaeth briodol o'r pwyllgorau perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd sampl o benderfyniadau a wnaethpwyd yn ogystal ag aelodaeth pwyllgorau perthnasol gan sicrhau eu bod yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion arall.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau llywodraethu cryf yn bodoli ar y cyfan, ond bod un agwedd angen ei wella. Yr agwedd yma yw'r trefniant o adolygu amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd pwyllgorau fel ei fod yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yng "Nghanllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cafodd hyn ei adnabod fel pwynt i'w weithredu gan y Gwasanaeth Democrataidd.

Yn ogystal â hyn, gwelwyd nad oedd gofynion aelodaeth Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi ei gynnwys o fewn Cyfansoddiad y Cyngor, er bod Rhan 3 o'r Cyfansoddiad yn nodi y dylid fod o fewn Rhan 2.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ceisio barn yr Aelodau wrth benderfynu amseroedd a lleoliad cyfarfodydd h.y. os dylid cynnal rhai o'r cyfarfodydd yn ystod y nosweithiau ayb. Dylid cynnal arolwg o leiaf unwaith bob tymor.**
- **Dylid cynnwys gofynion aelodaeth y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad.**

# RHEOLAETH GYLLIDEBOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau a phrosesau priodol sydd yn ymwneud â chyllidebau a rheolaeth gyllidebol yn bodoli ar draws y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu dogfennau a chofnodion perthnasol sydd yn ymwneud â chyllidebau refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14, yn ogystal â gwirio trefniadau cau'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaeth gryf yn y broses o reoli cyllideb. Fodd bynnag, mae ychydig o fan lefydd lle gellid tynhau ychydig ar y trefniadau. Y prif ddarganfyddiad yw'r angen i ddiweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor fel ei fod yn adlewyrchu'r drefn weithrediaeth Cabinet yn ogystal â diweddaru'r cynnwys. Noder fod Grŵp eisoes wedi ei sefydlu i ymgymryd â'r gwaith yma.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Gyllidebol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Cynigir un argymhelliad.**

- **Dylid ystyried addasrwydd y Rheolau Gweithdrefn Ariannol mewn perthynas ag awdurdodi trosglwyddiadau rhwng cyllidebau.**

# CYFLOGAU - TÂL MAMOLAETH
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod taliadau lwfansau mamolaeth yn gywir ac yn unol â gofynion statudol a gweithdrefnau swyddogol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr adolygiad yn gwerthuso sampl o gofnodion a thaliadau a wnaed yn ystod 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd yn ystod yr archwiliad wedi derbyn taliadau lwfansau mamolaeth yn unol â'r rheoliadau. Nodwyd rhai anghysondebau fodd bynnag a cyfeirwyd yr achosion hynny at sylw staff y Gwasanaeth Cyflogau yn ystod cynnal y gwaith maes. Mae'r archwilwyr o'r farn y byddai nifer yr achosion tebyg yn lleihau yn y dyfodol petai camau yn cael eu cymryd i drosglwyddo o broses papur i broses electroneg ar gyfer y cyfrifiadau. Byddai hyn yn ychwanegu manteision ychwanegol o ddiogelu'r data rhag colled ynghyd â chysoni trefniadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cyflogau - Tâl Mamolaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r amgylchiadau arweiniodd at sefyllfa lle nad oedd y Gwasanaeth Cyflogau na'r Adran Adnoddau Dynol yn ymwybodol o absenoldeb mamolaeth aelod o staff ar yr adeg priodol er mwyn canfod os oes unrhyw wersi y gellid eu dysgu i atal achosion tebyg yn y dyfodol lle nad oedd modd talu'r symiau priodol ar yr adeg cywir.**

- **Dylid gwerthuso cyflwyno dulliau electroneg o gynnal a chyflawni cyfrifiadau taliadau mamolaeth.**

# GWIRIADAU BUDD-DAL AR SAIL RISG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y buddsoddiad yn y "Risk and Verification Portal" ar gyfer cyflwyno gwireddu ceisiadau budd-dal yn seiliedig ar risg yn dwyn ffrwyth o safbwynt:

•perfformiad ystadegol prosesu,

•rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar achosion risg uchel drwy leihau'r gwiriadau ar gyfer prosesu ceisiadau risg isel,

•sicrhau bod y trefniadau a fabwysiadwyd yn cydymffurfio â gofynion cylchlythyr HB/CTB S11/2011 yr Adran Waith a Phensiynau.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r polisi ar gyfer cynnal gwiriadau ar sail risg a chadarnhau ei fod yn unol â gofynion yr Adran Waith a Phensiynau. Gwirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd ers Ebrill 2013 a chadarnhau bod y gwiriadau perthnasol yn unol â'r sgôr risg wedi eu cynnal ac nad oes unrhyw gais yn cael ei israddio a bod awdurdodiad priodol dros gynyddu gwiriadau cais risg isel neu ganolig. Hefyd, gwirio canllawiau hyfforddiant a baratowyd ynghyd â chadarnhau bod y buddsoddiad yn y meddalwedd wedi cynorthwyo i wella ystadegau perfformiad.

Prif Ddarganfyddiadau

Sefydlwyd a chymeradwywyd Polisi Gwireddu yn Seiliedig ar Risg ym mis Gorffennaf 2012. Gwelwyd bod y polisi'n cydymffurfio â gofynion yr Adran Waith a Phensiynau. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ynghyd â chanllawiau a thaflen ar sut i weithredu. Gwelwyd bod adroddiadau rheolaethol yn cael eu cynhyrchu ar sail reolaidd i adnabod unrhyw geisiadau sydd heb dderbyn sgôr risg a bydd yr adroddiadau hynny yn derbyn sylw priodol. Ar sampl ar hap a ddetholwyd, gwelwyd bod gwiriadau priodol wedi eu cynnal yn y mwyafrif uchel o achosion. Ar gyfer yr achosion ble y tybiwyd bod gor-wirio, derbyniwyd eglurhad i gefnogi'r rhesymeg dros y camau gweithredol.

Yn ddelfrydol, dylai bod buddsoddiad yn y modiwl wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd net o £129,179 dros dair blynedd. Mae'n anodd rhoi ffigwr cyfredol ar yr arbediad ond yn sicr mae'r buddsoddiad yn adlewyrchu'n bositif yng nghanlyniadau perfformiad Cyngor Gwynedd yn ystadegau'r Adran Waith a Phensiynau. Yn ogystal, mae'n rhaid cofio bod baich gwaith ychwanegol ar y gwasanaeth yn sgil y newidiadau mewn deddfwriaeth sydd wedi arwain at nifer uchel yn cyflwyno ceisiadau am daliadau tai dewisol. Serch hynny, maent wedi llwyddo i gynnal eu perfformiad heb dderbyn unrhyw adnoddau ychwanegol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# TRETH CYNGOR - GOSTYNGIADAU AC EITHRIADAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer caniatâu ac adolygu gostyngiadau ac eithriadau Treth Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r gostyngiadau ac eithriadau Treth Cyngor drwy adolygu'r dystiolaeth a'r gefnogaeth ar gyfer eu sefydlu, ac asesu pa dasgau goruchwylio ac adolygu sydd yn cael eu cyflawni i sicrhau eu priodoldeb.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan y Gwasanaeth Refeniw system bwrpasol ar gyfer prosesu gostyngiadau neu eithriadau Treth Cyngor. Mae paramedrau wedi eu ffurfweddu o fewn y system er mwyn sicrhau fod hyd gweithredol y gostyngiadau neu eithriadau yn unol â'r cyfnod uchaf sydd wedi eu diffinio gan bolisïau'r Cyngor neu'r arweiniad statudol.

Gwelwyd fod gan y Gwasanaeth Refeniw brosesau amrywiol er mwyn adolygu statws yr achosion sydd yn cael eithriad neu ostyngiad treth. Fel rhan o waith maes yr archwiliad yma, adolygwyd achosion ble mae cyfrif wedi cael eithriad neu ostyngiad a gwelwyd fod cyfnod adolygu statws wedi ei gyrraedd a thu hwnt yn sylweddol ar gyfer nifer ohonynt. Deallir fod y Gwasanaeth yn gwerthuso eu prosesau adolygu gydag ystyriaethau yn cael eu rhoi i ddulliau mwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r archwilwyr yn gefnogol o'r dulliau cymharu ffynonellau data amrywiol er mwyn canfod anghysondebau a thargedu adolygiadau yn fwy uniongyrchol.

Yn y cyfamser, byddai yn briodol parhau i anfon y ffurflenni adolygu yn yr achosion lle nad oes proses amgen mewn lle. Fe fyddai yn briodol i'r Gwasanaeth Refeniw werthuso'r cyfnodau cynnal ymarferion ar ffurf y ffurflenni adolygu er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod rhwng adolygiadau yn rhy hir ar gyfer rhai eithriadau. I'r perwyl hyn, fe fyddai'n briodol asesu'r amledd o weithredu'r broses yn ystod blwyddyn ynghyd â'r hyd amser y caniateir fel paramedr ar gyfer yr eithriadau amrywiol.

Trafodwyd rhai achosion penodol o eithriadau a gostyngiadau gyda swyddogion y Gwasanaeth a cytunwyd y byddai rhain yn cael sylw pellach er mwyn sicrhau eu priodoldeb.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gostyngiadau ac eithriadau Treth Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gwerthuso'r trefniadau sydd mewn lle ar hyn o bryd ar gyfer sefydlu'r cyfrifon Treth Cyngor sydd i gael eu hadolygu.**
- **Dylid bwrw ymlaen i fabwysiadu ymarferiadau cymharu data fel prosesau cyfnodol gan leihau'r defnydd o ffurflenni datgan statws sydd yn cael eu hanfon i unigolion atebol am Dreth Cyngor.**

## SWYDDOGION ADFYWIO BRO
## Economi a Chymuned

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau fod y gwasanaeth y Tîm Adfywio Bro yn bodloni disgwyliadau strategol y Cyngor a gofynion preswylwyr, a bod trefniadau digonol ar gyfer rheoli a monitro adnoddau a pherfformiad y gwasanaeth.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwirio fod y gwasanaeth mae'r Tîm Adfywio Bro yn ei gynnig yn bodloni'r amcanion disgwyliedig yn unol â strategaeth y Cyngor, gyda'r gwasanaeth yn cael ei dargedu at y cymunedau a phartïon cywir. Gwirio bod swyddogion Adfywio Bro yn cynnig y gwasanaeth i'r cyhoedd yn unol â dyletswyddau eu swyddi. Gwirio fod trefniadau digonol yn bodoli ar gyfer rheoli a monitro perfformiad a chostau adnoddau'r gwasanaeth.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod y Tîm Adfywio Bro yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a phartneriaethau er mwyn adnabod cyfleon a gweithredu prosiectau adfywio o fewn eu hardal, gyda nifer o brosiectau yn derbyn cymorth dros wasgariad o ardaloedd o fewn ffiniau'r sir yn derbyn cymorth. Adnabuwyd achlysuron lle y gallai'r Tîm Adfywio Bro wella eu trefniadau rheolaeth a monitro o ran adnoddau, gan gynnwys adolygu'r system cofnodi i gymeradwyo gwyliau blynyddol a TOIL, a chostau teithio. Yn ogystal, adnabuwyd camgymeriadau yn ffigyrau mesuryddion perfformiad i Tîm Adfywio Bro ar gyfer 2012-13.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Swyddogion Adfywio Bro gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid dogfennu'r meini prawf y dylid cydymffurfio â hwy cyn gellir dethol grwpiau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a phartneriaethau i dderbyn cymorth mewn ffurf canllawiau, yn ogystal â'i ddosbarthu i Swyddogion Adfywio Bro.**

- **Dylid paratoi taflen wirio o'r hyn sy'n ddisgwyliedig i Swyddogion Adfywio Bro wirio, a'r meini prawf sy'n ddisgwyliedig i grwpiau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a phartneriaethau eu bodloni er mwyn derbyn eu cymorth, gan ofyn i Swyddogion Adfywio Bro eu cwblhau a'u dyddio ar gyfer yr achlysuron lle mae grwpiau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a phartneriaethau yn derbyn eu cymorth gyda phrosiectau neu beidio, pe na baent yn bodloni'r meini prawf.**

# PARCIAU GWLEDIG
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau priodol yn bodoli yn y Parciau Gwledig, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â rheolau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymweld â Pharciau Gwledig Glynllifon a Phadarn a gwirio bod trefniadau priodol yn bodoli yn y Parciau ar gyfer rheoli amrywiol o risgiau. Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nhgyfriflyfr (Cedar) ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd materion yn ymwneud â phrydles y siop ym Mharc Gwledig Glynllifon, a diffyg cymal yn y brydles yn manylu ar rai materion allweddol.

Nid oedd asesiadau risg cyfredol yn bodoli yn y Parciau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Parciau Gwledig gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau mai daliwr y gyllideb sy'n ardystio ffurflenni goramser staff pob amser.**
- **Dylid sicrhau pan fo incwm yn cael ei dderbyn bod derbynneb yn cael ei gwblhau o'r llyfryn TR32 a bod rhif y dderbynneb yn cael ei gofnodi ar y daflen TR34 'Derbyniadau a Bancio'.**
- **Dylid casglu arian sy'n ddyledus i'r Cyngor cyn gynted â phosibl.**
- **Dylid sicrhau pan fo'r siop yn cael ei hail osod fod prydles pwrpasol yn cael ei chreu gyda chymal ynddi yn ymdrin â'r materion a godwyd.**
- **Dylid o bryd i'w gilydd gwirio fod yr arian a gesglir gan y cwmni diogelwch ac a nodir ar yr adroddiadau wedi eu talu mewn i'r cyfrif incwm perthnasol.**
- **Dylid codi cyfradd TAW cywir ar yr ad-daliadau trydan gan yr asiantaethau allanol yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.**

# GWYNEDD NI
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer gwasanaethau Gwynedd Ni.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o ddulliau Gwynedd Ni i drefnu a darparu eu gwasanaethau a chyflwyniadau, gan sicrhau eu bod yn unol ag amcanion y Cyngor ynghyd ag ymarfer da. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o briodoldeb gwariant Gwynedd Ni.

Prif Ddarganfyddiadau
Yn ystod yr archwiliad gwelwyd fod Gwynedd Ni wedi sefydlu amryw o ddulliau cyswllt priodol ar gyfer plant a theuluoedd i gael mynediad at wybodaeth ac wedi mabwysiadu amryw o ddulliau i hyrwyddo eu defnydd. Nodwyd bod sgôp i ychwanegu at y dulliau mewn lle i ledaenu'r ymgysylltiad â chleientiaid. Gwelwyd fod Gwynedd Ni yn ymdrechu i gadw cyswllt gyda'r asiantaethau amrywiol er mwyn sicrhau fod y wybodaeth y maent yn ei ddarparu i'w cleientiaid yn gywir a pherthnasol, a gwelwyd fod cynllun i ffurfioli'r cyfrif o ba ddeunydd y mae cleientiaid yn ei gasglu er mwyn gwerthuso pa bynciau sydd fwyaf perthnasol a sicrhau fod digon o ddeunydd yn ymwneud â'r pynciau hynny ar gael.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Gwynedd Ni gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae un argymhelliad:**

- **Dylid anelu i gael cysylltiadau gwê i safleoedd Gwynedd Ni yn ymddangos i ddisgyblion pan maent yn defnyddio porwr gwê mewn ysgolion.**

# DIOGELWCH GLINFYRDDAU
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
The purpose of the audit was to review the controls in place for the protection of laptop computers that are used for Council business and the data that is stored on them.

Cwmpas yr Archwiliad
The audit included a review of the Council's IT inventory and arrangements for maintaining it together and the measures and policies in place for the protection of laptop computers and data on them including providing guidance to their users.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae angen sefydlu trefniant sydd am wella'r rheolaeth dros y glinfyrddau sydd yn cael eu dyroddi gan y Gwasanaeth TG. Byddai yn briodol i'r trefniant yma fod yn gam cychwynnol ar gyfer sefydlu trefn gorfforaethol ar gyfer rheoli pob ased y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i staff ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau.
Dros y blynyddoedd, nid yw'r Gwasanaeth TG wedi bod mewn sefyllfa i allu diweddaru eu cofnodion am ddefnyddwyr a lleoliad glinfyrddau ac erbyn hyn mae nifer na ellir rhoi cyfrif amdanynt. Nid oes modd datgan os yw hyn wedi arwain at gyfaddawd diogelwch data gan nad oes modd sefydlu beth yw cynnwys disgiau'r dyfeisiau yma. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw'n briodol i'r sefyllfa barhau. Mae'n rhesymol awgrymu bod tebygolrwydd cryf fod y diffyg o sefydlu cyfrifoldeb dros reoli glinfyrddau wedi iddynt gael eu dyroddi i ddefnyddwyr gan y Gwasanaeth TG yn arwain at golledion ariannol lle nad oes modd rhoi cyfrif am y dyfeisiau ond ni welwyd tystiolaeth bendant o hynny yn ystod cynnal gwaith maes yr archwiliad yma.
Mae angen dynodi cyfrifoldebau swyddogol am y glinfyrddau sydd yn cael eu dyroddi i ddefnyddwyr ac mae'r dyletswyddau ac atebolrwydd yn sgîl hynny angen ei wneud yn glir.
Mae angen i ddefnyddwyr gael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r disgwyliadau sydd arnynt mewn perthynas â'r defnydd o linfyrddau o safbwynt diogelwch.
Mae'r delweddau safonol sydd yn cael eu gosod gan y Gwasanaeth TG ar linfyrddau ar hyn o bryd yn sicrhau fod y disgiau wedi eu hamgryptio a gyda rheolaethau diogelwch eraill fel wal dân a meddalwedd gwrth-firws. Mae hyn yn lleihau'r risgiau diogelwch mewn perthynas â'r glinfyrddau yma.
Ar adeg yr archwiliad yma, mae proses o drosglwyddo pob dyfais cleient i system weithredol fydd yn parhau i gael cefnogaeth a chyweiriadau priodol yn unol â gofynion safonau diogelwch. Wedi cyflawni'r broses yma fe fyddai yn briodol i sefydlu trefn fyddai yn atal cysylltiadau llwyddiannus at ddata ac adnoddau'r rhwydwaith i unrhyw ddyfais cleient sydd heb system weithredol briodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Diogelwch Glinfyrddau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid dynodi yn swyddogol y cyfrifoldebau am reoli glinfyrddau sydd wedi eu dyroddi allan gan y Gwasanaeth TG a dylid gwneud yn glir pa ddisgwyliadau sydd yn berthynol â'r cyfrifoldebau yma. Dylid gwneud hyn mewn ffordd fyddai'n caniatau uno'r rhestr yma gyda basau-data eraill yn y Cyngor o asedau amrywiol sydd wedi eu dyroddi i staff.**

# PLANT - LWFANSAU ÔL-OFAL
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol o fewn y Cyngor wrth weinyddu'r gyllideb plant ôl-16.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o lwfansau ôl-16 a dalwyd yn y flwyddyn ariannol 2012-13 a 2013-14, a sicrhau bod y rhai sydd wedi eu derbyn yn gymwys i'r cymorth.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith y gellir rhoi sicrwydd bod y sawl sy'n gadael gofal yng Ngwynedd yn cael y cymorth sy'n ddisgwyliedig o'r Cyngor, ond bod rhai o'r rheolaethau mewnol o fewn y Gwasanaeth angen eu tynhau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Plant - Lwfansau Ôl-ofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ddiweddaru y ddogfen 'Crynodeb o Gymorth Ariannol i Unigolion sy'n Gadael Gofal'.**

- **Dylid cadw cofnod cyfredol o wariant unwaith ac am byth, heb TAW, fel bo modd gweld faint o wariant sydd wedi ei wneud fesul unigolyn.**

- **Dylid nodi symiau net a'r elfen TAW ar y slipiau codio melyn wrth dalu anfonebau TAW.**

- **Ble'n ymarferol bosib, dylid codi archeb swyddogol cyn derbyn nwyddau neu gwasanaeth.**

# BRYN BLODAU, LLAN FFESTINIOG
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Cartref Bryn Blodau yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2012-13 ac 2013-14 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwiriwyd hyn mewn gwahanol feysydd y Cartref megis trefniadau ariannol, trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau, trefniadau arian poced y preswylwyr a threfniadau cyfrif amwynder. Darganfuwyd bod gwendidau ychwanegol yn nhrefniadau cytuno gwyliau blynyddol ac mae rhain angen eu hadolygu mor fuan ag sydd bosib. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Bryn Blodau, Llan Ffestiniog gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau nad oes gorwariant ar y gyllideb sydd yn cael ei reoli. Dylid sicrhau bod y swyddogion penodol ym mhob adran yn ymwybodol o'r gyllideb ac yn wyliadwrus o'r gwariant.**

- **Dylid sicrhau bod y cartref yn codi archeb swyddogol cyn yr anfoneb am bob gwaith, nwyddau a gwasanaeth a phan archebir yn llafar oherwydd brys, rhaid anfon archeb swyddogol ysgrifenedig i gadarnhau hynny yr un diwrnod neu'r diwrnod gwaith canlynol.**

- **Dylid sicrhau fod cardiau arian preswylwyr yn cael eu cwblhau yn fanwl ac yn gywir. Dylid sicrhau fod y cofnodion yn cael eu harwyddo gan ddau swyddog neu un swyddog ac un preswyliwr. Dylid sicrhau fod y balans o'r cerdyn blaenorol yn cael ei gario drosodd i gerdyn newydd er mwyn cadw cofnod cywir.**

- **Dylid sicrhau fod pob rhan o gynlluniau gofal y preswylwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.**

# GWEITHIAU ADENILLADWY
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r drefn o adhawlio arian am waith Adennilladwy gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Cwmpas yr Archwiliad
Llunnir yr archwiliad drwy archwilio sampl o ddigwyddiadau/gwasanaethau Gwaith Adenilladwy o bum rhanbarth - Arfon (B205), Dwyfor (B206), Meirionnydd (B207), Uned Goleuo Ffyrdd (B208), Gwaith Goleuo (BG51) a Gwaith A55 Môn (BF53), gan ddilyn trwy gofnodion yn yr Uned Incwm/Dyledwyr a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Archwiliwyd cofnodion blwyddyn ariannol 2012/2013.

Prif Ddarganfyddiadau
Wrth edrych ar y trefniadau Gweithiau Adenilladwy gwelir bod trefniadau cryf o ymarfer da yn cael eu harddangos yn yr Adran drwy drefniadau adennill sydd yn unol â'r rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor. Edrychwyd ar drefniadau sydd mewn lle i hysbysu yr Uned Gwaith Priffyrdd pryd mae angen adennill costau gwaith a'r trefniadau o anfonebau yn cael eu codi yn gywir a phrydlon. Gwelir bod y trefniadau o safon uchel. Fodd bynnag, cynigir dau welliant ar yr ymarfer da, tynnu lluniau fel tystiolaeth ychwanegol i bob taflen cofnodi digwyddiad ac i’r Uned Gyfreithiol dirprwyo’r gwaith adennill dyledion i swyddog penodol cyn gynted â phosib. Er hyn, gwelir bod trefniadau mewn lle ar gyfer adennill costau yn effeithiol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Gweithiau Adenilladwy gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.**

# GWASTRAFF MASNACHOL
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol mewn lle wrth reoli a gweinyddu gwasanaeth Gwastraff Masnachol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gytundebau ac anfonebau a'r drefn o gasglu incwm, y basdata a'r rhestrau casglu, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o annog busnesau i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith nad yw'r basdata newydd gwastraff masnachol yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial ar hyn o bryd. Drwy gynnwys modiwl o fewn y basdata gall gyfrifo'r disgownt ailgylchu yn ogystal â defnyddio'r rhestr prisiau i gyfrifo'r symiau i'w hanfonebu, gellir lleihau'r risg o gamgymeriadau ac arbed amser i'r Gwasanaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol y gwasanaeth Gwastraff Masnachol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid uchafu potensial gwefan y Cyngor drwy gynnwys gwybodaeth llawn a chyfredol ynglyn â'r gwasanaeth casglu gwastraff masnachol.**

- **Dylid defnyddio'r wybodaeth sydd yn y basdata i wahodd busnesau sydd yn y gorffennol wedi peidio adnewyddu cytundeb casglu gwastraff masnachol gyda'r Cyngor i ystyried ail-ymuno âr gwasanaeth.**

- **Dylid codi ffioedd sy'n gyson â hyn hysbysebwyd ar y rhestr prisiau.**

- **Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o fewnbynnu'r rhestr prisiau i'r basdata, gan gynnwys casgliadau ychwanegol, fel gall y basdata gyfrifo'r symiau sydd i'w anfonebu yn awtomatig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi ei gosod o fewn y tab 'Manylion Casgliadau'.**

- **Dylid sicrhau nad yw busnes sydd mewn dyled i Gyngor Gwynedd yn derbyn gwasanaeth casglu gwastraff masnachol ar gredyd.**

- **Dylid codi ymwybyddiaeth o fodolaeth a chynnwys Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth yn ogystal â Pholisi Canu'r Gloch y Cyngor.**

# RHEOLAETH DATBLYGU - GORFODAETH
## Rheoleiddio

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau'r Uned Gorfodaeth Cynllunio o fonitro a gorfodi amodau ceisiadau cynllunio sydd wedi eu cytuno neu anghytuno yn ddigonol, yn ogystal â sicrhau bod trefn ddigonol o adnabod datblygiadau heb ganiatâd cynllunio.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Roedd yr archwiliad yn gwirio'r drefn o fewn yr Uned Gorfodaeth Cynllunio o fonitro cydymffurfiad gyda phenderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio, gan sicrhau bod cydbwysedd effeithlon rhwng bod yn adweithiol a rhagweithiol.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol 'Y Gwasanaeth Cynllunio' yn chwarter 1 2013-14, a oedd yn cwmpasu trefniadau cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cynllunio, Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd a Siop Gwynedd. Bwriad archwiliad 'Y Gwasanaeth Cynllunio' oedd sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer derbyn a phrosesu ceisiadau cynllunio, ymdrin â chwynion gorfodaeth ac ymholiadau cynllunio. Fel rhan o'r archwiliad, edrychwyd ar sampl o gwynion gorfodaeth er mwyn sicrhau bod rheolaethau mewnol effeithiol mewn lle ar gyfer datblygiadau heb ganiatâd cynllunio, gan gynnwys bod y cwynion yn cael eu cofnodi, eu cydnabod, eu hymchwilio a'u hymweld yn brydlon a bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer gweithredu achosion ble mae cyfiawnhad cymryd camau gorfodaeth. Roedd yr archwiliad o'r farn bod y trefniant o ymdrin â chwynion gorfodaeth yn ddigonol ar y cyfan.

Oherwydd yr archwiliad a gynhaliwyd yn gynharach yn 2013-14, mae cwmpas yr archwiliad 'Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth' yn eithrio trefniadau gweinyddu 'adweithiol' o fonitro datblygiadau. Mae'r archwiliad yn hytrach yn gwirio'r adnoddau sydd wedi eu neilltuo o fewn yr Uned Gorfodaeth Cynllunio i fonitro cydymffurfiad gyda phenderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio, gan sicrhau bod cydbwysedd effeithlon rhwng bod yn adweithiol a rhagweithiol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Wrth ystyried y trefniadau sydd wrth law yn rhaglen waith y Strategaeth Gorfodaeth Cynllunio, gwelwyd bod trefniadau'r Gwasanaeth Cynllunio o fonitro datblygiadau yn ddigonol, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r gydnabyddiaeth nad yw'n ymarferol monitro pob datblygiad yn rhagweithiol.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau, ond mae cynlluniau mewn llaw i'w rhoi mewn lle. Nid oes argymhellion i'r adroddiad yma, felly, gan y bydd y camau sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth, unwaith y byddant wedi eu cyflawni, yn cryfhau'r materion rheoli sydd wedi eu hadnabod.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2013/14 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2014 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 16 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 20 |
| Disgwyl Adolygiad | 6 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 60 |
| Wedi ei gau | 1 |
| Cyfanswm | 105 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 7 |

2.2 Targed perfformiad 2013/14 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2014. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr oedd **58.1%** **-** allan o'r **105** archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2013/14 roedd **60** wedi eu rhyddhau yn derfynol ac **1** wedi ei gau.

2.4 Mae gwaith yn parhau ar weddill yr archwiliadau, gan anelu i gyrraedd y targed o 95% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Cedwir y cynllun archwilio dan adolygiad parhaus. Yn ychwanegol i addasiadau sydd wedi eu hadrodd i gyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, gwnaethpwyd yr addasiadau canlynol i'r Cynllun Archwilio yn ystod y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2014.

3.2 Mae'r tablau isod yn crynhoi'r addasiadau hyn, yn ogystal â chyflwyno rhesymau dros y newidiadau.

**Tabl 1: Archwiliadau sydd wedi eu tynnu o'r cynllun:**

| **Teitl** | **Rheswm** | **Effaith (dyddiau)** |
|---|---|---|
| Prosiect Cydweithio Rhanbarthol – Canolbwynt Comisiynu Gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)* | Wedi ei dynnu o'r cynllun er mwyn ymgorffori gwaith arall ar gartrefi mewnol y Cyngor | **-20** |

**Tabl 2: Archwiliadau wedi eu hychwanegu i'r cynllun:**

| **Teitl** | **Rheswm** | **Effaith (dyddiau)** |
|---|---|---|
| Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)* | Wedi ei ychwanegu yn dilyn trafodaeth gydag Uwch Reolwyr yn y Gwasanaeth Darparu. Mae hwn yn faes o risg uchel lle mae angen cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol yn ogystal â gofal o safon ddisgwyliedig. Bwriad yr archwiliad yw gwirio fod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn sicrhau fod y trefniadau sydd wedi eu cyflwyno yn cael eu dilyn. | **+20** |

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14 a cynnig sylwadau arno, cymeradwyo'r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-09/2014hyff | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **6.31** | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-09/2014sys | Cefnogi Adolygiadau Meddylfryd System | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.38** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-14/2014 | Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **25.26** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-15/2014gi | Prosiect Strategol Gwella Iechyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-17/2014 | Gweithio mewn Partneriaethau | 35.00 | 0.00 | **35.00** | **28.65** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2014a | Y Drefn Gwynion Corfforaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.50** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2014ags | Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.43** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2014b | Côd Llywodraethu Lleol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.99** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-01/2014c | Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **11.39** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2014d | Polisi Buddiannau Swyddogion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.09** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-02/2014 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **9.61** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2014 | Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.49** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-03/2014 | Rheolaeth Gyllidebol | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **29.95** | Adroddiad Terfynol |
| AO-ARL-05/2014 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **14.28** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-07/2014 | Gwirio Mesuryddion Perfformiad | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **26.07** | Disgwyl Adolygiad |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2014bao | Grant Blas am Oes | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **8.87** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014brec | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **7.21** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014ffe | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **9.41** | Disgwyl Adolygiad |
| 4-DAT-X-ADD/2014ffg | Grant Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.42** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014gap | Grant Amddifadedd Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.92** | Disgwyl Adolygiad |
| 4-DAT-X-ADD/2014ks23 | Grant Refeniw 2012-13 y Cyfnod Sylfaen | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.43** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ELWa/2014 | Grant Addysg ôl-16 | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **0.95** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2014 | Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | 15.00 | 15.00 | **30.00** | **30.94** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDU01/2014 | Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.47** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2014 | GwE | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **6.37** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA15/2014 | Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **21.08** | Disgwyl Adolygiad |
| EADDA35/2014 | Trefniadau Lesu Mewn Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.88** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA35/2014b | Addysg - Adolygiad Cyllidebol | 0.00 | 5.00 | **5.00** | **4.16** | Wedi ei gau |
| EADDAYC/2014a | Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.72** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2014b | Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **25.53** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2014c | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **1.76** | Wedi ei ganslo |
| **ADNODDAU DYNOL** | | | | | | |
| **Hyfforddiant** | | | | | | |
| BE-POL-01/2014 | Defnydd o Cetis - CALMS | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.65** | Adroddiad Terfynol |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2014kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.24** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2014e | System eGaffael | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **5.08** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AE-TAL-01/2014kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.66** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2014kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.91** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2014kc | Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.69** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2014kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.58** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-01/2014ma | Cyflogau - Tâl Mamolaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.09** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2014ot | Cyflogau - Goramser | 10.00 | 10.00 | **20.00** | **21.54** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-05/2014bl | Cyflogau - Blaendaliadau | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **7.66** | Adroddiad Terfynol |
| AP-PEN-01/2014kc | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |
| AP-PEN-07/2014 | Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **10.86** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Refeniw** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AB-BD-01/2014 | Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.65** | Adroddiad Terfynol |
| AB-BD-01/2014kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.81** | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-08/2014 | Grant Gwisg Ysgol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.05** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2014dis | Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **23.61** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2014kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-11/2014 | Ad-daliadau Treth Di-Annedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.90** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2014kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.50** | Adroddiad Terfynol |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | | | | | |
| **Cofrestru** | | | | | | |
| BB-YSG-17/2014 | Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.76** | Wedi ei gynllunio |
| **Swyddog Monitro** | | | | | | |
| 1-CPGV-03/2014 | Rhoddion a Lletygarwch Aelodau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **16.37** | Adroddiad Terfynol |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| BE-POL-10/2014bro | Swyddogion Adfywio Bro | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.87** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-C04/2014est | Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.58** | Adroddiad Terfynol |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-TS-01/2014 | Neuadd Buddug, Y Bala | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **4.26** | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-02/2014 | Porthladdoedd | 20.00 | 10.00 | **30.00** | **31.28** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMZ-01/2014 | Parciau Gwledig | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.69** | Adroddiad Terfynol |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2014a | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-AH-01/2014 | Trefniadau Sefydlu yr Academi Hwylio | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2014r | Grantiau Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw a Hyfforddiant | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.05** | Adroddiad Terfynol |
| DDAT-AD-05/2014 | Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **2.72** | Wedi ei gynllunio |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DDAT-MT-01/2014 | Prosiect "Ein Treftadaeth" | 22.00 | 0.00 | **22.00** | **2.91** | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-MT-02/2014cc | Canolfannau Croeso | 15.00 | 10.00 | **25.00** | **23.63** | Adroddiad Terfynol |
| **GOFAL CWSMER** | | | | | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2014 | Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **13.76** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyswllt Cwsmer** | | | | | | |
| BD-PW-08/2014 | Siopau Gwynedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.14** | Adroddiad Terfynol |
| **Llyfrgelloedd** | | | | | | |
| EDIW-LL-07/2014 | Gwynedd Ni | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.69** | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-06/2014 | Logio a Monitro | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **9.45** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-09/2014 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| AW-TG-12/2014 | Diogelwch Glinfyrddau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.61** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-17/2014cor | Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol) | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.45** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-17/2014ysg | Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.08** | Adroddiad Terfynol |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-02/2014 | Cynllun Rheoli Asedau | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **7.26** | Wedi ei gynllunio |
| BA-EID-02/2014off | Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.89** | Adroddiad Terfynol |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| GCC-03/2014 | Trydydd Sector - Grantiau, Comisiynu a Chontractau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GDAPR-GC05/2014 | Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **28.61** | Adroddiad Terfynol |
| GRH-GW01/2014ff | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.86** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GRH-GW01/2014rba | "Canlyniadau'n Cyfrif" | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **6.19** | Adroddiad Terfynol |
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-BUS/2014hub | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol – Canolbwynt Comisiynu Gofal | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2014 | Cefnogi Pobl | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.63** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-SP01/2014gr | Grant Cefnogi Pobl 2012-13 | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **3.45** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2014les | Cynllun Lesu Tai Sector Breifat | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2014 | Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **24.97** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMV-01/2014 | Grantiau Cyngor Chwaraeon | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.33** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GCC-07/2014 | Taliadau Uniongyrchol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **20.39** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-H07/2014tel | Teleofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-OED1/2014gal | Cynlluniau Galluogi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **26.51** | Adroddiad Terfynol |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| GGWAS-P02/2014 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.52** | Disgwyl Adolygiad |
| GGWAS-P05/2014lwf | Plant - Lwfansau Ôl-ofal | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.82** | Adroddiad Terfynol |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART/2014 | Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor | 0.00 | 20.00 | **20.00** | **13.55** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 5-GOF-CART1355/2014 | Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | 0.00 | 20.00 | **20.00** | **29.43** | Adroddiad Terfynol |
| **Tai Sector Breifat** | | | | | | |
| T-TAI-G06/2014 | Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.79** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-G10/2014 | Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.66** | Adroddiad Terfynol |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PPR-GW03/2014 | Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.74** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-WK01/2014 | Gweithiau Adenilladwy | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.16** | Adroddiad Terfynol |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GORF/2014gang | Gangiau Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.58** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PBW-05/2014 | Gwastraff Masnachol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **23.66** | Adroddiad Terfynol |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | |
| DDAT-CC-01/2014txi | Taliadau i Gwmnioedd Tacsi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **10.88** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cynllunio** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DCYN-RD-01/2014cyn | Y Gwasanaeth Cynllunio | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **38.46** | Adroddiad Terfynol |
| DCYN-RD-01/2014gor | Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.29** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| T-YC-IA01/2014 | Safonau Masnach | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.25** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-RHE-01/2014 | Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.82** | Wedi ei gynllunio |
| 3-RHE1-X-GRANT/2014g | Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **16.07** | Adroddiad Terfynol |
| DDAT-CC-01/2014 | Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **25.04** | Adroddiad Terfynol |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| BE-POL-08/2014 | Strategaeth Caffael | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **0.96** | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfeiriad Strategol** | | | | | | |
| BE-POL-11/2014 | Cronfa SMAP | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.96** | Adroddiad Drafft |
| BE-POL-13/2014 | Diogelwch Cymunedol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.55** | Adroddiad Drafft |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2014 | Hyfforddi Aelodau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **12.16** | Disgwyl Adolygiad |
| BB-YSG-19/2014 | Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.99** | Adroddiad Terfynol |
| **Perfformiad a Chraffu** | | | | | | |
| 1-CORFF-05/2014 | Trefniadau Rheoli Prosiectau | 26.00 | 0.00 | **26.00** | **9.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-05/2014cm | Prosiect "Channel Migration" | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-05/2014tp | Prosiect "Total Place" | 15.00 | -15.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2014 | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.76** | Gwaith Maes ar y gweill |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2014/15** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2014 - 31 MAWRTH 2015** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2014/15 (yn yr Atodiad) er sylwadaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 gan y Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2012. Y strategaeth yma sydd yn sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n esbonio sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

2.2 Mae rhaglen waith Archwilio Mewnol wedi ei gynllunio a'i baratoi yn unol â'r camau a amlinellir yn y Strategaeth Archwilio Mewnol; mae'r Strategaeth hefyd yn esbonio sut bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella er lles y dinesydd. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r adnoddau y disgwylir y bydd ar gael iddo, ac yn datgan y rhagolygon o safbwynt cydweithio ag eraill.

## 3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd oddeutu 1,506 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb — 55 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol — 120 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant — 65 diwrnod

3.2 Mae'r dyddiau hyn yn adlewyrchiad o'r hyn sydd wedi profi'n angenrheidiol yn ymarferol mewn blynyddoedd diweddar.

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO GWEITHREDOL

4.1 Mae'r Strategaeth yn rhoi disgrifiad manwl o'r camau sydd i'w ddilyn er mwyn paratoi'r cynllun archwilio gweithredol blynyddol.

4.1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol yn gosod disgwyliadau y bydd Archwilio Mewnol yn rhoi ystyried i'r trefniadau rheoli risg sydd eisoes yn eu lle yn y Cyngor wrth lunio ei raglen waith, a lle nad yw'r trefniadau hyn ddigon cryf, fod Archwilio Mewnol yn cynnal ei ddadansoddiad risg ei hun.

4.1.2 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cofrestrau risg corfforaethol, trawsadrannol ac adrannol wrth baratoi'r cynllun drafft yma. Roddwyd blaenoriaeth hynny i'r risgiau uchel hynny sydd, yn ôl yr adrannau, wedi eu rheoli. Mae hyn yn caniatáu i Archwilio Mewnol roi barn annibynnol ar ddigonolrwydd y rheolaethau mewnol hynny.

4.1.3 Ar ôl ystyried y trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i faterion sydd rhai eu cynnwys yn y cynllun pob blwyddyn, sef:

- Adolygiad o Reolaethau Allweddol y Prif Systemau Ariannol (yn unol â chytundeb gyda Swyddfa Archwilio Cymru)
- Materion Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn seiliedig ar gynnwys y Cod Llywodraethu Lleol
- Archwiliadau sydd yn angenrheidiol oherwydd amodau ariannu
- Meysydd o Wendidau Rheolaeth cyson sydd wedi eu hadnabod
- Adolygiadau ar sail thema yn sefydliadau'r Cyngor.

4.2 Mae'r cynllun archwilio drafft ar gyfer 2014/15 sy'n ganlyniad i'r gwaith yma wedi ei gynnwys yn yr Atodiad. Mae esboniad byr o'r rheswm am gynnwys pob archwiliad yn y cynllun drafft wedi ei nodi.

4.3 Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol cyn cychwyn ar yr archwiliadau hyn. Lle'n briodol, bydd eu hawgrymiadau yn cael eu hymgorffori yn y cynllun terfynol.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014i 31 Mawrth 2015, yn ddarostyngedig i addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.

# Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2014/15

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Addysg** | | |
| Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | Angen adolygiad o'r trefniadau gweinyddol ac adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu | **20** |
| Cyfathebu gydag Ysgolion | Mae ymgysylltiad effeithiol gydag ysgolion yn allweddol er mwyn i ganllawiau, cyngor ac arweiniad fod yn effeithiol | **10** |
| GwE | Angen adolygiad pellach, er mwyn adeiladu ar waith 2013/14 | **20** |
| TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | Mae angen adolygu pob rhan o'r rhwydwaith TG yn ei dro, er mwyn sicrhau gwydnwch yr holl system | **20** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| Ysgol newydd Hafod Lon | Contract cyfalaf sy'n fuddsoddiad ariannol sylweddol | **15** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Grant o faint sylweddol.  Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **8** |
| Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **15** |
| Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |
| Grant Refeniw Dechrau'n Deg | Grant o faint sylweddol.  Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **10** |
| Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |
| **Ysgolion** | | |
| Arlwyaeth | Mae rhai ysgolion wedi sefydlu eu trefniadau eu hunain - angen gwirio cydymffurfiaeth â safonau. | **20** |
| Ysgolion Cynradd - Modelu'r Gweithlu | Adolygiad o'r trefniadau, yn dilyn trafodaeth gydag uwch reolwyr yr Adran Addysg | **20** |
| Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | Cynhalwyd archwiliad o lywodraethu ysgolion cynradd yn 2013/14, felly archwilir trefniadau ysgolion uwchradd yn 2014/15 | **20** |
| **Adnoddau Dynol** | | |
| Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | Gall hwn gyflwyno risgiau sylweddol i rai staff. Mae angen gwirio fod pob adran yn cymryd y mater yma o ddifrif. | **10** |
| System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | Mae hwn yn system newydd sydd wedi ei ddatblygu.  Oherwydd natur yr wybodaeth sydd wedi ei gadw arno, dylid cael gwiriad annibynnol o'i drefniadau gweinyddol. | **25** |
| Trefniadau Salwch - cyfeirio i Iechyd Galwedigaethol | Caiff hwn ei adnabod fod cam pwysig i sicrhau cysondeb a'r gefnogaeth angenrheidiol i staff. | **20** |
| **Corfforaethol** | | |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Angen sicrhau cysondeb, diogelwch staff a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data | **10** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
| --- | --- | --- |
| Cynllun Tywydd Garw | Mae'r cynllun yma wedi ei nodi yn y Cofrestr Risg Trawsadrannol fel bod yn lliniaru risg uchel. Angen gwirio ei fod yn parhau'n ddiweddar ac ymarferol | **10** |
| Defnydd o dechnoleg - astudaeth gwerth am arian | Adolygiad i ddarganfod os yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r technoleg sydd ar gael iddo i wneud arbedion effeithlonrwydd | **25** |
| Ffonau Symudol | Adnabuwyd gwendidau pan adolygwyd y maes yma ddiwethaf, felly mae hwn yn faes risg uchel. | **30** |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | Gwaith sydd i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn i ymdrin â'r risg o dwyll a llygredigaeth | **40** |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan yr archwilwyr allanol | **30** |
| Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | Mae hyfforddiant a datblygu staff yn allweddol er mwyn i'r Cyngor wireddu ei amcanion, ac felly mae angen sicrwydd fod sail resymol i unrhyw eithriadau | **15** |
| **Côd Llywodraethu** | | |
| Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | Caiff hwn ei gynnwys yn y cynllun yn flynyddol | **5** |
| Cynllun Olyniaeth a Cynllunio'r Gweithlu | Mae hwn yn rhan allweddol o waith y Cyngor werth baratoi am y dyfodol | **15** |
| Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | Mae hwn wedi cael ei adnabod gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel rhan allweddol o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu | **15** |
| Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | Rhan o raglen gylchol i adolygu elfennau'r Côd Llywodraethu Lleol | **10** |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | Mae hwn yn reolaeth allweddol wrth sefydlu diwylliant o briodoldeb | **20** |

## Cyllid

| | | |
| --- | --- | --- |
| Rheolaeth Trysorlys | Maes ariannol pwysig sydd heb gael sylw Archwilio Mewnol ers rhai blynyddoedd | **20** |
| Taliadau CHAPS | Archwiliad i adolygu dioglewch a gwerth am arian y math yma o daliad | **10** |
| Trefniadau Rheoli Risg | Elfen allweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor | **20** |
| **Systemau Ariannol Mawr** | | |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **15** |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| Cyflogau - Swyddi Lluosog | Mae'r angen i weinyddu'n gywir y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn rheolaeth pwysig | **25** |
| Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **10** |
| Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **10** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | 15 |
| System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | 5 |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | 10 |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | 15 |
| System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | 5 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | 15 |
| System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | 5 |
| System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | 5 |
| System Treth Cyngor - iPortal | Datblygiad newydd, fydd yn ehangu mynediad i'r system. Angen gwirio'r rheolaethau dros hyn. | 10 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | 10 |

## Economi a Chymuned

| | | |
|---|---|---|
| Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | Mae hwn yn gynllun newydd yn lle'r hen "Cymunedau'n Gyntaf". Gall fod yn faes o risg uchel. | 20 |
| Cynllun Potensial | Wedi bod yn destun buddsoddiad sylweddol a grant Ewropeaidd | 25 |
| Prosiectau Cydweithio Ynni Carbon Isel | Mae prosiectau cydweithio yn cynnig cyfleon, ond hefyd risgiau arwyddocaol | 15 |
| Traethau | Mae nifer o risgiau sydd angen eu rheoli | 10 |
| Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | Nid yw'r maes yma wedi cael ei adolygu ers sawl blwyddyn. | 20 |
| Yr Hafan, Pwllheli | Archwiliad sefydliadol sydd ei angen yn gyfnodol | 10 |

**Cynlluniau Cyfalaf**

| | | |
|---|---|---|
| Academi Hwylio | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | 15 |
| Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | 15 |

**Grantiau**

| | | |
|---|---|---|
| Grant refeniw gwasanaeth ieuenctid | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | 8 |
| Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | 8 |

## Gofal Cwsmer

| | | |
|---|---|---|
| Cydgyfeiriant Rhwydwaith | Mae hwn wedi bod yn y cynllun archwilio ers sawl blwyddyn, ond y prosiect wedi llithro | 20 |
| Galw Gwynedd | Adolygiad o drefniadau yn y ganolfan gyswllt, yn dilyn peth gwaith archwilio arbennig yn 2013/14 | 15 |
| Systemau TG | Bydd asesiadau pellach yn cadarnhau yr union adolygiadau sydd i'w cynnal yn y maes yma | 20 |
| TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Archwilwyd y maes yma yn 2012/13, ond angen sicrhau gwydnwch yn sgil datblygiadau diweddar | 10 |

## Oedolion, Iechyd a Lles

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | Mae rhain yn faes o risg uchel o safbwynt ariannol, iechyd a diogelwch a busnes. | **30** |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Ariannol | Mae adolygiad cyfnodol o'r trefniadau yn y cartrefi preswyl yn angenrheidiol | **15** |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch | Mae adolygiad cyfnodol o'r trefniadau yn y cartrefi preswyl yn angenrheidiol | **15** |
| Cronfa Byw'n Annibynnol | Mae hwn wedi dangos yn y gorffennol y gall fod yn faes o risg uchel. | **15** |
| Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | Risg uchel ar gofrestr risg y gwasanaeth. | **30** |
| Cynllun Lesu Tai Sector Breifat | Wedi llithro o gynllun 2013/14. Cynllun sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau digartrefedd. | **15** |
| Cynllun Lleoli Oedolion | Bu hwn yn destun archwiliad ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'm amserol cynnal archwiliad pellach. | **15** |
| Digartrefedd | Mae o risg gymharol uchel, sydd heb ei archwilio ers yr "Adolygiad System" ar y gwasanaeth | **25** |
| Rheoli achosion Anabledd Dysgu | Yn dilyn archwiliadau yn y gorffennol roedd bwriad cyflwyno trefniadau newydd. Mae hwn yn archwiliad i weld os yw hynny wedi digwydd. | **25** |
| System Reolaeth Gofal Cartref | Cyflwynwyd y system yma rai blynyddoedd yn ôl i drawsnewid trefniadau gweithio. Bydd yr adolygiad yma'n gyfle i gael sicrwydd ar ei effeithiolrwydd. | **20** |
| Tai Sector Breifat - Benthyciadau Adnewyddu | Cynllun newydd i gynnig benthyciadau yn lle grantiau. Mae hynny'n cyflwyno risgiau newydd sydd angen eu hadolygu. | **20** |
| Teleofal | Wedi llithro o gynllun 2013/14. Datblygiad pwysig ar gyfer darparu gofal, sydd hefyd yn cynnwys partneriaid allannol. | **20** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | Contract cyfalaf sy'n fuddsoddiad ariannol sylweddol. Risgiau mawr petai'r cynllun yn methu. | **20** |
| **Grantiau** | | |
| Cefnogi Pobl | Grant mawr sy'n cael cyfeiriad strategol rhanbarthol | **15** |

## Plant a Chefnogi Teuluoedd

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | Awgrymir adolygiad o wydnwch y trefniadau yn y maes pwysig yma | **16** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cytundebau Gwaredu Gwastraff | Mae'r rhain yn arwyddocaol wrth drawsnewid y dull o ddelio â gwastraff. | **15** |
| Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | Disgwylir archwiliadau cyfnodol ar y maes yma o risg. | **10** |
| Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | Canolfannau sy'n boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd, ond lle mae risgiau cynhenid uchel oherwydd natur y peiriannau, traffig ayb | **20** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun drafft? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Meysydd Chwarae | Mae'r Adran wedi adnabod hwn fel risg uchel. Disgwylir fod rhaglen waith yn ei le i sicrhau diogelwch | **15** |
| Rheolaeth Fflyd | Maes sydd â nifer o risgiau, ond heb ei adolygu'n ddiweddar gan Archwilio Mewnol | **20** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **25** |
| **Rheoleiddio** | | |
| Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | Mae risgiau cynhenid o gynlluniau cydweithio | **10** |
| Gorchmynion Ffyrdd | Maes lle gwelwyd gwendidau yn y gorffennol | **20** |
| Gorfodaeth Parcio | Maes o broffil uchel ymysg y cyhoedd, lle byddai sicrwydd annibynnol o briodoldeb yn fuddiol | **20** |
| Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | Maes a all achosi risgiau i'r cyhoedd | **15** |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Angen adolygiad o'r trefniadau gweinyddol ac adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu | **10** |
| Uned Trafnidiaeth Integredig | Maes o risg uchel, sy'n haeddu sylw rheolaidd gan Archwilio Mewnol | **25** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| Pont Briwet | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | **15** |
| **Strategol a Gwella** | | |
| Strategaeth Caffael | Mae hwn yn strategaeth allweddol bwysig i'r Cyngor | **40** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **10** |
| **YGC** | | |
| Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | Oherwydd natur gwaith YGC, mae cofrestrau risg prosiectau unigol yn hanfodol. | **10** |
| Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | Wedi llithro o gynllun 2013/14. Gwiriad fod argymhellion yr adolygiad gan swyddogion Cyllid wedi cael sylw priodol. | **30** |
| | | **1,506** |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **20 CHWEFROR 2014** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AR GANLYNIAD Y GWEITHDY LLYWODRAETHU A GYNHALIWYD AR 29 IONAWR, A CYFLWYNO RHAGLEN WAITH AM Y 3 MIS NESAF** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYTUNO'R AGWEDDAU LLYWODRAETHAU SYDD ANGEN EU HYSTYRIED YMHELLACH, A CYFAWRWYDDO'R GRŴP ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU I LUNIO RHAGLEN WAITH SYDD WEDI EI FLAENORIAETHU** |

---

## 1. CEFNDIR

1.1 Un o ddyletswyddau statudol y Pwyllgor Archwilio, yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw "**adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**".

1.2 Cyflwynwyd diweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2013 ar raglen waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu. Prif fyrdwn yr adroddiad yma oedd ategu'r farn a fynegwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Lythyr Gwella Blynyddol fod angen atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Archwilio, fel bod modd i'r Pwyllgor allu herio trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn fwy effeithiol, a felly cyflawni ei ddyletswydd statudol yn well.

1.3 Yn sgil yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio drefnu gweithdy yn ystod Ionawr 2014 er mwyn cynnal hunanasesiad o egwyddorion llywodraethu da. Cynhaliwyd y Gweithdy yn y Ganolfan Gyswllt, Penrhyndeudraeth ar 29 Ionawr.

1.4 Daeth 7 o aelodau'r Pwyllgor i'r Gweithdy, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd. Rhoddwyd cefnogaeth i'r aelodau gan y Swyddog Monitro, yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

## 2. EGWYDDORION LLYWODRAETHU DA

2.1 Atgoffwyd y Pwyllgor yn Rhagfyr fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010), Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, a Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* (2007) a'i Atodiad (2012) gyda'u gilydd yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad o'i drefniadau llywodraethu o leiaf unwaith mewn blwyddyn.

2.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu Côd Llywodraethu Lleol, sy'n seiliedig ar 6 egwyddor CIPFA / SOLACE o lywodraethu da, sef:

Egwyddor Graidd 1: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).

| | |
|---|---|
| Egwyddor Graidd 2: | Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir. |
| Egwyddor Graidd 3: | Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad. |
| Egwyddor Graidd 4: | Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg. |
| Egwyddor craidd 5: | Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol. |
| Egwyddor craidd 6: | Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn. |

2.3 Er mwyn ehangu perchnogaeth a chyfrifoldeb am adolygu'r trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd, a llunio rhaglen waith er mwyn gwireddu hyn, roedd y Gweithdy ar 29 Ionawr yn gyfle i aelodau'r Pwyllgor Archwilio fynegi eu barn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei gredu yw'r Prif Faterion Llywodraethu y mae Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu.

2.4 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu hefyd wedi ystyried y prif faterion llywodraethu, a cham nesaf yn y rhaglen waith fydd cyfuno'r ddau restr o faterion i greu rhaglen waith. Dyma'r rhaglen waith fydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraeth Blynyddol.

2.5 Mae'r adroddiad yma wedi ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol hefyd, ac wedi cael ei herio ganddo.

## 3. PRIF FATERION LLYWODRAETHU

### Barn y Gweithdy

3.1 Nod ac amcanion y Gweithdy oedd:

- cynyddu dealltwriaeth yr aelodau o beth yw trefniadau llywodraethu
- cynnig blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer pethau sydd angen sylw
- cynnig rhaglen gychwynnol ar gyfer gweithredu dros yr 1 / 2 blynedd nesaf
- deall unrhyw oblygiadau o ran y gwaith ar adolygu'r Cyfansoddiad.

3.2 Rhoddwyd cyflwyniad i'r Gweithdy yn egluro beth yw ystyr "llywodraethu da". Yn ei ffurf symlaf, gellir ei ddehongli fel "Sut yr ydym yn gwneud pethau".

3.3 Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ystyried a thrafod:

- Beth yw llywodraethu da, pam ei fod yn bwysig a'r risgiau o fethiannau llywodraethu. Rhoddwyd pwyslais ei fod yn ymwneud â'r "sut" yn hytrach na'r "beth".
- Beth mae hyn yn ei olygu, a pa fath o weithgareddau sy'n cael eu hystyried fel rhan o "lywodraethu", a beth sydd ddim?
- Syniadau cychwynnol ar faterion "llywodraethu" sydd yn eu pryderu am drefniadau'r Cyngor.
- Y Côd Llywodraeth Lleol a'r egwyddorion sydd ynddo, gan osod y "materion o bryder" o dan yr egwyddorion hynny.
- Adnabod os oes maes llywodraethu / pryder sydd ddim yn cael ei gyfarch yn y côd presennol
- Os yw'r Côd (wedi ei ddiwygio yn ôl yr angen) yn sail i symud ymlaen.

3.4 Dyma'r materion yr oedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio o'r farn yr oedd angen sylw, yn ôl blaenoriaeth:

**Egwyddor 4: Gwneud penderfyniadau tryloyw a chraffu da**

- Gwella'r eglurder ynglŷn â rôl y Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys ystyried os oes rôl gan y swyddogaeth Craffu cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau ar faterion
- Sicrhau fod y Pwyllgor Archwilio ei hun yn cyflawni ei swyddogaethau yn gyflawn
- Gwella'r drefn o gofnodi penderfyniadau, gan gynnwys cofnodion pwyllgorau, er mwyn gyrru gweithgaredd a sefydlu atebolrwydd drwy dracio penderfyniadau a chynnig camau gweithredu clir

**Egwyddor 1: Pwrpas, Gweledigaeth a Deilliannau**

- Yr angen am arweiniad ac eglurder wrth baratoi ar gyfer ad-drefnu

**Egwyddor 5 – Capasiti a Gallu Swyddogion ac Aelodau**

- Yr angen i sicrhau capasiti i ddygymod â'r newidiadau sydd bellach o'n blaenau, yn arbennig yr her ariannol ac ad-drefnu

**Egwyddor 6 – Ymgysylltu**

- Roedd yr aelodau'n barod i beidio â chwilio am gamau penodol ychwanegol os y ceir sicrwydd bod rhaglen waith y Strategaeth Ymgysylltu yn mynd i'r afael â'r maes

**Barn y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu**

3.5 Ar ôl i'r aelodau nodi'r prif faterion llywodraethu yr oeddynt hwy wedi eu hadnabod, eglurwyd iddynt fod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2014, wedi adnabod y materion llywodraethau canlynol fel blaenoriaeth:

- Trefniadau'r Cyngor ar gyfer herio perfformiad
- Mewnbwn aelodau, a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu gydag aelodau
- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd
- Arafwch yn nhrefniadau'r Cyngor, fel canlyniad i ddiffyg cydbwysedd risg / Tueddiad y Cyngor i gymhlethu pethau / Prosesau rhy fiwrocrataidd
- Diffyg eglurder am weledigaeth y Cyngor
- Dull gweithredu y Weithrediaeth newydd a gweithio fel tîm
- Cydweithio a Phartneriaethau
- Mynd i'r afael â'r diffyg arfogi swyddogion i wneud penderfyniadau
- Cryfhau ac egluro rôl y Pwyllgor Archwilio

3.6 Yn amlwg, mae cryn gysondeb yn negeseuon y gweithdy a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu. Mae hyn yn neges ynddo'i hun ac yn cadarnhau sylwedd sylwadau'r ddau grŵp i rhyw raddau. Cododd yr agenda perfformiad yn fwy amlwg yn nhrafodaethau'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu ond roedd y mater ynghlwm yn llawer o'r sylwadau yn y gweithdy. O ychwanegu at hynny sylwadau helaeth Adroddiad Williams ar yr her perfformiad i awdurdodau lleol, mae'n ymddangos bod hynny yn cynnig ei hun ar gyfer sylw buan.

## 4. CAMAU NESAF

4.1 Bydd y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cyfarfod eto ar 8 Ebrill. Bryd hynny bydd yn ystyried y Prif Faterion sydd wedi cael eu hadnabod gan y grŵp ei hun, yn ogystal â'r Gweithdy, er mwyn llunio rhaglen waith ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Caiff y rhaglen waith hwnnw ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystod ail hanner mis Ebrill ac yna i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mai, fel rhan o'r trefniadau ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried os oes unrhyw faterion llywodraethu ychwanegol sydd angen eu hychwanegu i'r materion a nodir uchod.

5.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gyfarwyddo'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu i lunio rhaglen sy'n casglu tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau o brif faterion llywodraethu'r awdurdod, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl eu blaenoriaethu.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO.** |
| **DYDDIAD** | **20 CHWEFROR, 2014.** |
| **TEITL** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **ADRODD WRTH Y PWYLLGOR AM WAITH Y GWEITHGOR.** |
| **AWDUR** | **CYNGHORYDD MICHAEL SOL OWEN, CADEIRYDD Y GWEITHGOR.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Sefydlwyd y Gweithgor Cyfansoddiad i ymgymryd â'r gwaith manwl o adolygu Cyfansoddiad y Cyngor a phenodwyd 7 aelod o'r Pwyllgor arno sef y Cynghorwyr: Michael Sol Owen; Trefor Edwards; John Pughe Roberts; Gethin Glyn Williams; Dafydd Meurig; Dilwyn Morgan; Robert Wright.

2. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ddwy waith ar y 3ydd o Ragfyr a 16eg o Ionawr ac mae dau gyfarfod arall wedi eu rhaglennu, sef yr 20fed o Chwefror a'r 18fed o Fawrth.

3. Diben sefydlu'r Gweithgor oedd i adolygu Cyfansoddiad y Cyngor gyda'r bwriad o gymeradwyo dogfen gyfansoddiadol newydd i'w hargymell i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu yn ei gyfarfod blynyddol ar y 1af o Fai. Mae'r Cyfansoddiad ar ei newydd wedd ar ffurf sydd yn safonol i holl gynghorau Cymru. Mae wedi ei lunio gan gymdeithas sydd yn cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Lluniwyd y Cyfansoddiad safonol oherwydd bod y gyfraith yng Nghymru fel mae'n ymwneud a llywodraeth leol yn gwahaniaethu gryn dipyn oddi wrth y gyfraith yn Lloegr erbyn hyn yn sgil penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ynghyd a'r ffaith bod bob cyngor yng Nghymru erbyn hyn yn gweithredu cyfundrefn Arweinydd a Chabinet.

4. Yn ei gyfarfod cyntaf mabwysiadodd y Gweithgor ddull gweithredu oedd yn golygu ei fod yn edrych yn fanwl ar bedair rhan o'r Cyfansoddiad ym mhob cyfarfod ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau iddynt gyda budd-ddeiliaid perthnasol (e.e. yr Arweinydd a'r Cabinet, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Fforwm Cadeiryddion Craffu, a.y.b.).

5. Atodir er gwybodaeth i'r Pwyllgor, yr amserlen sydd yn dangos y gwahanol rannau o'r Cyfansoddiad sydd yn derbyn sylw'r Gweithgor a'r cyrff yr ymgynghorir â nhw.

6. Ble bynnag y bo'n bosibl, mae'r Gweithgor wedi cadw at drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor ac ychydig o newidiadau o sylwedd fydd yn cael eu hargymell er bod ffurf y Cyfansoddiad yn dra gwahanol i'r un presennol. Lle bo newidiadau sydd yn sylweddol wahanol i'r trefniadau presennol, bydd angen hysbysu yr aelodau o hynny cyn cyfarfod y Cyngor ar y 1af o Fai a bydd y Gweithgor yn rhoi ystyriaeth i'r drefn o wneud hynny yn ei gyfarfod nesaf.

7. Gan nad oes cyfarfod eto o'r Pwyllgor hwn cyn y Cyngor llawn, ac fel y gwelir, fod peth gwaith eto i'w gyflawni, gofynnir i'r Pwyllgor awdurdodi'r Gweithgor i gyflwyno ei adroddiad yn uniongyrchol i sylw'r Cyngor.

**ARGYMHELLIAD.**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor :-

   (a) dderbyn yr adroddiad a nodi gwaith y Gweithgor;

   (b) awdurdodi'r Gweithgor i gyflwyno ei adroddiad ar y Cyfansoddiad diwygiedig i'r Cyngor ar y 1af o Fai.

**ATODIAD**

| ADRAN | PENNAWD | YMGYNGHORAI | DYDDIAD. |
|---|---|---|---|
| 4 | Y Cyngor | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Mawrth 18. |
| 5 | Y Weithrediaeth | Cabinet | Ionawr 16. |
| 6 | Yr Arweinydd | Cabinet | Ionawr 16. |
| 7 | Pwyllgorau Craffu | Fforwm Cadeiryddion Craffu | Ionawr 16. |
| 9 | Rheoleiddio | Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu | Mawrth 18 |
| 12 | Cyllid | Pennaeth Cyllid | Chwefror 20 |
| 13 | Penderfyniadau Dirprwyedig | Grŵp Rheoli<br>Cabinet | Chwefror 20 |
| 14 | Mynediad at Wybodaeth | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Mawrth 18 |
| 15 | Cyllideb a Pholisi | Fforwm Cadeiryddion Craffu | Ionawr 16 |
| 16 | Rheolau Ariannol | Pennaeth Cyllid | Chwefror 20 |
| 19 | Côd Ymarfer Cynllunio | Pwyllgor Cynllunio | Mawrth 18 |
| 21 | Protocol Cysylltu Aelod-Swyddog | Pwyllgor Safonau | Chwefror 20 |